**Bwletin Arholiadau**
**Cymraeg i Oedolion**

Rhagfyr 2022
Rhifyn 19
Adroddiad ar Arholiadau Cymraeg i Oedolion 2022



**Bwletin Arholiadau Cymraeg i Oedolion**

Rhagfyr 2022 Rhifyn 19
Adroddiad ar Arholiadau Cymraeg i Oedolion 2022

Emyr Davies
Swyddog Arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC

| **Cynnwys** | | **Rhif Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyno'r Arholiadau | 2 |
| 2. | Adroddiad y Swyddog | 3 |
| 3. | Mynediad Ionawr 2022 | 4 |
| 4. | Mynediad Haf 2022 | 12 |
| 5. | Sylfaen Haf 2022 | 35 |
| 6. | Canolradd Haf 2022 | 49 |
| 7. | Uwch 2022 | 65 |
| 8. | Dyddiadau Arholiadau 2023 | 80 |
| 9. | ALTE | 81 |

Mae CBAC yn aelod llawn o ALTE (Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop), ac wedi llwyddo i ennill marc ansawdd ('Q-mark') mewn awdit a gyflawnwyd yn 2019.

Cymraeg i Oedolion
CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
CAERDYDD
CF5 2YX

Ffôn: (029) 2026 5007
Ebost: cymraegioedolion@cbac.co.uk

Mae WJEC CBAC Cyf. yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac yn elusen gofrestredig (rhif 1073332). Swyddfa Gofrestredig: CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX.

## 1. Cyflwyno'r Arholiadau

Yn y tabl isod, ceir rhestr o'r cymwysterau Cymraeg i Oedolion. Mae'r rhain wedi eu rheoleiddio ac wedi eu 'dynodi' gan Gymwysterau Cymru. Nodir eu lefel yn y fframwaith cenedlaethol, y lefel yn fframwaith Ewrop a'r rhif dynodi. Nid ydynt bellach wedi eu rheoleiddio gan Ofqual, dim ond gan y rheoleiddwyr cymwysterau yng Nghymru.

| Enw'r cymhwyster | Lefel yn Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru | Lefel Fframwaith Ewrop (CEFR) | Rhif dynodi Cymwysterau Cymru |
|---|---|---|---|
| **DG: Mynediad** | Mynediad (3) | A1 | C00/0078/4 |
| **DG: Sylfaen** | 1 | A2 | C00/0078/9 |
| **DG: Canolradd** | 2 | B1 | C00/0078/8 |
| **DG: Uwch** | 3 | B2 | C00/0077/7 |

Ceir hyd i fanylebau'r cymwysterau ar wefan CBAC, gan gynnwys papurau enghreifftiol. Hefyd, mae llyfrynnau i ymgeiswyr a gwybodaeth am adnoddau ar gael yno: www.cbac.co.uk. Gellir gwirio'r rhifau ar wefan Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau, sef QiW: www.qiw.cymru.

Crynodeb o nifer ymgeiswyr dros y blynyddoedd diwethaf:

| Cymhwyster | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2021 Siarad | 2022 Llawn | 2022 Siarad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad | 726 | 719 | 909 | 869 | 1119 | 713 | 374 |
| Sylfaen | 308 | 279 | 372 | 375 | 328 | 285 | 92 |
| Canolradd | 199 | 150 | 143 | 186 | 165 | 164 | 23 |
| Uwch | 33 | 63 | 44 | 53 | 95 | 62 | 13 |
| **Cyfanswm:** | **1,266** | **1,211** | **1,468** | **1,483** | **1,707** | **1,224** | **502** |

Mae'r niferoedd Mynediad yn cynnwys pob gweinyddiad a fu yn ystod y flwyddyn, hynny yw, Mynediad Ionawr ac arholiadau'r haf yn y dydd a'r nos.

Cyfeiria 'Siarad' at ymgeiswyr a safodd y prawf Siarad yn unig yn y flwyddyn honno. Mae hawl gan ymgeiswyr i gario marc y prawf Siarad, a chwblhau'r cymhwyster y flwyddyn wedyn. Dim ond am flwyddyn y gellir cario marc y prawf Siarad.

## 2. **Adroddiad y Swyddog 2022**

Dychwelodd y drefn arferol o gynnal yr arholiadau Cymraeg i oedolion yn llawn eleni, fwy neu lai. Ym mis Ionawr 2022, roedd cyfyngiadau mewn grym mewn sawl lle, felly dim ond un ganolfan arholi a gynhaliodd y profion llawn a'r lleill wedi cynnal profion Siarad ar-lein. Yn haf 2022, cynhaliodd pob canolfan arholi yr arholiadau'n llawn, ac eithrio un, lle cynhaliwyd profion Siarad yn unig ar lefelau Mynediad a Sylfaen.

Bydd modd i ymgeiswyr sefyll prawf Siarad yn unig o hyn ymlaen, gan gario marc am flwyddyn yn unig (os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny). Wrth gofrestru, rhaid nodi pa fath o gofrestriad sydd ei angen: (i) cymhwyster llawn, (ii) prawf Siarad yn unig, neu (iii) cwblhau'r profion ysgrifenedig ar ôl cyflawni'r prawf Siarad yn y flwyddyn flaenorol.

O ran nifer yr ymgeiswyr a gyflawnodd gymhwyster eleni, gwelwyd bod patrwm 2022 yn debyg i'r hyn a welwyd yn 2017 (gw. y tabl yn rhan gyntaf yr adroddiad hwn). O ychwanegu niferoedd yr ymgeiswyr a safodd y profion Siarad yn unig yn 2022, mae cynnydd i'w weld, gan gofio bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr 'Siarad' yn cwblhau'r profion llawn y flwyddyn wedyn.

2022 oedd y flwyddyn gyntaf i fformat newydd yr arholiad Sylfaen gael ei gynnal yn llawn, er bod y profion Siarad Sylfaen ar eu newydd wedd wedi eu cynnal ar-lein yn 2021. Cafwyd ymateb da i'r newidiadau ac mae'r ystadegau'n dangos bod y marciau'n ymbatrymu'n debyg i'r arholiadau eraill yn y gyfres. Dim ond graddau Llwyddo (neu Fethu) sy'n bosib yn y Sylfaen newydd. Gwelwyd bod ymgeiswyr sy'n gallu cyfathrebu yn llwyddo er eu bod efallai'n cynhyrchu llawer o wallau elfennol – roedd hyn yn un o amcanion yr adolygiad.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddi ar-lein i gyfwelwyr cyn yr arholiadau, un ar gyfer pob lefel. Roedd modd canolbwyntio ar dechnegau cyfweld wyneb-yn-wyneb ac ar-lein yn ogystal â gofynion y profion eu hunain. Er mai gweithdai gwirfoddol oedd y rhain, daeth nifer fawr o gyfwelwyr iddynt. Yn ystod Tachwedd 2022, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i diwtoriaid am yr arholiadau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar lefelau Mynediad a Sylfaen. Daeth llawer o diwtoriaid i'r sesiynau wyneb yn wyneb a rhai sesiynau ar-lein. Bwriedir parhau â'r drefn o gynnal gweithdai fesul lefel i gyfwelwyr yn 2023.

Mae cyfarfodydd ALTE wedi ailddechrau a cheir adroddiad byr ar gyfarfod Tachwedd 2022 ar ddiwedd y bwletin hwn. Bydd CBAC yn cael awdit gan ALTE yn 2024, gan y bydd pum mlynedd wedi mynd heibio ers yr awdit diwethaf yn 2019.

3. **Mynediad Ionawr 2022**

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr. Roedd un ganolfan wedi cynnig y profion llawn (hynny yw, y profion Ysgrifennu, Darllen a Gwrando) a'r rhan fwyaf o'r rhain yn 'cwblhau' cymhwyster ar ôl sefyll prawf Siarad y llynedd. Roedd pob canolfan arall wedi cynnig profion Siarad ar-lein yn unig.

| **Rhif Canolfan Arholi** | **Darparwr** | **Llawn** | **Siarad** |
|---|---|---|---|
| 00501 | Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe | | 8 |
| 00502 | Dysgu Cymraeg Caerdydd | | 37 |
| 00503 | Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr | | 33 |
| 00504 | Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru | | 40 |
| 00505 | Dysgu Cymraeg Gwent | | 32 |
| 00506 | Dysgu Cymraeg Morgannwg | | 38 |
| 00507 | Dysgu Cymraeg Sir Benfro | | 8 |
| 00508 | Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg | | 5 |
| 00509 | Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Cymru | 40 | 2 |
| | **Cyfanswm** | **40** | **203** |

[Arholiad llawn]
Cyfanswm Cofrestriad 2018 = 112
Cyfanswm Cofrestriad 2019 = 111
Cyfanswm Cofrestriad 2020 = 180

[Arholiad llawn]
Cyfanswm Cofrestriad 2022 = 40 (cwblhau'r cymhwyster)
Cyfanswm Cofrestriad 2022 = 203 (profion Siarad yn unig)

| | **Proffil oedran (oedran ar Awst 31)** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dan 20** | **20-29** | **30-39** | **40-49** | **50-59** | **60-69** | **70-79** | **80 ac uwch** |
| Ionawr 2018 | 0.0 | 8.0 | 27.7 | 22.3 | 25.0 | 11.6 | 4.5 | 0.0 |
| Chwefror 2019 | 0.0 | 9.0 | 23.4 | 21.6 | 22.5 | 17.1 | 4.5 | 0.9 |
| Ionawr 2020 | 0.6 | 10.0 | 17.8 | 20.6 | 27.2 | 18.9 | 5.0 | 0.0 |
| Ionawr 2022 | 0.0 | 8.2 | 19.3 | 18.1 | 21.4 | 27.2 | 5.8 | 0.0 |

Mae'n werth nodi bod proffil yr ymgeiswyr wedi newid ychydig. Mae canran mwy ohonynt yn y garfan 60-69 nag yn y gorffennol, a llai yn y carfanau iau – a hynny'n groes i'r disgwyl.

| | **Proffil Rhyw** | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwryw** | **Benyw** | **Arall** |
| Ionawr 2018 | 26.8 | 73.2 | |
| Chwefror 2019 | 28.8 | 71.2 | |
| Ionawr 2020 | 34.4 | 65.6 | |
| Ionawr 2022 | 37.9 | 57.1 | 4.9 |

| | **Proffil Canolfannau Arholi 2022 (canran yr ymgeisiaeth)** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 00501 | 00502 | 00503 | 00504 | 00505 | 00506 | 00507 | 00508 | 00509 | 00551 | 00552 |
| Ionawr 2018 | 1.8 | 6.3 | 18.8 | 23.2 | 8.0 | 8.0 | 12.5 | 4.5 | 8.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwefror 2019 | 9.0 | 25.2 | 0.0* | 21.6* | 0.0* | 17.1 | 3.6 | 6.3 | 17.1 | 0.0 | 0.0 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr 2020 | 2.8 | 21.1 | 12.2 | 23.3 | 7.2 | 4.4 | 4.4 | 1.1 | 23.3 | 0.0 | 0.0 |
| Ionawr 2022 | 3.9 | 18.2 | 16.2 | 19.7 | 15.8 | 18.7 | 3.9 | 2.5 | 1.0** | 0.0 | 0.0 |

* Roedd eira wedi effeithio ar y canolfannau hyn yn 2019, a rhai lleoliadau heb allu agor o gwbl.
** Roedd yr ymgeiswyr eraill yn y ganolfan hon yn cwblhau'r cymwyster ac yn sefyll y profion Darllen, Gwrando ac Ysgrifennu.

Dyma sylwadau'r Prif Arholwr:

Wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau'r pandemig yn raddol, cynigiwyd sawl llwybr i ddarpar-ymgeiswyr yn yr arholiad hwn:

a) gwneud y prawf llafar yn unig, a hynny ar-lein;
b) gwneud yr arholiad cyfan mewn sefyllfa wyneb-yn-wyneb;
c) i'r rhai oedd wedi sefyll y prawf llafar ar-lein ym Mehefin 2021, sefyll y papurau Darllen, Gwrando ac Ysgrifennu mewn sefyllfa wyneb-yn-wyneb er mwyn cwblhau'r cymhwyster llawn.

Rhaid llongyfarch CBAC am gynnig y fath hyblygrwydd i ddysgwyr, gan nad yw hi'n fater hawdd gweinyddu amrywiaeth o lwybrau ar yr un pryd. Rhaid hefyd llongyfarch un darparwr yn benodol am gynnig a gweinyddu'r holl opsiynau ar gyfer eu dysgwyr.

Fel yn achos arholiadau haf 2021 a gynhaliwyd ar-lein, braf cofnodi unwaith eto bod cynnydd sylweddol iawn wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr, o'i gymharu â'r niferoedd arferol ar gyfer arholiad Mynediad mis Ionawr. Roedd niferoedd Ionawr 2020, (sef y tro diwetha i'r arholiad gael ei gynnal yn llawn) yn galonogol iawn gyda 180 o ymgeiswyr, sef y cyfanswm uchaf ers o leiaf degawd ar gyfer arholiad y gaeaf, ond eleni cafwyd 243 i gyd, 9 yn sefyll yr arholiad llawn, 31 yn cwblhau'r cymhwyster ar ôl sefyll y prawf llafar ar-lein haf diwetha, a 203 yn gwneud y prawf llafar yn unig ar lein.

Er gwaetha'r cynnydd yn y niferoedd, cafwyd argraff glir unwaith eto eleni fod safon gyffredinol yr ymgeiswyr yn uwch ar yr adeg hon o'r flwyddyn nag yn arholiadau Mynediad yr haf. Prin oedd yr ymgeiswyr gwan, ac roedd hi'n amlwg bod pawb wedi gwneud ymdrech i baratoi'n drylwyr ar gyfer yr arholiad.

Prin iawn fu'r anawsterau wrth gyfweld a marcio. Y pryder ymlaen llaw oedd y byddai pob math o drafferthion technegol yn codi wrth gynnal yr arholiad ar-lein. Mae'n amlwg fod y cyfwelwyr wedi hen ymgyfarwyddo â'r dechnoleg erbyn hyn ac yn medru gweinyddu'r profion ar-lein yn gwbl hyderus, heb amharu dim ar yr awyrgylch sensitif, cynhaliol a phroffesiynol maen nhw wedi arfer ei greu wrth arwain yr ymgeiswyr trwy wahanol elfennau'r prawf. Roedd y cwestiynau ymestynnol yn gwbl briodol ar y cyfan, er bod ambell gyfwelydd yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar gwestiynau caeedig. Dim ond ychydig o achosion a gafwyd lle roedd cyfwelydd yn rhy barod i neidio i mewn i 'gynorthwyo', e.e. drwy gynnig opsiynau, gorbwysleisio'r elfennau allweddol, neu gyfieithu. Mae'n bwysig i'r cyfwelwyr sylweddoli bod ymgeiswyr yn colli nifer sylweddol o farciau os ydy'r marciwr yn teimlo eu bod wedi derbyn help o unrhyw fath. Mewn sefyllfaoedd arbennig lle mae hi wedi mynd yn nos ar ymgeiswyr, gall ychydig o help roi hyder iddynt fedru cario ymlaen, ond ar y cyfan, dylai'r cyfwelydd ymatal rhag cynorthwyo neu gywiro gan fod perygl i'r ymgeisydd golli mwy o farciau nag y bydd yn eu hennill oherwydd yr ymyrraeth. Rhaid pwysleisio, serch hynny, mai prin iawn oedd yr enghreifftiau o gynorthwyo a bod yr holl gyfwelwyr wedi cynnal y profion mewn modd hynod amyneddgar a chefnogol.

Un agwedd o'r prawf lle mae anghysondeb yn parhau yw'r cyfnod paratoi cyn dechrau Rhan 3. Mae'r ymgeiswyr i fod i gael hanner munud i edrych dros y sbardunau cyn dechrau ateb y cwestiynau, ond roedd nifer o'r cyfwelwyr yn bwrw iddi'n syth ar ôl dangos y sgrîn i'r ymgeiswyr. Anodd bod yn sicr ar brydiau a oedd pob ymgeisydd wedi cael amser i baratoi'n

llawn ar gyfer y dasg ddarllen yn Rhan 1. Mae angen i'r cyfwelwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â threfn y prawf, er mwyn bod yn deg â phob ymgeisydd. Bu tîm o 4 o farcwyr profiadol yn asesu'r profion llafar y tro hwn. Dilynwyd canllawiau'r cynllun marcio sy wedi'i sefydlu ers sawl blwyddyn bellach, a chyn dechrau ar y gwaith, lluniwyd rhestr o'r gwallau y byddem yn disgwyl dod ar eu traws ar gyfer pob cwestiwn. Yna gofynnwyd i bob marciwr farcio'r un pedwar ymgeisydd a chynhaliwyd cyfarfod i gymharu dehongliad pawb o'r cynllun marcio. Aethpwyd trwy'r marciau'n ofalus yn ystod y cyfarfod er mwyn trafod y mannau lle roedd anghysondeb. Erbyn diwedd y cyfarfod, teimlai pob un o'r marcwyr eu bod yn deall ac yn dehongli'r canllawiau yn gwbl gadarn a chyson, a chafodd hynny ei adlewyrchu yn nibynadwyedd yr holl farciau a gofnodwyd.

Wedi i'r gwaith marcio gael ei gwblhau, ailwrandawodd y prif arholwr ar sampl o ymgeiswyr pob marciwr er mwyn ceisio mesur i ba raddau roedd y marciwr dan sylw'n tueddu i fod yn hael neu'n llym. Hefyd, cafodd pob ymgeisydd oedd â sgôr o dan y trothwy llwyddo o 132 neu oedd lai na phymtheg marc uwchben y trothwy hwnnw ei ailfarcio. Cafodd y ddau ymgeisydd oedd wedi ennill y marciau uchaf ailwrandawiad, yn ogystal. Yn y pen draw, felly, ailfarciwyd cyfanswm o 25 o brofion, sef 12% o'r holl ymgeiswyr. Ar ben hynny, gwnaed dadansoddiad ystadegol o holl farciau pob marciwr er mwyn sicrhau bod cyfatebiaeth dderbyniol rhyngddynt. Hyderwn felly fod y safonau'n gyson a bod pob ymgeisydd wedi derbyn marc sy'n adlewyrchiad dilys o safon ei berfformiad yn y prawf llafar ar ddiwrnod yr arholiad.

Roedd dau bapur gwahanol ar waith yn yr arholiad hwn. Roedd y ddau'n cynnwys heriau priodol o ran ynganu a goslefu, amrywio amserau a phatrymau, a llunio cwestiynau, ac roedd y ddau bapur i'w gweld yn gyfartal a chymesur ar y cyfan. Wedi dweud hynny, doedd hi ddim yn gwbl glir i bob ymgeisydd a safodd Bapur A mai merch ydy Carys. Bu un ymgeisydd yn ddigon hyderus i holi ar ddechrau Rhan 3 ai dyn neu ddynes oedd Carys, ond collodd ambell ymgeisydd ychydig o farciau trwy ateb efo 'Mae o/e...'. Dylid sicrhau bod y lluniau'n gwbl ddiamwys ym mhapurau'r dyfodol.

Un elfen 'newydd' yn y profion eleni oedd cynnwys y dre a pentre bach fel sbardunau ar gyfer y cwestiwn Lle mae o/hi'n byw? yn Rhan 3, yn hytrach nag enw tref neu bentref penodol. Y nod oedd profi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r gwahaniaeth rhwng yn a mewn, wrth gwrs, a chafwyd sawl enghraifft o mewn y dre ac yn y pentre bach, yn ôl y disgwyl. Yr hyn oedd yn drawiadol oedd cymaint o ddysgwyr a ddwedodd ym mhentre bach, yn amlwg wedi ymarfer y treiglad trwynol yn drwyadl ar gyfer y cwestiwn hwn! Tasai Tomos yn byw yng nghartref Sali Mali, byddai ym Mhentre Bach yn gywir, wrth gwrs!

Y gwallau arferol oedd yn codi ym mhob rhan arall o'r ddau bapur, e.e.
a) defnyddio'r amser presennol lle roedd angen y gorffennol;
b) methu defnyddio'r amser gorffennol yn y trydydd person yn Rhan 3;
c) methu lleoli'r enw neu'r rhagenw yn y man priodol wrth fynegi meddiant yn y trydydd person, e.e. Mae e'n dwy ferch gyda fe, mae Carys gynni hi ddau hogyn;
ch) gorfddefnyddio neu hepgor yr yn traethiadol, e.e. dw i hoffi, dw i'n wedi ymddeol, dych chi gallu canu?
d) colli marciau'n ddiangen trwy ychwanegu amser sbâr ar ddiwedd atebion heb y rhagenw meddiannol priodol, e.e. dw i'n licio darllen yn amser sbâr; mae hi'n licio nofio amser sbâr. Byddai dw i'n licio darllen / mae hi'n licio nofio wedi ennill marciau llawn;
dd) methu cynnwys yr arddodiad yn briodol wrth ddefnyddio'r sbardunau i frecwast / i swper, e.e. gaethoch chi swper neithiwr? / dych chi'n cael brecwast mawr?
e) drysu rhwng dau a dwy: dau ferch / dwy fab;
f) mae camynganu'r fannod yn dal i fod yn gyffredin iawn. Dylai'r ynganiad cywir fod yn cael sylw cyson o'r gwersi cyntaf un;
Wedi dweud hyn oll, rhaid dweud bod safon yr atebion yn gyson dda a bod mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr wedi paratoi'n dda ar gyfer y prawf.

**Darllen yn uchel**

Yr elfen leiaf rhagweladwy o'r prawf llafar ydy'r Darllen yn Uchel, gan nad oes unrhyw fanc o ymadroddion yn sail i'r dasg hon. Mae'n ddiddorol nodi nad oes cyfatebiaeth ym mhob achos rhwng marciau'r ymgeiswyr yn y rhan hon o'r prawf a'u marciau yn y rhannau eraill. Mae ynganu a goslef rhai ymgeiswyr yn gymharol wael, ond maent wedi dysgu eu patrymau'n rhagorol ac felly'n sgorio'n uchel yn rhannau eraill y prawf. Ar y llaw arall, mae ambell ymgeisydd sy'n ynganu a goslefu'n gwbl naturiol, ond sy'n cystrawennu'n flêr. Mae'r goreuon yn rhagori ar bob agwedd o'r prawf, wrth gwrs.

Dyma rai sylwadau ar y ddwy ddeialog:

PAPUR A
Camynganu Esgusodwch, Eluned, brifysgol, e-bost, ei chyfarfod hi, ei theulu hi, rhaid, felly;
Camoslefu eisiau cwrdd eto, yr hen amser;
Ychwanegu yn traethiadol diangen, er nad ydy o yn y sgript: ro'n i'n yn y coleg, dw i'n eisiau cwrdd eto;
Roedd darllen y frawddeg Rhaid i mi anfon neges e-bost ati hi felly mewn modd synhwyrol gyda phwyslais priodol yn heriol iawn i lawer o'r ymgeiswyr;

PAPUR B
Camynganu orau, Aberwylan, bell (er bod y cyfwelydd newydd ddweud y gair), ardderchog, rhaid, gyrraedd, erbyn, hwyr, cyfarfod;
Camoslefu rhaid i mi gyrraedd, does dim ots, diolch am eich help;
Roedd darllen dwy frawddeg gymharol hir: Beth yw'r ffordd orau o fynd i Aberwylan? a Dw i'n mynd i fod yn hwyr i'r cyfarfod, ond does dim ots mewn modd synhwyrol gyda phwyslais priodol yn heriol iawn i lawer o'r ymgeiswyr.

Wedi dweud hyn oll, rhaid cydnabod bod mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr wedi paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad, yn medru amrywio cystrawennau ac amserau'r ferf yn briodol yn ôl y galw, ac wedi meistroli prif reolau ynganu'r Gymraeg yn ddigon da i ddarllen deialog yn ddealladwy a chymharol naturiol. Rhaid llongyfarch yr holl ddysgwyr a'u tiwtoriaid am ymateb mewn ffordd mor gadarnhaol i'r holl heriau mae effeithiau'r pandemig wedi'u gosod o'u blaenau ac am sicrhau bod y diddordeb mewn dysgu Cymraeg yn parhau i ffynnu a bod y niferoedd sy'n cyrraedd cerrig milltir penodol yn llwyddiannus yn dal i godi.

I gloi, dyma dynnu sylw at ambell gyfraniad difyr gan ymgeiswyr:
Un yn amlwg yn meddwl am yr hinsawdd trwy holi'r cyfwelydd: Oes car trydan gyda chi?
Un arall yn amlwg wedi paratoi ar gyfer y cwestiwn Oes anifeiliaid anwes gyda chi? gan ddangos llun o'i chi wrth ateb.
Un ymgeisydd yn cyfaddef sut mae ei staff yn teimlo amdano: Dw i'n gweithio fel pennaeth cachlyd.
Un ymgeisydd yn ymateb i'r sbardun gallu trwy ofyn: Sut dych chi'n ynganu "gallu"?

Mae cwestiynau ac atebion arholiad Mynediad yn rhagweladwy iawn, ond dydy rhywun byth yn stopio rhyfeddu at wreiddioldeb a dyfeisgarwch rhai unigolion o fewn pob carfan o ymgeiswyr yn flynyddol.

Cadarnhawyd y sylwadau gan yr ystadegau, ac roedd y cymedr ar gyfer y prawf Siarad eleni'n debyg iawn i weinyddiadau Ionawr yn y gorffennol:

2022 = 191.1
2020 = 186.1
2019 = 188.1
2018 = 192.6

## Gwrando

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
Ni ddylid cosbi am wallau sillafu ac ati; cynnwys yr atebion sy'n cyfrif.

1. **Deialog**
[40 marc = 5 marc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth roedd Steffan yn ei wneud yr wythnos diwetha? | **c** |
| 2. | Beth sy'n bod ar Steffan? | **a** |
| 3. | Pryd bwytodd Steffan ddiwetha?/Pryd wnaeth Steffan fwyta ddiwetha? | **b** |
| 4. | Beth mae Siân yn hoffi ei wneud? | **a** |
| 5. | Pryd roedd un o blant yr ysgol yn yr ysbyty? | **b** |
| 6. | Faint o arian gododd Steffan a'i ffrindiau?<br>Faint o bres wnaeth Steffan a'i ffrindiau ei godi? | **ch** |
| 7. | Ble bydd/Lle fydd brawd Steffan ar ddiwrnod yr hanner marathon? | **ch** |
| 8. | Beth bydd Siân yn ei anfon at frawd Steffan? | **ch** |

2. **Bwletin Tywydd**
[20 marc = 5 marc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ddoe, roedd hi'n | **braf** |
| 2. | Nawr/Rŵan, mae hi'n | **oer** |
| 3. | Bore yfory, bydd hi'n | **niwlog** |
| 4. | Y penwythnos nesa, bydd hi'n | **bwrw glaw/wlyb** |

3. **Amserau a Phrisiau**
[20 marc = 2 farc i bob eitem]

Dim marciau am ddefnyddio geiriau yn lle rhifau.

| | **Amser dechrau** | | **Pris** | |
|---|---|---|---|---|
| Cyngerdd | 1. | 6.00 | 2. | £7.50 |
| Carnifal | 3. | 12.00 | 4. | £3.00 |
| Trip y Clwb Dringo | 5. | 7.15 | 6. | £15.00 |
| Ffilm 'Y Cwm Du' | 7. | 8.00 | 8. | £9.00 |
| Sadwrn Siarad | 9. | 9.30 | 10. | 0 / - / dim |

Dyma sylwadau'r marciwr:

Ni chafwyd llawer o drafferthion efo'r papur Gwrando.

### Deialog

Achosodd y cwestiwn 'Lle fydd brawd Steffan ar ddiwrnod yr hanner marathon?' beth anhawster, efo nifer wedi cynnig 'Cymru' yn lle 'Awstralia'.

### Bwletin Tywydd

Wrth ymateb i 'Bore yfory, mi fydd hi'n', fe gynigiodd sawl un 'ddim yn oer' yn lle 'niwlog'.

### Amserau a phrisiau

Roedd ambell ymgeisydd wedi camddeall 'am ddeuddeg o'r gloch' ac yn tybio bod y Carnifal yn dechrau am 10.

Ni ellir rhoi llawer o bwyslais i'r ystadegau, gan mai dim ond nifer bach o ymgeiswyr oedd wedi sefyll y profion eraill. Roedd y data'n cadarnhau'r sylwadau a'r cymedr yn agos i'r hyn a welwyd yng ngweinyddiadau Ionawr yn y gorffennol:

2022 = 73.6
2020 = 74.5
2019 = 75.6
2018 = 75.0

**Darllen**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
Ni ddylid cosbi am wallau sillafu ac ati, ac eithrio yn Rhan 3.

1. **Hysbysebion**
   [20 marc = 2 farc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Yn erbyn pwy bydd tîm pêl-droed Llanaber yn chwarae? | **dynion tân Aberheli** |
| 2. | Ble yn Llanaber bydd y gêm? | **cae'r Ysgol** |
| 3. | I bwy mae Gareth Davies yn chwarae fel arfer? | **Arsenal** |
| 4. | Ble mae Canolfan Gymraeg Llanaber? | **drws nesa i'r eglwys** |
| 5. | Faint o'r gloch bydd y cwrs Cymraeg yn gorffen? | **3.30** |
| 6. | Pwy sy'n talu £6 am y cwrs? | **y di-waith** |
| 7. | Sut dych chi'n bwcio lle ar y cwrs? | **ffonio'r ganolfan** |
| 8. | Pa noson dych chi'n gallu chwarae Bingo yn y dre? | **nos Fercher** |
| 9. | Faint o arian mae hi'n bosib ei ennill? | **£100/can punt** |
| 10. | Pryd dych chi'n gallu cael diod ar noson Bingo? | **hanner amser** |

2. **Deialog**
   [20 marc = 2 farc i bob eitem]

| **Pwy?** | **Pryd maen nhw yn y parc fel arfer?** | **Pam maen nhw'n mynd i'r parc?** | **Pa anifail anwes sy gyda nhw nawr?** |
|---|---|---|---|
| **Mair** | 1. y penwythnos | 2. rhedeg | 3. dim |
| **Gareth** | 4. bob dydd | 5. i fynd â'r ci am dro | 6. ci |

| **Pwy?** | **Pam ro'n nhw yn yr ysbyty?** | **Ble maen nhw'n mynd ym mis Hydref?** |
|---|---|---|
| **Mair** | 7. torri coes | 8. Caerdydd |
| **Gareth** | 9. problem cefn | 10. Sbaen |

3. **Llenwi bylchau**
   [20 marc = 2 farc i bob eitem]

1. Dw i'n mwynhau **coginio/cwcio** bob nos.
2. **Ble/Lle** mae hi'n mynd heno? I'r dafarn, wrth gwrs.
3. Wyt ti'n hoffi byw yn y pentre? **Ydw** (✓)
4. Mae Alun yn gweithio **mewn** banc.
5. Beth **wnest** (gwneud) ti'r penwythnos diwetha?
6. Mae hi'n dod/dŵad o **Fangor** (Bangor) yn wreiddiol.
7. **Roedd** y tywydd yn ofnadwy ddoe!
8. Ga'i baned, os **gwelwch** chi'n dda?
9. Faint o **blant** sy gyda/gynnoch chi?
10. Rwyt ti'n help mawr... diolch yn **fawr** i ti!

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Hysbysebion**

Y broblem fwyaf oedd ymgeiswyr yn camddeall y cwestiwn, e.e. cafwyd sawl ymgeisydd yn cynnig 'cwrw, gwin a sudd' i gwestiwn 10: 'Pryd dach chi'n medru cael diod ar noson Bingo?'.

**Deialog**

Er mwyn ennill y marciau, mae angen i'r ymgeisydd roi atebion sy'n dangos dealltwriaeth o'r testun, trwy roi ateb digonol i fod yn glir ond heb godi gormod o eiriau'n uniongyrchol o'r testun. Collodd ambell un farciau oherwydd iddynt fethu dangos dealltwriaeth o'r testun.

**Llenwi bylchau**

Y tro hwn eto, cafodd sawl ymgeisydd anhawster wrth sillafu 'gwelwch'. Ar wahân i hynny bu dryswch rhwng 'mewn/yn yr' a methu defnydio trydydd person unigol y gorffennol cryno.

Ni ellir rhoi llawer o bwyslais i'r ystadegau, gan mai dim ond nifer bach o ymgeiswyr oedd wedi sefyll y profion hyn. Roedd y dadansoddiad eleni'n cadarnhau sylwadau'r marciwr a'r eitem yn y rhan olaf oedd wedi achosi anhawster oedd 3.8. Fodd bynnag, roedd cymedr y dasg ychydig yn uwch nag yn y gorffennol:

2022 = 54.9
2020 = 53.5
2019 = 51.0
2018 = 52.6

**Ysgrifennu**

Dyma'r sbardunau a sylwadau'r marciwr:

**Rhan 1 – Cerdyn Post**

Y sbardunau i'w cynnwys oedd: ddoe, gwesty, hwyr, gwin, penwythnos.
Mi wnaeth y sbardun 'hwyr' greu trafferth i lawer: cafwyd brawddegau fel 'Mae'r tywydd yn hwyr iawn', 'Hwyr, dw i'n mynd', Hwyr (yn golygu Hwyl fawr). Mi wnaeth un ymgeisydd dyfeisgar ofyn y cwestiwn 'Be' ydy hwyr yn Saesneg?' yn nghorff ei cherdyn post. Mi wnaeth y sbardun 'cyrraedd' achosi'r problemau arferol; cyrraedd i, cyrraedd at, cyrraedd yn.

**Rhan 2 – Portread**

Y sbardunau oedd: Elisabeth [gwaith + llun nyrs], teulu [dim], neithiwr [llun mynd â'r ci am dro], **ddim** yn hoffi [llun pysgodyn], yn wreiddiol [map a Llanelli arno].
Roedd y safon yn eitha da ar y cyfan ond, fel arfer, cafwyd trafferthion yn bennaf efo'r frawddeg negyddol ond hefyd efo'r gorffennol.

Ni ellir rhoi llawer o bwyslais i'r ystadegau, gan mai dim ond nifer bach o ymgeiswyr oedd wedi sefyll y profion eraill. Roedd y cymedr grŵp bach eleni'n debyg i'r hyn a welwyd yn y gorffennol.

2022 = 33.8
2020 = 32.7
2019 = 33.5
2018 = 34.5

**Ystadegau**

**Mynediad Ionawr 2022**

| Prawf | Cymedrau Dydd Gwener 26 Ionawr 2018 | Cymedrau Dydd Gwener 1 Chwefror 2019 | Cymedrau Dydd Gwener 31 Ionawr 2020 | Cymedrau Dydd Gwener 28 Ionawr 2022 |
|---|---|---|---|---|

| Nifer yr ymgeiswyr | **112** ymgeisydd | **111** ymgeisydd | **180** ymgeisydd | **(40 ymgeisydd)** |
|---|---|---|---|---|
| Gwrando | 75.0 (80) | 75.6 (80) | 74.5 (80) | 73.6 (80) |
| Siarad | 192.6 (220) | 188.1 (220) | 186.1 (220) | 191.1 (220) |
| Darllen | 52.6 (60) | 51.2 (60) | 53.5 (60) | 54.9 (60) |
| Ysgrifennu | 34.5 (40) | 33.5 (40) | 32.7 (40) | 33.8 (40) |
| Cyfanswm | 354.7 (400) | 348.2 (400) | 346.8 (400) | 357.4 (400) |

Llwyddodd 97.5% (o'r grŵp a safodd yr arholiad llawn) i gyflawni'r cymhwyster. Cadwyd y ffin ar 240 allan o 400. Ni chynhwysir enghreifftiau o'r prawf Ysgrifennu hwn yn y bwletin, gan fod cyn lleied o ymgeiswyr wedi sefyll y prawf hwnnw.

4. **Mynediad Haf 2022**

Cynhaliwyd yr arholiad llawn ymhob canolfan arholi, ac eithrio un (lle cynhaliwyd profion Siarad ar-lein yn unig). Roedd rhai ymgeiswyr yn cario marc prawf Siarad o'r gorffennol (haf 2021 neu Ionawr 2022). Roedd rhai ymgeiswyr yn sefyll y prawf Siarad yn unig o ddewis.

Yn y bachau petryal, nodir nifer y dysgwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau dan y ganolfan arholi honno. Nodir nifer yr ymgeiswyr preifat ar waelod y rhestr.

Mynediad Dydd: 462
Mynediad Nos: 209

**Mynediad Haf Dydd 2022**

| Lleoliad | Canolfan | Nifer | Siarad |
|---|---|---|---|
| **00501** | **Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe [53]** | | |
| D00501.1 | Prifysgol Abertawe | 46 | 8 |
| **00502** | **Dysgu Cymraeg Caerdydd [103]** | | |
| D00502.01 | Prifysgol Caerdydd | 96 | 8 |
| **00503** | **Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr [65]** | | |
| D00503.12 | Adeilad Elystan Morgan, Aberystwyth | 0 | 62 |
| **00504** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru [77]** | | |
| D00504.01 | Prifysgol Bangor | 64 | 10 |
| **00505** | **Dysgu Cymraeg Gwent [70]** | | |
| D00505.01 | Campws Pont-y-Pŵl | 32 | 8 |
| N00505.02 | Campws Dinas Casnewydd | 25 | 1 |
| **00506** | **Dysgu Cymraeg Morgannwg [103]** | | |
| D00506.01 | Prifysgol De Cymru | 95 | 13 |
| **00507** | **Dysgu Cymraeg Sir Benfro [35]** | | |
| D00507.04 | Canolfan Bloomfield, Arberth | 34 | 1 |
| **00508** | **Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg [15]** | | |
| D00508.01 | Llyfrgell y Barri | 15 | 0 |
| **00509** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Cymru [44]** | | |
| D00509.01 | Coleg Cambria, Glannau Dyfrdwy | 19 | 0 |
| D00509.02 | Coleg Cambria, Wrecsam | 27 | 3 |
| **00552** | **Y Wladfa [10]** | 9 | 1 |
| | **Ymgeiswyr Preifat [2]** | | |
| | **Cyfanswm** | **462** | **115** |

**Mynediad Haf Nos 2022**

| Lleoliad | Canolfan | Nifer | Siarad |
|---|---|---|---|
| **00501** | **Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe [42]** | | |
| N00501.1 | Prifysgol Abertawe | 32 | 10 |
| **00502** | **Dysgu Cymraeg Caerdydd [51]** | | |
| N00502.01 | Prifysgol Caerdydd | 44 | 7 |
| **00503** | **Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr [32]** | | |
| N00503.12 | Adeilad Elystan Morgan, Aberystwyth | 0 | 32 |
| **00504** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru [30]** | | |
| N00504.01 | Prifysgol Bangor | 24 | 6 |
| **00505** | **Dysgu Cymraeg Gwent [37]** | | |
| N00505.01 | Campws Pont-y-Pŵl | 15 | 3 |
| N00505.02 | Campws Dinas Casnewydd | 14 | 1 |
| **00506** | **Dysgu Cymraeg Morgannwg [45]** | | |
| N00506.01 | Prifysgol De Cymru | 43 | 5 |
| **00507** | **Dysgu Cymraeg Sir Benfro [9]** | | |
| N00507.04 | Canolfan Bloomfield, Arberth | 8 | 1 |
| **00508** | **Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg [5]** | | |
| N00508.01 | Llyfrgell y Barri | 5 | 1 |
| **00509** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Cymru [26]** | | |
| N00509.01 | Coleg Cambria, Glannau Dyfrdwy | 6 | 0 |
| N00509.02 | Coleg Cambria, Wrecsam | 18 | 2 |
| | **Ymgeiswyr Preifat [0]** | | |
| | **Cyfanswm** | **209** | **68** |

Cyfanswm Cofrestriad 2017 = 581 (Dydd:371 Nos:210)
Cyfanswm Cofrestriad 2018 = 797 (Dydd:544 Nos:253)
Cyfanswm Cofrestriad 2019 = 758 (Dydd:524 Nos:234)
Cyfanswm Cofrestriad 2022 = 671 (Dydd:462 Nos:209)

Dyma broffil yr ymgeisiaeth isod.  Mae'n debyg i'r hyn a welwyd yn 2019.

| | **Proffil oedran (oedran ar Awst 31)** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dan 20** | **20-29** | **30-39** | **40-49** | **50-59** | **60-69** | **70-79** | **80 ac uwch** |
| Mehefin 18 (pawb) | 1.6 | 13.2 | 25.4 | 19.6 | 17.1 | 17.3 | 4.6 | 1.3 |
| Mehefin 18 (dydd) | 1.8 | 12.1 | 21.7 | 20.4 | 17.3 | 18.9 | 5.9 | 0.0 |
| Mehefin 18 (nos) | 1.2 | 15.4 | 33.2 | 17.8 | 16.6 | 13.8 | 2.0 | 0.0 |
| Mehefin 19 (pawb) | 2.0 | 11.3 | 21.0 | 19.3 | 21.5 | 18.7 | 5.7 | 0.5 |
| Mehefin 19 (dydd) | 2.3 | 10.1 | 18.5 | 18.1 | 20.4 | 22.9 | 6.9 | 0.8 |
| Mehefin 19 (nos) | 1.3 | 14.1 | 26.5 | 21.8 | 23.9 | 9.4 | 3.0 | 0.0 |
| Mehefin 22 (pawb) | 1.0 | 10.1 | 24.6 | 22.2 | 19.1 | 18.8 | 3.9 | 0.3 |
| Mehefin 22 (dydd) | 1.5 | 8.0 | 20.3 | 20.6 | 20.6 | 23.6 | 5.0 | 0.4 |
| Mehefin 22 (nos) | 0.0 | 14.8 | 34.0 | 25.8 | 15.8 | 8.1 | 1.4 | 0.0 |

| | Proffil Rhyw<br>Gwryw | <br>Benyw | <br>Arall |
|---|---|---|---|
| Mehefin 18 (pawb) | 31.9 | 68.0 | |
| Mehefin 18 (dydd) | 31.8 | 68.0 | |
| Mehefin 18 (nos) | 32.0 | 68.0 | |
| Mehefin 19 (pawb) | 31.4 | 68.6 | |
| Mehefin 19 (dydd) | 30.7 | 69.3 | |
| Mehefin 22 (pawb) | 31.1 | 62.1 | 6.7 |
| Mehefin 22 (dydd) | 30.7 | 63.0 | 6.3 |
| Mehefin 22 (nos) | 32.1 | 60.3 | 7.7 |

| | **Proffil Canolfannau Arholi (canran yr ymgeisiaeth)** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 00501 | 00502 | 00503 | 00504 | 00505 | 00506 | 00507 | 00508 | 00509 | 00552 |
| Mehefin 18 (pawb) | 8.0 | 12.6 | 15.8 | 9.8 | 18.4 | 12.8 | 6.5 | 3.8 | 11.0 | 1.3 |
| Mehefin 18 (dydd) | 5.9 | 11.6 | 17.8 | 10.1 | 17.7 | 12.0 | 7.5 | 3.5 | 12.1 | 1.8 |
| Mehefin 18 (nos) | 12.7 | 14.6 | 11.5 | 9.1 | 20.2 | 14.6 | 4.4 | 4.4 | 8.7 | 0.0 |
| Mehefin 19 (pawb) | 8.4 | 12.0 | 16.6 | 15.3 | 16.9 | 10.3 | 7.5 | 3.6 | 7.8 | 1.6 |
| Mehefin 19 (dydd) | 6.5 | 9.5 | 19.1 | 13.7 | 17.2 | 11.6 | 7.1 | 3.2 | 9.7 | 2.3 |
| Mehefin 19 (nos) | 12.8 | 17.5 | 11.1 | 18.8 | 16.2 | 7.3 | 8.6 | 4.3 | 3.4 | 0.0 |
| Mehefin 22 (pawb) | 11.6 | 20.7 | 0.4 | 13.6 | 13.7 | 19.7 | 6.3 | 2.8 | 9.8 | 1.3 |
| Mehefin 22 (dydd) | 10.0 | 20.6 | 0.6 | 14.5 | 12.8 | 19.9 | 7.4 | 3.2 | 9.1 | 1.9 |
| Mehefin 22 (nos) | 15.3 | 21.1 | 0.0 | 11.5 | 15.8 | 19.1 | 3.8 | 1.9 | 11.5 | 0.0 |

Dyma sylwadau'r Prif Arholwr:

Wrth i effeithiau'r pandemig gilio'n raddol, cynigiwyd sawl llwybr i ddarpar ymgeiswyr yn yr arholiad hwn:
a) gwneud y prawf llafar yn unig, a hynny ar-lein;
b) gwneud yr arholiad cyfan mewn sefyllfa wyneb-yn-wyneb;
c) i'r rhai oedd wedi sefyll y prawf llafar ar-lein ym Mehefin 2021, sefyll y papurau Darllen, Gwrando ac Ysgrifennu mewn sefyllfa wyneb-yn-wyneb er mwyn cwblhau'r cymhwyster llawn.

Oherwydd bod cymaint o lwybrau posib ar gael eleni, anodd cymharu'r niferoedd yn deg efo blynyddoedd blaenorol. Y tro diwetha cynhaliwyd yr arholiad llawn yn yr haf (2019), safodd 758 o ymgeiswyr yr arholiad, roedd 797 yn haf 2018, a chyn hynny roedd y ffigwr yn arfer bod rhwng 600 a 700. Eleni, cwblhaodd 671 yr arholiad llawn, 457 o'r rheiny'n sefyll y papurau i gyd wyneb-yn-wyneb, a 214 yn gwneud y papurau Darllen, Gwrando ac Ysgrifennu yn unig ar ôl gwneud y prawf llafar ar-lein llynedd. Ar ben hynny, dewisodd 183 o ymgeiswyr sefyll y prawf llafar yn unig, felly mae cyfanswm o 854 o ddysgwyr wedi ymgymryd â'r arholiad ar ryw ffurf neu'i gilydd eleni. Mae'r ffigurau hyn yn galonogol tu hwnt, ac yn arwydd gobeithiol bod adferiad y maes wedi'r pandemig yn mynd rhagddo'n foddhaol iawn.

Er gwaetha'r holl amrywiadau posib o ran llwybrau dysgu'r ymgeiswyr – rhai'n mynychu dosbarthiadau ac yn gwneud yr arholiad wyneb yn wyneb, rhai'n dysgu ar-lein yn unig ond yn sefyll yr arholiad wyneb yn wyneb, eraill yn dysgu ac yn sefyll y prawf llafar ar-lein – roedd ystod y safon yn hynod o debyg i'r blynyddoedd blaenorol: y mwyafrif helaeth yn ymateb yn gadarnhaol tu hwnt i wahanol heriau'r prawf ac yn llwyddo'n dda, ambell un yn sgwrsio'n rhwydd iawn ac o bosib yn sefyll yr arholiad ychydig yn hwyr yn eu gyrfa fel dysgwr, a chynffon o ymgeiswyr gwan oedd heb baratoi'n ddigonol ar gyfer yr arholiad a heb feistroli rhai o'r patrymau mwyaf sylfaenol.

Prin iawn fu'r anawsterau ymarferol wrth gyfweld a marcio, er bod ychydig o drafferthion technegol wrth gynnal profion ar-lein. Roedd mwyafrif helaeth y cyfweliadau'n gwbl glir ac ansawdd y sain yn gyson dda.

Un broblem a gododd o dro i dro yn y profion ar-lein wrth ddarllen y ddeialog oedd nad oedd yr ymgeiswyr yn gweld y testun cyfan ar y sgrîn. Mae'n debyg eu bod wedi gweld popeth yn ystod y ddau funud o baratoi, ond bod rhannau'n gudd y tu ôl i ryw stribed neu flwch wrth i'r cyfwelydd ddechrau recordio yn y prawf ei hun. Dylid ceisio sicrhau yn y dyfodol nad ydy'r testun yn gorlenwi'r sgrîn ar y Powerpoint.

Gwnaeth mwyafrif helaeth y cyfwelwyr eu gwaith mewn modd amyneddgar, trefnus a phroffesiynol fel arfer, gan ymdrin â'r ymgeiswyr mewn modd hynaws a chefnogol a chan sicrhau bod sefyll yr arholiad yn brofiad cadarnhaol iddynt, beth bynnag eu safon.

Bu tîm o 14 o farcwyr yn asesu'r profion llafar eleni. Dilynwyd canllawiau'r cynllun marcio sy wedi'i sefydlu ers sawl blwyddyn bellach, a chyn dechrau ar y gwaith, lluniwyd rhestr o'r gwallau y byddem yn disgwyl dod ar eu traws ar gyfer pob cwestiwn. Yna gofynnwyd i bob marciwr farcio'r un pedwar ymgeisydd a chynhaliwyd cyfarfod i gymharu dehongliad pawb o'r cynllun marcio. Roedd y cyfarfod hwn yn arbennig o ddefnyddiol eleni gan fod pob un o'r ymgeiswyr hadu yn cynnig heriau gwahanol i'r marcwyr a bu'n fuddiol cael cyfle i drafod yr heriau hynny'n fanwl. Erbyn diwedd y cyfarfod, teimlai pob un o'r marcwyr eu bod yn deall ac yn dehongli'r canllawiau mewn modd llawer mwy cadarn a chyson.

Wedi i'r gwaith marcio gael ei gwblhau, ailwrandawodd y Prif Arholwr ar sampl o ymgeiswyr pob marciwr er mwyn ceisio mesur i ba raddau roedd y marciwr dan sylw'n tueddu i fod yn hael neu'n llym. Hefyd, cafodd pob ymgeisydd oedd â sgôr o dan y trothwy llwyddo o 132 neu oedd lai na phymtheg marc uwchben y trothwy hwnnw ei ailfarcio. Cafodd yr ymgeiswyr oedd wedi cael marciau llawn gan eu marciwr ailwrandawiad, yn ogystal. Yn y pen draw, felly, ailfarciwyd cyfanswm o 83 o brofion, sef 10% o'r holl ymgeiswyr. Ar ben hynny, gwnaed dadansoddiad ystadegol o holl farciau pob marciwr er mwyn sicrhau bod cyfatebiaeth dderbyniol rhyngddynt. Hyderwn felly fod y safonau'n gyson a bod pob ymgeisydd wedi derbyn marc sy'n adlewyrchiad dilys o safon ei berfformiad yn y prawf llafar ar ddiwrnod yr arholiad.

Doedd dim heriau penodol yn y papurau eleni, ac roedd prawf y dydd a phrawf y nos i'w gweld yn gyfartal o ran y gofynion. Roedd y gwallau arferol yn codi ymhlith ymgeiswyr y naill bapur a'r llall, e.e.

a) defnyddio'r amser presennol lle roedd angen y gorffennol;
b) methu defnyddio'r amser gorffennol yn y trydydd person yn Rhan 3;
c) methu lleoli'r enw neu'r rhagenw yn y man priodol wrth fynegi meddiant yn y trydydd person, e.e. Mae Wiliam dau fab gyda fe, Mae Lisa gan ddwy chwaer;
ch) ansicrwydd ynglŷn â rhifau gwrywaidd/benywaidd , e.e. dwy fab / dau chwaer;
d) gorfddefnyddio neu hepgor yr yn traethiadol, e.e. dw i hoffi, dw i'n eisiau, dw i'n wedi ymddeol;
dd) colli marciau'n ddiangen trwy ychwanegu amser sbâr ar ddiwedd atebion heb y rhagenw meddiannol priodol, e.e. dw i'n licio cerdded yn amser sbâr; mae hi'n licio darllen amser sbâr. Byddai dw i'n licio cerdded / mae hi'n licio darllen wedi ennill marciau llawn;

Wedi dweud hyn, rhaid dweud bod safon yr atebion yn gyson dda a bod mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr wedi paratoi'n dda ar gyfer y prawf. A sôn am baratoi, mae'n nodi yn y fanyleb bod modd disodli elfennau sy wedi'u tanlinellu mewn ambell gwestiwn yn Rhan 2. Eleni, gofynnwyd y cwestiwn Am faint o'r gloch dych chi'n bwyta brecwast fel arfer? Mae'n amlwg bod mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr wedi paratoi i ateb y cwestiwn 'Am faint o'r gloch dych chi'n codi fel arfer?' felly mi gawson nhw eu taflu am ychydig eiliadau gan yr amrywiad hwn. Does dim llawer o gyfle i ddisodli elfennau o fewn y fanyleb, ond byddai'n braf medru cynnwys ambell amrywiad bach fel hyn o dro i dro er mwyn cadw'r ymgeiswyr ar flaenau'u traed.

**Darllen yn uchel**

Yr elfen leiaf rhagweladwy o'r prawf llafar ydy'r Darllen yn Uchel, gan nad oes unrhyw fanc o ymadroddion yn sail i'r dasg hon. Mae'n ddiddorol nodi nad oes cyfatebiaeth ym mhob achos rhwng marciau'r ymgeiswyr yn y rhan hon o'r prawf a'u marciau yn y rhannau eraill. Mae ynganu a goslef rhai ymgeiswyr yn gymharol wael, ond maent wedi dysgu eu patrymau'n rhagorol ac felly'n sgorio'n uchel yn rhannau eraill y prawf. Ar y llaw arall, mae ambell ymgeisydd sy'n ynganu a goslefu'n gwbl naturiol, ond sy'n cystrawennu'n flêr. Mae'r goreuon yn rhagori ar bob agwedd o'r prawf, wrth gwrs.

Un agwedd ddifyr ar asesu ynganu ydy ein hymateb i acenion gwahanol. Mae'n amlwg bod cryn dipyn yn fwy o amrywiaeth cefndiroedd ymhlith yr ymgeiswyr y dyddiau hyn, ac mae mwy o amrywiaeth acenion i'w clywed yn y profion o'r herwydd. Prif seiliau'r asesu ydy mesur i ba raddau mae'r ymgeisydd wedi meistroli rheolau ynganu'r Gymraeg ac yn dangos dealltwriaeth o'r testun trwy oslefu'n naturiol. Tra bo mwyafrif y meini prawf asesu'n defnyddio termau fel naturiol, derbyniol, araf, aneglur, ac ati, mae un o'r meini prawf yn cynnwys y gair dealladwy. Er bod dysgwr sy ag acen gref iawn wedi meistroli'r rheolau'n dda ac yn goslefu'n naturiol, mae'n bosib mai canfyddiad y gwrandäwr fyddai bod y dysgwr hwnnw'n anodd iawn ei ddeall. Eto i gyd, mae'n ymddangos yn annheg cosbi ymgeisydd ar sail ei acen gynhenid. Gwelwyd peth anghysondeb ymhlith y marcwyr yn eu hymateb i acenion arbennig o gryf, ond fy nheimlad personol i ydy bod rhaid canolbwyntio ar yr elfennau a nodir uchod, sef i ba raddau mae'r ymgeisydd wedi meistroli rheolau ynganu'r Gymraeg ac yn dangos dealltwriaeth o'r testun trwy oslefu'n naturiol.

Dyma rai sylwadau ar y ddwy ddeialog:

**Deialog Mynediad Dydd**

Trafferthion ynganu u yn gwerthu, papur, papurau, gallu/medru;
Llaneurig yn achosi trafferth;
Llawer yn camynganu Ia/Ie, gan bwysleisio'r ail lafariad;
Mae'n bosib bod y gair hanes yn anghyfarwydd i rai. Llawer yn ei ynganu i odli efo'r gair Saesneg lanes;
Dweud fi yn hytrach na fy;
Mae'n rhyfeddol faint o ymgeiswyr sy'n camynganu'r fannod;
Roedd trydedd ran y ddeialog yma'n gymharol hawdd a'r mwyafrif yn sgorio'n dda yma. Yr unig elfen anodd oedd drwy'r;
Yn y bedwaredd ran, y mwyafrif ddim yn sylweddoli bod angen pwysleisio un, ac o'r herwydd yn methu goslefu'r frawddeg yn briodol.

**Deialog Mynediad Nos**

Llawer yn cael trafferth ynganu Esgusodwch fi, ac mae'n bosib bod dechrau efo ymadrodd mor anodd wedi tanseilio hyder ambell ymgeisydd;
Nifer yn dweud ystafel a Sbaneg;
Er nad oes dim byd anodd ynglŷn ag ynganu mae hi bron yn saith, mae'n amlwg bod y patrwm yn ddieithr, felly roedd llawer yn ychwanegu'r yn traethiadol – mae hi'n bron yn saith – neu'n cambwysleisio'r frawddeg yn llwyr;
Doedd ynganu Eleri ddim cynddrwg â'r disgwyl!
Clywyd neges fel negyz yn aml;
Ddylai ynganu dyddiau'r wythnos ddim achosi trafferth gan eu bod mor gyfarwydd, ond roedd hi'n syndod faint o ymgeiswyr ddwedodd Iaw;
Mae'n anffodus fod ystafell tri deg naw yn ymddangos ddwywaith yn y ddeialog, ond ni chosbwyd yr ymgeiswyr ddwywaith am gamynganu ystafell.
Methodd nifer â chysylltu'r gair canslo efo cancel yn Saesneg a chafwyd cryn drafferthion ynganu o'r herwydd;

Roedd goslefu trydedd a phedwaredd ran y ddeialog yma'n naturiol yn heriol iawn i nifer o'r ymgeiswyr.

Oherwydd y ffont y ddefnyddiwyd ar gyfer y testun, mae'n hawdd drysu rhwng l fach ac I fawr (h.y. l am lori ac I am Ionawr). Yn neialog y dydd, clywyd sawl enghraifft o La / Le yn lle Ia / Ie; ac ym mhapur y nos, clywyd Lau yn lle Iau.

Wedi dweud hyn oll, rhaid cydnabod bod mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr wedi paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad, yn medru amrywio cystrawennau ac amserau'r ferf yn briodol yn ôl y galw, ac wedi meistroli prif reolau ynganu'r Gymraeg yn ddigon da i ddarllen deialog yn ddealladwy a chymharol naturiol. Rhaid llongyfarch yr holl ddysgwyr a'u tiwtoriaid am ymateb mewn ffordd mor gadarnhaol i'r holl heriau mae effeithiau'r pandemig wedi'u gosod o'u blaenau ac am sicrhau bod y diddordeb mewn dysgu Cymraeg yn parhau i ffynnu a bod y niferoedd sy'n cyrraedd cerrig milltir penodol yn llwyddiannus yn dal i godi.

Dyma ystadegau'r profion Siarad ar gyfer y Dydd a'r Nos:

Mynediad Dydd:
2018 = 179.1
2019 = 182.1
2022 = 189.6

Mynediad Nos:
2018 = 180.7
2019 = 179.9
2022 = 187.3

Mae'r cymhedrau'r profion Siarad yn uwch na'r hyn a welwyd yn y gorffennol – gyda'r dydd a'r nos.

**Gwrando Mynediad Dydd 2022**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
Ni ddylid cosbi am wallau sillafu ac ati; cynnwys yr atebion sy'n cyfrif.

1. **Deialog**
[40 marc = 5 marc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Pam mae Sali yn y parc? | a |
| 2. | Beth mae plant Sali'n hoffi'i wneud? | b |
| 3. | O ble mae Smot yn dod? | b |
| 4. | Mae Smot yn gi **drwg** pan mae'r teulu'n... | c |
| 5. | Beth yw gwaith Jac? | c |
| 6. | Beth mae Sali'n mynd i'w brynu? | c |
| 7. | Beth mae Jac yn mynd i'w yfed? | ch |
| 8. | Ble aeth Sali gyda'r plant dydd Sul, ar ôl bod yn y caffi? | ch |

2. **Bwletin Tywydd**
[20 marc = 5 marc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Wythnos diwetha, roedd hi'n | **wlyb/bwrw glaw/ofnadwy.** . |
| 2. | Heddiw, mae hi'n | **oer,** |
| 3. | Yfory, bydd hi'n | **gymylog.** |
| 4. | Wythnos nesa, bydd hi'n | **niwlog.** |

3. **Amserau a Phrisiau**
[20 marc = 2 farc i bob eitem]

Dim marciau am ddefnyddio geiriau yn lle rhifau.

| | | **Amser dechrau** | | **Pris** |
|---|---|---|---|---|
| Ffair yr ysgol | 1. | 1.00 | 2. | £2.50 |
| Clwb darllen | 3. | 6.00 | 4. | 0 / - / dim |
| Cyngerdd | 5. | 7.30 | 6. | £8 |
| Taith siopa | 7. | 9.15 | 8. | £15.00 |
| Bore coffi | 9. | 11.00 | 10. | £4.00 |

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Rhan 1 – Deialog**

(Nodir yr atebion cywir mewn cromfachau).
Nodwyd atebion fel yr isod:

1.1 – Pam mae Sali yn y parc? (a) – 'b' – tua 6 pherson; 'c' – tua 3 pherson; 'ch' – un person. Nodwyd 'ba' yn y blwch gan 1 person.

1.2 – Beth mae plant Sali'n hoffi'i wneud? (b) – 'a' – tua 42 berson; 'c' – tua 64 person; 'ch' – tua 25 person. Gadawodd 2 berson yr ateb yn wag.

1.3 – O ble mae Smot yn dod? (b) – 'a' – 1 person; 'c' – tua 6 pherson; 'ch' – 1 person.

1.4 – Mae Smot yn gi drwg pan mae'r teulu'n…? (c) – 'a' – tua 19 person; 'b' – tua 49 person; 'ch' – tua 3 pherson. Nodwyd 'AB' fel ateb gan 1 person.

1.5 – Beth yw gwaith Jac? (c) – 'a' – tua 8 person; 'b' – tua 10 person; 'ch' – tua 5 person.

1.6 – Beth mae Sali'n mynd i'w brynu? (c) – 'a' – 1 person; 'b' – tua 3 pherson; 'ch' – tua 10 person.

1.7 – Beth mae Jac yn mynd i'w yfed? (ch) – 'a' – tua 3 pherson; 'b' – tua 3 pherson; 'c' – 1 person.

1.8 – Ble aeth Sali gyda'r plant dydd Sul, ar ôl bod yn y caffi? (ch) – 'a' – 2 berson; 'b' – tua 11 person; 'c' – 2 berson.

**Rhan 2 – Bwletin Tywydd**

2.1 – Wythnos diwetha, roedd hi'n …(wlyb / bwrw glaw / ofnadwy). Doedd dim llawer o broblemau gyda'r ateb hwn heblaw am 'braf' (1 person), 'newlog' (1 person), 'ofnadwy dim bwrw glaw' (1 person).

2.2 – Heddiw, mae hi'n …. (oer). Roedd sawl ateb anghywir yma sef, 'oer a gwyntog' (1 person), 'ddigon' (1 person), 'Towas' (1 person), 'glaw wedi mynd' (2 berson), 'glaw wedi medi, sych' (1 person), 'bwrw glaw bob dydd' (1 person), 'bwrw glaw' (7 person), 'oer, bwrw glaw' (5 person), 'ddigon o lawr' (2 berson), 'lliganol ac glaw' (1 person), 'glaw/oer' (1 person), 'heulog' (1 person), 'ddygon' (1 person), 'dyfylog' (1 person), 'wlyb' (1 person), 'braf' (1 person), 'bwrw glaw ac oer' (2 berson), 'ofnadw' (1 person), 'goloer' (1 person), 'wella' (1 person), 'braf a wyntog' (1 person), 'glaw, digon oer' (1 person), 'cot gwisgo' (1 person), 'ddigoniuw' (1 person). Gadawodd 2 berson yr ateb yn wag.
Er bod y dysgwyr wedi nodi 'oer' fel rhan o'u hatebion uchod, dw i ddim yn teimlo bod nhw wir wedi deall yr ateb yn iawn, mae'n awgrymu ansicrwydd drwy orfod sôn am fwy nag un math o dywydd fel ateb felly ni roddwyd y marc.

2.3 – Yfory, bydd hi'n .... (gymylog). Roedd sawl ateb anghywir yma sef, 'bwrw glaw' (3 pherson), 'cymylog and bwrw glaw' (3 pherson), 'cymalog ond bwrw glaw' (3 pherson), 'gymylog a bwrw glaw' (10 person), 'wyntog' (1 person), 'dyfylog' (1 person). Eto, er bod y dysgwyr wedi nodi 'cymylog' fel rhan o'u hatebion uchod, dw i ddim yn teimlo bod nhw wir wedi deall yr ateb yn iawn, mae'n awgrymu ansicrwydd drwy orfod sôn am fwy nag un math o dywydd fel ateb felly ni roddwyd y marc. Roedd sillafiad y gair 'cymylog' yn wael ond derbyniwyd atebion fel 'gmelog', 'cymalog', 'gymalog' a 'gymlog' gan nad ydynt i fod i golli marciau am gamsillafu.

2.4 – Wythnos nesa, bydd hi'n… (niwlog). Roedd nifer o atebion anghywir yma sef, 'gymylog' (1 person), 'wyntog' (3 pherson), 'haulog' (1 person), 'heulog' (tua 13 pherson), 'braf' (1 person), 'heulog ac yfalis' (1 person), 'ofalus' (2 berson', 'bwrw glaw bob dydd' (1 person). Roedd sillafiad y gair 'niwlog' yn wael ond derbyniwyd atebion fel 'neulog', 'nywlog', 'newlog', 'neilog', 'nhiwlog' gan nad ydynt i fod i golli marciau am gamsillafu.

**Rhan 3 – Amserau a phrisiau**

Doedd dim problem o ran defnyddio rhifau yn lle geiriau.

Ffair yr ysgol:
Amser Dechrau (1.00) – Doedd dim problem yma heblaw am 1 person yn nodi '2.00' fel ateb.
Pris (£2.50) –.Roedd sawl ateb anghywir yma sef, '£1' (1 person), '£20' (1 person), '£2.10' (2 berson), '£100' (1 person), '20p, 50p' (1 person), '£2' (3 pherson), '£2.15' (1 person), '£2.60' (1 person), '£25' (2 berson), '£2.20' (1 person), '0' (1 person), '£0.50' (1 person), '£10.00' (2 berson), '£3.50' (1 person).

Clwb darllen:
Amser Dechrau (6.00) – Nodwyd rhai atebion anghywir yma sef, '8.00' (5 person), '4.00' (4 person), '3.00' (1 person).
Pris (0 / - / dim) – Doedd dim problem o gwbl gyda'r cwestiwn hwn.

Cyngerdd:
Amser Dechrau (7.30) – Gadawodd 1 person yr ateb yn wag. Nodwyd '6.30' fel ateb gan 8 person.
Pris (£8.00) – Dim ond ychydig o atebion anghywir yma sef, '£1' (2 berson), '40' (1 person), '£7' (2 berson, '£0' (1 person).
Taith siopa:
Amser Dechrau (9.15) – Roedd nifer o atebion anghywir yma sef, '8.45' (tua 23 pherson), '5.00' (1 person), '9.45' (2 berson), '5.15' (1 person), '7.00' (6 pherson), '9 6.15' (1 person), '09.15-6.00' (1 person), '9.30' (1 person), '7.15' (1person), '9.15am 7.00pm' (1 person), '7.45' (1 person), '8.45am .00pm' (1 person).
Pris (£15.00) – Roedd nifer o atebion anghywir yma sef, '£10' (tua 5 person), '£11' (tua 12 person), '£6' (1 person), '£12.50' (1 person), '£1' (1 person), '£10.50' (tua 7 person), '£11.10' (1 person), '22' (1 person), '£13' (1 person), '£1.50' (2 berson), '£10.55' (1 person), '£105' (1 person), '£1.55' (1 person), '£11.50' (1 person), '£15.50' (1 person).

Bore coffi:
Amser Dechrau (11.00) – Nodwyd sawl ateb anghywir yma sef, '10.00' (9 person), '12.00' (11 person), '1.10' (3 pherson), '2.00-3.00pm' (1 person), '9.00' (1 person), '2.00' (1 person), '11.30' (1 person). Gadawodd 1 person yr ateb yn wag.
Pris (£4.00) – Roedd sawl ateb anghywir yma sef, '£5' (6 pherson), '£14' (1 person), '£2.00' (2 berson), '£0' (5 person), '£4.50' (1 person), '£13.00' (1 person), '£9.19' (1 person), '£1.00' (3 pherson), '£40' (1 person), '£2.30' (1 person).

Roedd y data fesul eitem yn cadarnhau'r sylwadau. Yr unig eitem a barodd ychydig o anhawster oedd 1.2 (ffactor hygyrchedd 0.68). Roedd ffactorau hygyrchedd pob eitem arall yn 0.9 neu'n uwch. Dyma gymhedrau'r prawf Gwrando Mynediad Dydd dros dair blynedd:

2018 = 70.9
2019 = 75.5
2022 = 74.5

**Gwrando Mynediad Nos 2022**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
Ni ddylid cosbi am wallau sillafu ac ati; cynnwys yr atebion sy'n cyfrif.

1. **Deialog**
[40 marc = 5 marc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Pryd mae John yn rhedeg, fel arfer? | **a** |
| 2. | Faint yw oedran John? / Be' ydy oed John? | **c** |
| 3. | Beth mae Mari'n hoffi'i wneud yn ei hamser sbâr? | **a** |
| 4. | Sawl anifail sy gyda Mari? / Faint o anifeiliaid sy gan Mari? | **c** |
| 5. | Beth oedd gwaith Mrs Jones, cyn ymddeol? | **b** |
| 6. | Beth sy'n bod ar Mrs Jones? | **a** |
| 7. | Ble bydd/Lle fydd John ddydd Mercher nesa? | **c** |
| 8. | Beth bydd John yn ei fwyta heno? | **ch** |

2. **Bwletin Tywydd**
[20 marc = 5 marc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y penwythnos diwetha, roedd hi'n | **wyntog** |
| 2. | Heddiw, mae hi'n | **heulog (derbyn 'braf')** |
| 3. | Prynhawn yfory, bydd hi'n | **bwrw glaw/wlyb** |
| 4. | Dydd Llun nesa, bydd hi'n | **sych** |

3. **Amserau a Phrisiau**
[20 marc = 2 farc i bob eitem]

Dim marciau am ddefnyddio geiriau yn lle rhifau.

| | | **Amser dechrau** | | **Pris** |
|---|---|---|---|---|
| Hanner marathon | 1. | 9.30 | 2. | £5.00 |
| Taith i weld gêm rygbi | 3. | 7.15 | 4. | £60.00 |
| Agor caffi | 5. | 11.00 | 6. | 0 / - / dim |
| Noson caws a gwin | 7. | 6.00 | 8. | £10.00 |
| Drama | 9. | 7.30 | 10. | £7.50 |

Dyma sylwadau'r marciwr:
(Nodir yr atebion cywir mewn cromfachau).

**Rhan 1 – Deialog**

1.1 – Pryd mae John yn rhedeg fel arfer? (a) – 'b' – tua 4 person; 'c' – tua 4 person; 'ch' – 3 pherson.
1.2 – Faint yw oedran John? / Be' ydy oed John? (c) – 'b' – 1 person; 'ch' – 1 person.
1.3 – Beth mae Mari'n hoffi'i wneud yn ei hamser sbâr? (a) – 'b' – 1 person; 'c' – 1 person; 'ch' – 1 person.
1.4 – Sawl anifail sy gyda Mari? / Faint o anifeiliaid sy gan Mari? (c) – 'a' – 2 berson; 'b' – 2 berson; 'ch' – tua 12 person.

1.5 – Beth oedd gwaith Mrs Jones, cyn ymddeol? (b) – ‘a’ – tua 60 person; ‘c’ – tua 6 pherson; ‘ch’ – tua 21 person.
1.6 – Beth sy’n bod ar Mrs Jones? (a) – ‘b’ – tua 17 person; ‘c’ – tua 4 person; ‘ch’ – tua 27 person.
1.7 – Ble bydd / Lle fydd John ddydd Mercher nesa? (c) – ‘a’ – tua 30 person; ‘b’ – tua 20 person; ‘ch’ – tua 8 person.
1.8 – Beth bydd John yn ei fwyta heno? (ch) – doedd dim problem yma.

**Rhan 2 – Bwletin Tywydd**

2.1 – Y penwythnos diwetha, roedd hi’n …(wyntog) – Doedd dim problem gyda’r ateb hwn.
2.2 – Heddiw, mae hi’n …. (heulog / derbyn ‘braf’) – Nodwyd sawl ateb anghywir yma sef, ‘br’ (1 person), ‘neulog’ (1 person), ‘cofio’ (1 person), ‘gwlyb’ (1 person), ‘higlog’ (1 person). Gadawodd un person yr ateb yn wag.
Roedd sillafiad y gair ‘heulog’ yn eitha gwael ond derbyniwyd atebion fel ‘haelog’, ‘haulog’, ‘huelog’, ‘heilog’, ‘hylog’ gan nad ydynt i fod i golli marciau am gamsillafu.
2.3 – Prynhawn yfory, bydd hi’n .... (bwrw glaw / wlyb) – Dim ond un ateb anghywir yma sef, ddim yn dro’ (1 person).
Roedd sillafiad y gair ‘wlyb’ yn eitha gwael ond derbyniwyd atebion fel ‘glyb’, ‘glyib’, ‘glwyb’, ‘wlib’, ‘glib’, ‘wylb’ gan nad ydynt i fod i golli marciau am gamsillafu.
2.4 – Dydd Llun nesa, bydd hi’n … (sych) – Doedd dim llawer o broblemau gyda’r ateb hwn heblaw am yr atebion canlynol sef, ‘sythch’ (1 person), ‘syth’ (1 person), ‘seekh’ (1 person) a ‘sigh’ (2 berson). Yn amlwg, dyn nhw ddim yn deall ystyr y gair ‘sych’ fan hyn.
Derbyniwyd yr atebion yma sef, ‘seich’ (2 berson), ‘sech’ a ‘sycth’ gan nad ydynt i fod i golli marciau am gamsillafu.

**Rhan 3 – Amserau a phrisiau**

Doedd dim problem o ran defnyddio rhifau yn lle geiriau.

Hanner marathon:
Amser Dechrau (9.30) –.Doedd dim llawer o broblemau yma dim ond yr atebion anghywir hyn sef, 8.00 (1 person), ‘5.15’ (1 person).
Pris (£5) – Nodwyd sawl ateb anghywir yma sef, ‘£55.00’ (1 person), ‘£2’ (1 person) a ‘£4.00’ (1 person).

Taith i weld gêm rygbi:
Amser Dechrau (7.15) – Nodwyd sawl ateb anghywir yma sef,’6.45’ (4 person), ‘6.15’ (2 berson), ‘7.45’ (1 person), ‘7.15-10.00’ (1 person).
Pris (£60.00) – Nodwyd sawl ateb anghywir yma sef, ‘£65’ (tua 7 person), ‘£50’ (1 person), ‘£16.00’ (2 berson), ‘£6.00’ (1 person), ‘£80.00’ (1 person), ‘£40’ (2 berson), ‘£60.50’ (1 person), ‘£6.10’ (1 person), ‘£60.60’ (1 person).

Agor caffi:
Amser Dechrau (11.00) – Roedd sawl ateb anghywir yma sef, ’10.00’ (5 person), ‘1.00’ (3 pherson), ‘1.10’ (1 person), ’12.00’ (1 person).
Pris (0 / - / dim) – Doedd dim llawer o broblemau yma, dim ond yr atebion anghywir hyn, ‘£15’ (1 person), ‘£2.00’ (1 person). Gadawodd 1 person yr ateb yn wag.

Noson caws a gwin:
Amser Dechrau (6.00) – Doedd dim llawer o atebion anghywir yma, dim ond y rhain, ‘7pm’ (1 person), ‘8.00’ (3 pherson).
Pris (£10.00) – Eto, dim ond yr atebion hyn oedd yn anghywir, ‘£15.00’ (1 person), ‘£10.50’ (1 person).

Drama:

Amser Dechrau (7.30) – Nodwyd sawl ateb anghywir yma sef, ‘6.30’ (tua 4 person), ‘7.00’ (2 berson), ‘£4.00’ (1 person), ‘7.30-9.00’ (1 person).
Pris (£7.50) – Nodwyd sawl ateb anghywir yma sef, ‘£17.50’ (1 person), ‘£6.10’ (1 person), ‘£75’ (6 pherson), ‘£7’ (10 person), ‘£5.10’ (1 person), ‘£6.50’ (2 berson), ‘£5.50’ (1 person), ‘£70.50’ (2 berson), ‘£75.50’ (3 pherson), ‘£7.10’ (1 person), ‘£70’ (3 pherson), ‘£170 (1 person), ‘£6.50 (1 person), ‘£7.49’ (1 person), ‘£7.50’ (1 person). Gadawodd 2 berson yr ateb yn wag.

Roedd y data fesul eitem yn cadarnhau’r sylwadau.

Ar gyfer Rhan 1, dim ond eitem 1.5 oedd wedi achosi anhawster (ffactor hygyrchedd: 0.57). Roedd yr eitemau eraill i gyd yn hygyrch iawn, er bod y cymedr ychydig yn is nag yn y gorffennol. Dyma’r cymhedrau i’r arholiad Mynediad Nos dros dair blynedd.

2018 = 74.1
2019 = 75.4
2022 = 72.7

**Darllen Mynediad Dydd 2022**

Dyma’r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
Ni ddylid cosbi am wallau sillafu ac ati, ac eithrio yn Rhan 3.

1. **Hysbysebion**
[20 marc = 2 farc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Pryd mae’r te prynhawn yn gorffen? | **4.00** |
| 2. | Faint yw cost y te prynhawn i blant yr ysgol? | **£2** |
| 3. | Ble bydd arian y te prynhawn yn mynd? | **Ysgol y Bont** |
| 4. | Beth sy’n digwydd dydd Sul? | **Ras** |
| 5. | Ble bydd rhaid i’r rhedwyr gwrdd, cyn mynd i’r parc? | **Y maes parcio** |
| 6. | Sut mae cael medal yn y ras? | **Bod yn un o’r 10 cynta** |
| 7. | Faint mae’n ei gostio i redeg yn y ras? | **Dim/0** |
| 8. | Beth yw enw sioe’r ysgol? | **Waliau Newydd** |
| 9. | Faint o’r gloch mae’r drws yn agor i weld sioe’r ysgol yn y prynhawn? | **1.30** |
| 10. | Ble dych chi’n gallu cael tocyn i’r sioe? | **Swyddfa’r Ysgol** |

2. **Deialog**
[20 marc = 2 farc i bob eitem]

| **Enw** | **Beth wnaethon nhw dydd Sadwrn?** | **Beth byddan nhw’n ei wneud nos yfory?** | **Ble byddan nhw dydd Mercher?** |
|---|---|---|---|
| **Siôn** | 1.<br>Aros yn y gwely | 2.<br>Darllen y papurau | 3.<br>Llundain/mewn cyfarfod |
| **Nia** | 4.<br>Mynd am dro | 5.<br>Mynd i’r sinema | 6.<br>yn y swyddfa |
| **Enw** | **Sut maen nhw’n hoffi eu coffi nhw?** | **Sut daethon nhw i’r gwaith y bore ’ma?** | |
| **Siôn** | 7.<br>Coffi du, tri siwgr | 8.<br>car | |

| | | |
|---|---|---|
| **Nia** | 9.<br>Coffi du, dim siwgr | 10.<br>ar y bws |

3. **Llenwi bylchau**
[20 marc = 2 farc i bob eitem]

1. Roedd hi'n **wyntog** iawn ddoe.
2. Dw i'n byw **mewn** pentre bach yn y gogledd.
3. Rhaid **i** ti fynd i weld y ffilm!
4. Dw i'n codi **am/tua** saith o'r gloch fel arfer.
5. Ga'i ofyn cwestiwn, os **gwelwch** chi'n dda?
6. Wnest ti swper i'r plant neithiwr? **Do** (✓)
7. Mae'r coffi'n costio dwy **bunt** (£2) yn y peiriant.
8. **Pryd/Faint o'r gloch** mae Ann yn mynd adre? Am chwech o'r gloch.
9. Dw i'n hoffi **nofio** .
10. Ydy hi'n byw yng **Nghaernarfon** (Caernarfon)?

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Rhan 1 – Hysbysebion**

Disgwylir i ymgeiswyr ddarllen tair hysbyseb ac yna ateb cwestiynau yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr hysbysebion hynny.

1.1 Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn yn llwyddiannus. Cafwyd ambell i ateb yn rhoi'r amrediad 'rhwng 2 a 4'.
1.2 Cynigodd ambell un y pris llawn, sef £4 yma gan gam-ddeall 'hanner pris'.
1.3 Achosodd y cwestiwn hwn ddim trafferth.
1.4 Llwyddodd y mwyafrif i ateb y cwestiwn yn gywir. Cafwyd ambell i ateb yn nodi 'rhedeg' neu 'gerdded' yn hytrach na 'ras'.
1.5 Achosodd y cwestiwn yma drafferth i nifer. Yr 'ateb' anghywir mwyaf poblogaidd oedd 'o gwmpas Aberwylan'.
1.6 Y broblem fwyaf efo'r atebion i'r cwestiwn hwn oedd diffyg sgwennu'r ateb yn llawn. Nododd nifer '10 rhedwr' neu 'rhedwr cyntaf i orffen y ras'. Cynigwyd 'gorffen y ras' gan ambell ymgeisydd hefyd.
1.7 Ni achosodd y cwestiwn hwn drafferth o gwbl.
1.8 Ni achosodd y cwestiwn hwn drafferth o gwbl i'r mwyafrif helaeth. Nododd llond llaw o ymgeiswyr 'Rhian Williams'.
1.9 Y cwestiwn yma achosodd y drafferth fwyaf i'r ymgeiswyr. Roedd amrediad eang o atebion. Nifer yn nodi 'hanner awr cyn y perfformiad'. Nododd ymgeiswyr eraill y ddau amser, sef '6.30' a '1.30'.
1.10 Achosodd y cwestiwn hwn ddim trafferth.

**Rhan 2 – Deialog**

Rhaid i'r ymgeiswyr ddarllen deialog ac wedyn ateb deg cwestiwn ar grid. Does dim rhaid defnyddio brawddegau ac ni chosbir gwallau sillafu na threiglo, ond rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn deall y ddeialog a'r cwestiwn. Ni roddwyd marc am dalp helaeth o destun hyd yn oed os oedd yn cynnwys yr ateb, gan nad oedd yr ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth.

2.1 Penderfynwyd peidio derbyn 'gwely' fel ateb cywir.
Hon oedd y rhan fwyaf llwyddiannus o'r papur arholiad ac ar y cyfan sgoriodd yr ymgeiswyr yn uchel. Dyma'r cwestiynau a achosodd y prif broblemau:
2.4 Cynigwyd ateb rhy hir yma a nifer yn ychwanegu 'ar y beic' i'w hatebion.
2.5 Rhoddwyd 'penblwydd chwaer' fel ateb gan amryw o ymgeiswyr.

2.7 & 2.9 Y brif broblem a gododd oedd fod yr ymgeiswyr yn drysu rhwng y ddau yma ac yn rhoi'r naill ateb ym mlwch y llall.
2.8 & 2.10 Mewn rhai achosion roedd yr ymgeiswyr wedi camddeall y cwestiwn a nodi faint o waith oedd gan y cymeriadau.

**Rhan 3 – Llenwi Bylchau**

Yn y rhan yma rhaid cael y gair cywir, gan gynnwys y sillafu, cenedl enwau a threigladau i gyd yn berffaith, er mwyn ennill y marc. Rhif 2 a 5 achosodd y problemau mwyaf. Penderfynwyd derbyn cerdded ar gyfer cwestiwn 9. Dyma enghreifftiau o'r atebion anghywir:

3.1 wintog, gwyntog
3.2 yn, yng, ar, ger
3.3 dach
3.4 cywir ar y cyfan
3.5 gwelch, gwelich, gweli, gwelych
3.6 Gwnes, ydy, ydw, naddo
3.7 dau, dwy bunt, dair
3.8 Sut, beth, faint or gloch, faint o gloch
3.9 pêl-droed
3.10 Nghaerdydd, Nghaerfyrddin, Nghymru, Gaernarfon, Aernarfon, Nghaenarfon.

Roedd yr ystadegau'n cadarnhau sylwadau'r marciwr. Roedd y ffactorau hygyrchedd yn uchel ar hyd y prawf, a'r eitem fwyaf heriol oedd 1.9 (ffactor hygyrchedd 0.59), lle bu'n rhaid i'r ymgeiswyr dynnu 30 munud o 2.00yp. Roedd y cymedr ychydig yn uwch nag yn y gorffennol.

2018 = 50.5
2019 = 47.4
2022 = 51.4

**Darllen Mynediad Nos 2022**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
Ni ddylid cosbi am wallau sillafu ac ati, ac eithrio yn Rhan 3.

1. **Hysbysebion**
   [20 marc = 2 farc i bob eitem]

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Faint o'r gloch bydd y Bore Coffi'n dechrau? | **10am** |
| 2. | Beth dych chi'n ei gael i'w fwyta yn y Bore Coffi? | **cacen** |
| 3. | Pwy fydd yn cael yr arian o'r Bore Coffi? | **Oxfam** |
| 4. | Ble bydd y daith gerdded yn gorffen? | **(Tafarn) Y Llew Du** |
| 5. | Faint yw pris y daith gerdded? | **Dim byd/does dim rhaid talu/0** |
| 6. | Ble byddwch chi'n cael cinio ar y daith gerdded? | **ar bwys/wrth yr afon** |
| 7. | Ble bydd y Noson Jazz? | **(Tafarn) y Dderwen Fawr** |
| 8. | Pwy fydd yn perfformio gyda'r band? | **Iwan Dafydd** |
| 9. | Faint yw pris tocyn, os dych chi'n talu ar y noson? | **£7** |
| 10. | Pwy sy ddim yn cael dod i'r noson Jazz? | **Plant/Pobl dan 18** |

2. **Deialog**
   [20 marc = 2 farc i bob eitem]

| Pwy? | Ble maen nhw'n gadael y trên? | Beth maen nhw'n mynd i'w wneud ar ôl cyrraedd? | Pa chwaraeon maen nhw'n eu hoffi? |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lowri** | 1.<br>Aberheli | 2.<br>mynd i'r gwaith / cyfarfod | 3.<br>rygbi |
| **Sam** | 4.<br>Caerdydd | 5.<br>mynd i'r stadiwm / i weld y gêm | 6.<br>pêl-droed |

| **Pwy?** | **Beth byddan nhw'n ei gael i swper heno?** | **Ble byddan nhw'n cysgu heno?** |
|---|---|---|
| **Lowri** | 7.<br>brechdan | 8.<br>adre |
| **Sam** | 9.<br>pysgod a sglodion | 10.<br>Sŵn y Don / mewn gwesty |

3. **Llenwi bylchau**
[20 marc = 2 farc i bob eitem]

1. **Wnest** (gwneud) ti'r gwaith cartre neithiwr?
2. Roedd y tywydd yn **braf/heulog** ddoe.
3. Mae Gwyn yn byw yng **Nghaerdydd** (Caerdydd).
4. Mae deg o **blant/bobl** yn mynd i'r parti.
5. Oes rhaid **i** ti fynd adre?
6. **Sut** wyt ti'n mynd i'r gwaith? Ar y bws.
7. Pris coffi yw/ydy **dwy** (£2) bunt.
8. **Ydy** Sam yn mynd i'r coleg yfory?
9. **Ga'/Gaf** i fynd i'r tŷ bach? Cewch, wrth gwrs.
10. Dw i ddim yn hoffi **canu**.

Dyma sylwadau'r marciwr:

Ni chosbir camsillafu ond rhaid ateb yn Gymraeg. Ni roddir marciau am atebion Saesneg.

**Rhan 1 – Hysbysebion**

Disgwylir i ymgeiswyr ddarllen tair hysbyseb ac yna ateb cwestiynau yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr hysbysebion hynny.

1.1 Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn yma'n gywir. Roedd rhai yn nodi'r amser dechrau a gorffen neu yn nodi 'rhwng 10' oedd yn awgrymu nad oeddent yn deall ystyr y gair.
1.2 Penderfynwyd derbyn 'cacen a choffi' fel ateb yn y cwestiwn yma, ond nid 'cacen, coffi a thocyn raffl'.
1.3 Nododd rhywfaint o ddysgwyr y pris mynediad fel ateb yma, ond ar y cyfan atebwyd y cwestiwn yma yn gywir.
1.4 Dyma'r cwestiwn achosodd fwyaf o drafferth. Gwelwyd nifer o ymgeiswyr oedd yn cael marciau llawn fel arfer yn baglu wrth ateb y cwestiwn yma. Yr 'ac yn ôl' oedd yn peri trafferth gan fod nifer wedi nodi Bryn Awel fel ateb.
1.5 Cafwyd nifer o atebion gwahanol i gyfleu bod y daith am ddim yma, ond derbyniwyd unrhyw ateb oedd yn dangos eu bod wedi deall nad oedd angen talu.
1.6 Achosodd y cwestiwn yma drafferth i dipyn o ymgeiswyr gyda 'brechdanau a diod', 'Tafarn y Llew Du' ac 'Afon' yn atebion anghywir welwyd yn eithaf cyson.
1.7 Ni achosodd y cwestiwn hwn drafferth.
1.8 Llwyddodd y mwyafrif helaeth o'r dysgwyr i ateb y cwestiwn yma yn ddi-drafferth, ond fe nododd ambell un 'Niwl Piws' fel ateb.
1.9 Ni achosodd y cwestiwn yma drafferth i'r rhan helaeth o'r dysgwyr, ond mi wnaeth ambell un nodi'r pris fyddai angen ei dalu cyn y noson sef £5 fel ateb.

1.10 Achosodd y cwestiwn yma dipyn o drafferth gan fod nifer wedi nodi pwy oedd yn cael dŵad i'r noson yn hytrach na'r rhai oedd ddim yn cael mynychu.

**Rhan 2 – Deialog**

Rhaid i'r ymgeiswyr ddarllen deialog ac wedyn ateb deg cwestiwn ar grid. Does dim rhaid defnyddio brawddegau ac ni chosbir gwallau sillafu na threiglo, ond rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn deall y ddeialog a'r cwestiwn. Ni roddwyd marc am dalp helaeth o destun hyd yn oed os oedd yn cynnwys yr ateb, gan nad oedd yr ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth. Dyma'r rhan oedd y dysgwyr yn cael y marciau uchaf ynddi a nifer helaeth yn cael marciau llawn yma.

2.1 Penderfynwyd peidio derbyn 'Caerdydd i Aberheli' fel ateb cywir yma.
2.2, 2.3, 2.4 & 2.6 Ni achosodd y cwestiynau yma unrhyw broblemau.
2.5 Nododd ambell un 'cael pysgod a sglodion cyn y gêm' fel ateb yma a penderfynwyd derbyn yr ateb fel un cywir.
2.7 & 2.9 Roedd nifer yn cymysgu rhwng y ddau ateb yma a tipyn cael trafferth dweud beth oedd Lowri am gael i swper.
2.8 Cafwyd nifer o atebion amrywiol ar gyfer y cwestiwn yma e.e. 'yn y tŷ', 'yn ei gwely hi', 'tŷ Lowri' yn rhai o'r rhai mwyaf amlwg.
2.10 Llwyddodd mwyafrif y dysgwyr i ateb y cwestiwn yma yn gywir. Ni dderbyniwyd 'Caerdydd' neu 'Y Bae' fel ateb cywir.

**Rhan 3 – Llenwi Bylchau**

Yn y rhan yma rhaid cael y gair cywir, gan gynnwys y sillafu, cenedl enwau a threigladau i gyd yn berffaith, er mwyn ennill y marc.
Cwestiynau 1, 4 a 7 achosodd fwyaf o broblemau. Penderfynwyd derbyn y canlynol yn ychwanegol i beth oedd yn y cynllun marcio: 3.4 – ffrindiau a 3.8 – yn y.

Dyma rai enghreifftiau o'r atebion anghywir:

3.1 Wnes, nest, Gnest, Gwnaethoch,
3.2 mwyafrif yn gywir
3.3 Nhaerdydd, Ngaerdydd, Gaerdydd, Nhgaerdydd
3.4 plant, o'r gloch, plentyn, blentyn
3.5 mwyafrif yn gywir
3.6 Lle, pryd
3.7 dau, ddau, ddwy, dwi, dai
3.8 yn, i'r
3.9 rhaid, cewch, est, wyt, cael
3.10 cannu, ganu

Roedd yr ystadegau'n cadarnhau argraffiadau'r marciwr. Eitem 1.4 achosodd yr anhawster mwyaf (ffactor hygyrchedd 0.47). Roedd ffactorau hygyrchedd yr eitemau eraill i gyd yn uchel iawn. Yn Rhan 3, eitemau 3.1 a 3.3 oedd y lleiaf hygyrch, ond roedd y ffactorau hygyrchedd yn 0.68 a 0.69. Dyma gymhedrau prawf Darllen Mynediad Nos dros y blynyddoedd diwethaf:

2018 = 48.8
2019 = 47.4
2022 = 52.1

**Ysgrifennu Mynediad Dydd**

Dyma adroddiad y marciwr:

Braf marcio ar ôl cyfnod mor hir a chael dweud bod safon y papurau ysgrifennu M Dydd yn uchel iawn yn gyffredinol. Prin iawn iawn oedd y papurau hynny nad oedd yn cadw at y gofynion.

**Rhan 1 – Cerdyn Post**

Y dysgwyr yn amlwg wedi'u trwytho'n fanwl ar sut i greu cerdyn post. Dylid diolch i'r tiwtoriaid am roi eu dysgwyr ar ben ffordd er heb weld eu dysgwyr yn y cnawd fel petae. Roedd angen teilwra'r dysgu felly ac mae'r dysgu yn ôl y papurau weles i wedi bod yn llwyddiant mawr.

Cafwyd ychydig wallau:
- Gwelwyd yr un hen 'cyrraedd yn…' yn cael ei ddefnyddio;
- i y traeth
- dwi'n ar wyliau / dw i'n wedi;
- cymysgu rhwng 'yn' a 'mewn' – cafwyd 'dw i'n aros yn gwesty' yn lle 'mewn gwesty';
- camddeall bwyta - 'Roedd y bwyta yn y gwesty yn dda' 'Mae bwyta yn dda iawn'
- Cafwyd 'Es i mynd';
- Roedd amrywiaeth mawr ar gloi'r cerdyn – Welwch chi wythnos nesaf, Gwela a ti y penwythnos, Gwel ti ar y Gwaith, Wel a chi fuan, Wel digon dyna nawr;
- Roedd ambell un yn ansicr o 'gyrru' – Bwytodd gyrru da iawn, Dwi'n mwynhau bwyta cyrru.
- Roedd 'treath' yn digwydd yn aml / 'siarad i' / 'Roedd hi'n tywydd yn heulog.' / 'wneathon'.

**Rhan 2 – Portread**

Cafwyd brawddegau synhwyrol iawn yn gyffredinol ond roedd ansicrwydd mewn mannau:
- Hepgor y fannod neu beidio cynnwys treiglad – Aeth Mari am dro gyda ci;
- 'Aeth hi mynd y ci am dro';
- Yn aml cafwyd – 'Mae un plant gyda hi' 'Mae un o plant gyda hi' 'Mae un merch gyda hi'
- Roedd cyw iâr / ffowlyn yn ddieithr i rai ond daeth sawl un dros y broblem drwy ddefnyddio cinio rhost / cig / cinio poeth;
- Roedd cryn amrywiaeth ar sillafu cyw iâr – yn amlwg y dysgwyr wedi clywed y gair ond efallai heb ei weld yn ysgrifenedig – cyw iair / qui au / cŵ iar / cywi iâ.

Roedd hi'n bleser gweld pa mor gywir oedd rhai o'r dysgwyr. Roedd sawl papur wedi llwyddo cael y marciau llawn ac wir yn cyfathrebu yn glir a deallus ar y cerdyn post. Diolch i'r tiwtoriaid am waith gwych gyda'r dysgwyr.

Dyma'r cymhedrau ar gyfer prawf Ysgrifennu Mynediad Dydd dros y blynyddoedd diwethaf a'r cymedr eleni ychydig yn uwch. Mae'r rhain a'r gwyriad safonol yn gyson iawn.

2018 = 31.5
2019 = 31.7
2022 = 32.7

**Ysgrifennu Mynediad Nos 2022**

Dyma adroddiad y marciwr:

Roedd gafael yr ymgeiswyr ar batrymau sylfaenol y lefel yma yn haeddu clod ac roedd y rhan fwya yn llwyddo i gyrraedd safon dda iawn gyda'r rhai gwan yn eithriadau.

**Rhan 1 – Cerdyn Post**

Doedd dim un o'r pump gair a osodwyd eleni yn achosi problemau mawr. Roedd un neu ddau ymgeisydd ddim mor sicr o'r gair 'bwyd' ond wedi gallu creu brawddegau cywir a'r lleill wedi defnyddio ffurfiau megis 'bwyty / bwytes' ac ati.

Roedd y brawddegau ar y cyfan yn ddisgwyliedig yn trafod y tywydd, bwyd a diod ac yn defnyddio amseroedd cywir y ferf. Braf oedd cael llif o batrymau yn dweud stori yn hytrach na brawddegau digyswllt (gan ambell un yn unig) a braf oedd gweld ymgeiswyr yn 'darllen' e-bost, poster, llyfr teithio neu nofel yn hytrach na 'Harry Potter' – y ffefryn! Roedd y goreuon yn defnyddio 'bydd' a 'rhaid' gyda'r rhan fwya yn ymdopi'n dda gyda'r presennol, gorffennol cryno a'r amherffaith. Roedd y sawl a ddewisodd defnyddio 'cyrraedd' yn ei ddefnyddio'n gywir gydag ambell i yn cael ei ddal wrth ychwanegu arddodiad. Y prif gamgymeriadau gramadegol eraill oedd hepgor 'yn' o flaen ansoddair ac yn enwedig ffurfiau dyfodol 'bod', a'r ymadrodd 'mynd i'r siopa'

**Rhan 2 – Portread**

Ar y cyfan roedd pawb wedi deall y lluniau.
Doedd cerdded / dringo ddim yn achosi problem er i ni gael un yn ddau 'yn heicio'. Fel arfer mae 'yfory' a 'ddoe' yn heriol i ambell un, ond nid roedd y mwyafrif yn defnyddio'r amseroedd cywir.
Roedd nifer yn cymysgu y berfau 'gwneud' a 'mynd' ac weithiau 'cael' wrth eu defnyddio yn y gorffennol, yn arbennig o flaen cerdded/dringo. Weithiau defnyddiwyd y person anghywir e.e. cerddais yn lle cerddodd.
Roedd defnyddio 'ddim yn hoffi' yn achosi sawl camgymeriad gyda'r ymgeiswyr yn mynnu cynnwys 'mae' hefyd.
O ran gwaith, roedd y patrymau cywir yn cael ei ddefnyddio naill ai i ddisgrifio beth roedd e'n ei wneud neu i ddweud beth oedd ei waith, er bod sawl un wedi camsillafu 'ffermwr'.
Achosodd sbardun 'y plant' fwy o broblemau – nid yn gymaint y treigladau ond defnyddio'r enw unigol rhif neu 'o' a'r lluosog.
Ymysg y camgymeriadau eraill cafwyd y canlynol: hepgor 'yn' ar ol 'dim'; bydd ac oedd; defnyddio oes yn lle mae mewn gosodiad; defnyddio'r person anghywir gyda'r ferf gryno e.e.cerddais yn lle cerddodd.

Dyma'r cymhedrau i brawf Ysgrifennu'r arholiad Mynediad Nos dros gyfnod o flynyddoedd. Roedd y cymedr ychydig yn is nag yn 2019, ond yn agos iawn i'r patrwm a welwyd dros flynyddoedd.

2018 = 32.0
2019 = 30.6
2022 = 29.9

**Ystadegau**

Dyma ystadegau'r arholiad cyfan dros gyfnod o dair blynedd:

**Mynediad Haf 2018**

| **Prawf** | **Cymedr Nos Iau Mehefin 2018** | **Cymedr Dydd Gwener Mehefin 2018** |
|---|---|---|
| | **253** ymgeisydd | **544** ymgeisydd |
| Gwrando | 74.1 (80) | 70.9 (80) |
| Llafar | 180.7 (220) | 179.1 (220) |
| Darllen | 48.8 (60) | 50.5 (60) |
| Ysgrifennu | 32.0 (40) | 31.5 (40) |
| Cyfanswm | 335.5 (400) | 332.0 (400) |

**Mynediad Haf 2019**

| Prawf | Cymedr Nos Iau Mehefin 2019 | Cymedr Dydd Gwener Mehefin 2019 |
|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr | 234 ymgeisydd | 524 ymgeisydd |
| Gwrando | 75.4 (80) | 75.5 (80) |
| Llafar | 179.8 (220) | 182.1 (220) |
| Darllen | 47.4 (60) | 47.2 (60) |
| Ysgrifennu | 30.6 (40) | 31.7 (40) |
| Cyfanswm | 333.4 (400) | 336.4 (400) |

**Mynediad Haf 2022**

| Prawf | Cymedr Dydd Mercher Mehefin 2022 | Cymedr Nos Iau Mehefin 2022 |
|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr | **462** ymgeisydd | **209** ymgeisydd |
| Gwrando | 74.5 (80) | 72.7 (80) |
| Llafar | 185.7 (220) | 183.0 (220) |
| Darllen | 51.4 (60) | 52.1 (60) |
| Ysgrifennu | 32.7 (40) | 29.9 (40) |
| Cyfanswm | 344.6 (400) | 338.0 (400) |

Yn dilyn y cyfarfod dyfarnu, penderfynwyd cadw'r ffin llwyddo yn yr un lle. Nid oedd llawer o ymgeiswyr o gwbl yn agos i'r ffin honno.

Dyma grynodeb o'r cyfraddau llwyddo dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys arholiad Mynediad Ionawr:

| | Ionawr 2018 | | Haf Dydd 2018 | | Haf Nos 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer a lwyddodd** | 112 | 100% | 515 | 95% | 240 | 95% |
| **Nifer a fethodd** | 0 | | 29 | 5% | 13 | 5% |

| | Ionawr 2019 | | Haf Dydd 2019 | | Haf Nos 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer a lwyddodd** | 109 | 98% | 495 | 94% | 222 | 95% |
| **Nifer a fethodd** | 2 | 2% | 29 | 6% | 12 | 5% |

| | Ionawr 2022 | Haf Dydd 2022 | | Haf Nos 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer a lwyddodd** | | 456 | 98.7% | 206 | 98.6% |
| **Nifer a fethodd** | | 6 | 1.3% | 3 | 1.4% |

* Dim ond mewn un ganolfan y cynhaliwyd yr arholiad llawn yn Ionawr 2022.
Mae'r canrannau sy'n llwyddo yn yr arholiad hwn yn gyson uchel. Cadwyd y ffin ar 240 allan o 400, yn dilyn y cyfarfod dyfarnu.


**Enghreifftiau o'r prawf Ysgrifennu**

**Mynediad Dydd**

**Rhan 1 – Cerdyn Post**

Y sbardunau ar gyfer Rhan 1 (cerdyn post) oedd: wythnos diwetha, oer, gwesty, siarad, gyrru.


Mae'r enghraifft gyntaf yn defnyddio brawddegau cyfarwydd yn gywir.  Er bod ambell wall cyfarwydd, e.e. 'cyrraedd yn' cafodd yr ymgeisydd 20 marc am y cerdyn hwn.  Mae'n defnyddio amserau gwahanol yn ddidrafferth.


Dydd Mercher

Annwyl Llion,
Mi wnaethon ni gyrraedd yn Yr Alban wythnos diwetha.
Mae'r gwesty yn hyfryd. Dan ni'n medru gweld y môr.
Ond, mae'r tywydd yn oer.
Mi wnes i siarad efo Gwawr bore 'ma. Mi wnaeth hi ddeud, mae hi'n licio'r Alban.
Yfory mi fyddwn ni'n gyrru adre i Landudno.

Llion Evans
8 Heol y Bryn
**LLANABER**
Cymru
SA12 1NS

Mae'r ail enghraifft yn eithaf cywir hefyd, ond mae'n amlwg fod un o'r sbardunau heb fod 'dan reolaeth', h.y. mewn ffordd sy'n dangos ei fod wedi deall y gair, ac felly mae'n colli ychydig o farciau am hynny.  Cafodd 15 allan o 20 am y cerdyn hwn.


Dydd Mercher

Annwyl Llion,
Dyma fi yn Abergele. Wnes i gyrraedd wythnos diwetha. Mae'r tywydd yn ofnadwy, mae hi'n oer. Ond mae'r gwesty yn braf iawn, mae'r bwyd yn braf iawn ac mae'r bobl yn braf iawn hefyd. Achos dw i'n mwynhau siarad efo pobl drws nesa ac dw i'n mwynhau cyrru? -3
Dw i'n mynd adre dydd Sadwrn Sul achos dw i'n wedi blino.

Pob hwyl,


Llion Evans
8 Heol y Bryn
**LLANABER**
Cymru
SA12 1NS

15

**Rhan 2 – Portread**


Y sbardunau ar gyfer Rhan 2 (portread) oedd: Mari, yn wreiddiol [map Caergybi], plant [llun un ferch], neithiwr [llun mynd â'r ci am dro], i swper heno [llun cyw iâr], gwaith [llun meddyg].

Llwyddodd yr ymgeisydd cyntaf i osgoi defnyddio'r gair 'cyw iâr' gan ddehongli'r llun fel twrci! Cafodd farciau llawn am y brawddegau hyn.


Dyma Mari.

1. Mae hi'n dŵad o Gaergybi yn wreiddiol. 4
2. Mae gynni hi un hogan. 4
3. Mi wnaeth hi fynd am dro efo'r ci neithiwr. 4
4. Meddyg ydy hi. 4.
5. Mi gaeth hi dwrci i swper heno. 4.

Mae'r ymgeisydd nesa hefyd yn amlwg wedi meistroli'r cystrawennau. Collodd ychydig am ddefnyddio'r gair 'hen' yn lle cyw iâr. Mae 'cyw iâr' yn y rhestr eirfa graidd ar lefel Mynediad.


Dyma Mari.


1. Mae hi'n dwad o Gaergybi yn wreiddiol. 4
2. Nyrs Ydy hi. 4
3. Mae hi'n hoffi hen i super heno. 2
4. Mae gan Mari un hogan. 4
5. Wnaeth hi fynd am dro efo ci neithiwr. 3

**Mynediad Nos**

Y sbardunau ar gyfer Rhan 1 (cerdyn post) oedd:  ddoe, braf, darllen, bwyd, heno.

**Rhan 1 – Cerdyn Post**

Mae'r ymgeisydd cyntaf yn ardderchog, ond efallai'n fwy uchelgeisiol a mentrus.  Mae'n hepgor y fannod a'r 'yn' traethiadol ar brydiau.  Cafodd 16 allan o 20 am y cerdyn hwn.



Dydd Iau

Annwyl Sam,


Dan ni wedi cyrraedd yn saff
yn yr Eidal. Mae'r gwesty yn un
pump seren. Mae hi'n gyfforddus
yma. Ond.... dydy y bwyd ddim
yn dda, felly, heno, dan ni mynd
i Tŷ Bwyta, i fwyta pitsa.
Ddoe, aethon ni i Pompeii – ydy
y lle mwya diddorol pwy dw i
wedi ymweld.
Mae'r tywydd yn braf iawn –
mae'r haul yn gwenu bob
dydd. Dw i'n mwynhau darllen
a'r y traeth, ar ôl nofio yn y mor.

Pob hwyl,

Sam Ifan
14 Heol yr Haul
**LLANABER**
Cymru
SA11 5EW

16

Mae'r ail enghraifft yn fwy ansicr gydag amserau berfol, er bod llawer o elfennau da yma hefyd.  Cafodd 11 allan o 20 am y cerdyn hwn.



**ddoe** **braf** **darllen** **bwyd** **heno**

Dydd Iau

Annwyl Sam,

Sut wyt ti? Dw i'n ar
wyliau yn Abersoch! Ddoe, mi
wnaeth mynd i westy. Dw i'n
lwcus, y gwesty yn braf. Dw i'n
licio darllen ar y traeth.
Mi es i fynd y cafe am bwyd.
Heno, mi fydd i fynd i'r
Sinema.


Sam Ifan
14 Heol yr Haul
**LLANABER**
Cymru
SA11 5EW

11

**Rhan 2 – Portread**

Y sbardunau ar gyfer Rhan 2 (portread) oedd: Philip, mynd yfory [map Sbaen], plant [llun dau fab], ddoe [llun dringo], gwaith [llun ffermwr], ddim yn hoffi [llun cacen].

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos rhai camgymeriadau nodweddiadol, e.e. defnyddio enw lluosog ar ôl rhifolyn, cymysgu amserau yn y gorffennol.




Dyma Philip.

1. mae Philip yn mynd i Sbaen yfory 3
2. Mae gan Philip dau plant 1
3. Dydy o ddim yn hoffi cacen 4
4. Ffermwr ydy o 4
5. ddoe, mae Philip yn mynd i gerdded 1

13

Yn yr ail enghraifft, mae mwy o frawddegau cywir, ond mae'n drysu wrth fynegi meddiant yn yr ail frawddeg. Cafodd yr ymgeisydd yma ras o gamdreiglo 'cacen', ond mae'r gystrawen yn gywir.



Dyma Philip.

1. Mae Philip yn gweithio fel ffermwyr. 3
2. Sgynno fo ddau o blant. 2
3. Dydy o ddim yn hoffi gacen. 4
4. Ddoe wnaeth o ddringo yr Wyddfa. 4
5. Yfory, mae o'n mynd i Sbaen. 4

17

**Adborth Ymgeiswyr Mynediad 2022**

Atebwyd yr holiadur Mynediad gan 446 o ymgeiswyr.

Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd canmoliaeth uchel i'r cyfwelwyr, a'r rhai oedd wedi sefyll ar-lein yn falch o'r cyfle i wneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yn ymwneud â'r dechnoleg. Nododd ambell un nad oedd gwaelod y ddeialog yn weladwy ar y sgrîn unwaith roedd y recordio'n dechrau, er bod y cyfan yn weladwy wrth baratoi.

Cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r cyfweliadau wyneb-yn-wyneb, a'r teimlad fod y cyfwelwyr yn gyfeillgar ac yn gefnogol. Er enghraifft, nododd un ymgeisydd '…I came out feeling as though I 'd had a chat with a friend. This was the best part of the whole exam for me. There was a very good balance between professionalism and informality.'

O safbwynt y dewis rhwng cynnal y prawf ar-lein neu ar y campws, roedd y farn yn rhanedig, er bod mwyafrif o blaid sgwrs wyneb-yn-wyneb (yn wahanol i holiadur 2021).

Roedd rhai'n cwyno bod y cyfwelydd yn rhoi'r cyfarwyddiadau yn Gymraeg.  Fodd bynnag, dyna y mae'r cyfwelydd i fod i'w wneud.  Mae'r cyfarwyddiadau ar daflen yr ymgeisydd yn ddwyieithog a dylai'r ymgeisydd wybod beth i'w ddisgwyl heb orfod deall cyfarwyddiadau newydd.

O ran y profion eraill, roedd canmoliaeth gyffredinol i'r trefnwyr am eu hynawsedd a'r trefniadau effeithlon.  Roedd rhai'n nodi y byddai wedi bod yn fuddiol cael mwy o wybodaeth ymarferol ymlaen llaw, e.e. bod angen beiro, peidio â dod â phapur sgrap neu fod rhaid gadael eiddo a ffonau mewn rhan arall o'r ystafell.  Roedd rhai'n cwyno am yr holl amser a gymerwyd i gasglu a dosbarthu'r papurau, a hynny'n bwrw'r amserlen ymlaen, yn enwedig yn arholiad y nos.  Roedd ambell gŵyn am ansawdd y sain ac anaddasrwydd ystafell ddarlithio i gynnal yr arholiad.

Yn gyffredinol, roedd sylwadau cadarnhaol am y cyrsiau'n arwain at yr arholiadau, a bod y cyrsiau adolygu/munud olaf yn arbennig o werthfawr.

5. **Sylfaen 2022**

Mae cyfanswm yr ymgeiswyr yn is na'r hyn a welwyd yn 2019, ond yn uwch na 2017 a 2018. Yn y bachau petryal, nodir nifer y dysgwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau dan y ganolfan arholi honno. Nodir nifer yr ymgeiswyr preifat ar waelod y rhestr. Dyma'r tro cyntaf i'r arholiad llawn gael ei gynnig yn y fformat newydd. Cynhaliwyd yr arholiad llawn ymhob canolfan ac eithrio un lle cynhaliwyd y profion Siarad ar-lein yn unig.

| Lleoliad | Canolfan | Nifer | Siarad |
|---|---|---|---|
| **00501** | **Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe [32]** | | |
| D00501.1 | Prifysgol Abertawe | 31 | 3 |
| **00502** | **Dysgu Cymraeg Caerdydd [74]** | | |
| D00502.01 | Prifysgol Caerdydd | 64 | 11 |
| **00503** | **Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr [45]** | | |
| D00503.12 | Adeilad Elystan Morgan, Aberystwyth | 0 | 45 |
| **00504** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru [54]** | | |
| D00504.01 | Prifysgol Bangor | 49 | 5 |
| **00505** | **Dysgu Cymraeg Gwent [42]** | | |
| D00505.01 | Campws Pont-y-Pŵl | 14 | 1 |
| N00505.02 | Campws Dinas Casnewydd | 23 | 0 |
| **00506** | **Dysgu Cymraeg Morgannwg [40]** | | |
| D00506.01 | Prifysgol De Cymru | 34 | 7 |
| **00507** | **Dysgu Cymraeg Sir Benfro [22]** | | |
| D00507.04 | Canolfan Bloomfield, Arberth | 21 | 1 |
| **00508** | **Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg [7]** | | |
| D00508.01 | Llyfrgell y Barri | 7 | 0 |
| **00509** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Cymru [48]** | | |
| D00509.01 | Coleg Cambria, Glannau Dyfrdwy | 13 | 0 |
| D00509.02 | Coleg Cambria, Wrecsam | 26 | 11 |
| **00552** | **Y Wladfa [3]** | 2 | 1 |
| | **Ymgeiswyr Preifat [2]** | | |
| | **Cyfanswm** | **284** | **85** |

Cyfanswm Cofrestriad 2017 = 279
Cyfanswm Cofrestriad 2018 = 372
Cyfanswm Cofrestriad 2019 = 375
Cyfanswm Cofrestriad 2022 = 284

Dyma broffil o'r ymgeiswyr:

| | Proffil oedran (oedran ar Awst 31) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dan 20** | **20-29** | **30-39** | **40-49** | **50-59** | **60-69** | **70-79** | **80 ac uwch** |
| Mehefin 18 | 0.3 | 7.8 | 20.4 | 25.8 | 21.2 | 17.7 | 4.0 | 0.8 |
| Mehefin 19 | 1.6 | 11.2 | 24.5 | 22.4 | 19.2 | 14.9 | 5.3 | 0.3 |
| Mehefin 22 | 0.7 | 8.8 | 14.8 | 22.9 | 24.6 | 20.4 | 7.0 | 0.7 |

| | Proffil Rhyw | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwryw** | **Benyw** | **Arall** |
| Mehefin 18 | 28.8 | 70.7 | |
| Mehefin 19 | 28.8 | 71.2 | |
| Mehefin 22 | 31.0 | 58.5 | 10.6 |

| | Proffil Canolfannau Arholi (canran yr ymgeisiaeth) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 00501 | 00502 | 00503 | 00504 | 00505 | 00506 | 00507 | 00508 | 00509 | 00552 |
| Mehefin 18 | 5.7 | 13.7 | 16.1 | 11.0 | 19.6 | 14.0 | 9.4 | 2.4 | 6.2 | 1.8 |
| Mehefin 19 | 5.6 | 12.8 | 19.5 | 9.1 | 13.3 | 17.6 | 4.0 | 3.5 | 12.5 | 2.1 |
| Mehefin 22 | 10.2 | 22.5 | 0.0 | 17.3 | 14.4 | 11.6 | 7.4 | 2.5 | 13.4 | 0.7 |

## Siarad

Dyma adroddiad y prif arholwr:

2022 yw'r ail flwyddyn i ni gynnal y prawf llafar ar ei newydd wedd a braf yw gallu adrodd ein bod erbyn hyn yn gwobrwyo'r gallu i gyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell. Gydag eithriadau prin iawn, mae hyn yn oed y gweiniaid yn llwyddo i gyfathrebu. Bu tîm o ddeg o farcwyr wrthi'n marcio, pob un wedi marcio arholiad Sylfaen o'r blaen ond un ohonynt yn newydd i'r arholiad ar ei newydd wedd. Bu pob un o'r deg marciwr a'r prif arholwr yn bresennol yn y cyfarfod cyn-farcio a gynhaliwyd a chafwyd cyfle i farcio rhai ymgeiswyr ar y cyd.

Fel Prif Arholwr, marciais i bob ymgeisydd a gafodd farc o 124 neu lai (120 yw'r marc pasio), ynghyd â sampl ehangach gan rai marcwyr oedd heb roi marc o lai na 124 i o leiaf dri ymgeisydd – cyfanswm o 48 o ymgeiswyr. Yn gyffredinol, teimlais fod canran uchel iawn o'r ymgeiswyr yn deall beth oedd gofynion y prawf. Roedd rhai yn amlwg nad oeddent yn ymwybodol o'r gofynion, e.e. dweud un frawddeg fer yn unig am bob pwnc.

### Rhan 1 – Cael gwybodaeth

Rhoddwyd marciau am gywirdeb a phriodoldeb. Dyma'r hysbyseb:

**Mynd am dro**

Bydd Clwb Cerddwyr Bryn Gwyn yn cerdded i Aberwylan ddydd Sadwrn nesa.

Bydd y daith yn dechrau am ddau o'r gloch, o neuadd y dre.

Cost y daith: Pum punt y pen.

Mae'r daith yn saith milltir ac yn cymryd dwy awr.

Bydd John Evans yn siarad am hanes y castell ar ddiwedd y daith.

Cwestiwn 1: Gwnaed ymdrech i beidio â gofyn cwestiwn anodd i ddechrau, ond roedd y cwestiwn hwn yn heriol i'r gweiniaid.

Cwestiwn 2: Hwn oedd y cwestiwn a atebwyd orau.
Cwestiwn 3: Atebwyd cwestiwn 3 yn dda.
Cwestiwn 4: Hwn oedd y cwestiwn anoddaf. Mae angen i diwtoriaid roi sylw i'r cwestiwn 'Pa mor...?'
Cwestiwn 5: I'r bobl oedd yn deall beth roedd angen ei ofyn yma, gofynnwyd cwestiynau da. Fodd bynnag, i'r gweiniaid roedd yn anodd gwybod pa gwestiwn i'w ofyn.
Mae ymgeiswyr yn gallu sgorio'n uchel iawn yn yr adran hon ar sail priodoldeb y cwestiynau.

**Rhan 2 – Siarad Amdanoch chi eich Hun**

Mae'r adran hon yn gweithio'n dda iawn, gyda phawb, heblaw am rai ymgeiswyr gwan iawn, yn llwyddo i sgwrsio ac ateb cwestiynau'n briodol.  Mae angen parhau i dynnu sylw at y ffaith bod angen dweud mwy nag un neu ddwy frawddeg fer. Byddai hefyd yn dda cael cysondeb ymhlith cyfwelwyr. Mae rhai'n derbyn bod ymgeiswyr da yn dweud un neu ddwy frawddeg yn unig, tra bo eraill yn dweud bod angen dweud rhagor.

Ceir chwech o feini prawf:
Cywirdeb: Fel byddai rhywun yn disgwyl, cafwyd ystod eang.  Roedd y gweiniaid yn cael trafferth gydag amserau'r ferf yn gyson. Dyma rai o'r gwallau amlycaf eraill, heb fod mewn unrhyw drefn:
Defnyddio'r gorffennol cryno ar ôl defnyddio'r amherffaith gyda'r pwnc 'Pan o'n i'n blentyn...'
Methu â chreu brawddeg pwysleisiol cywir, yn enwedig wrth ddefnyddio 'hoff', e.e. 'Mae fy hoff XX yw/ydy/yn X';
Camddefnyddio'r cymal enwol – 'Dw i'n meddwl bod mae...';
Camddefnyddio 'gwaith' – 'Dw i'n gwaith...' ;
Hepgor 'mae' ar ddechrau brawddegau;
Cymysgu 'eto' a 'hefyd';
Hepgor yr arddodiad 'ar' ar ôl edrych a gwrando;
Methu â chreu brawddegau trydydd person negyddol – mae e/o/hi ddim.
Yn y maen prawf hwn mae'r gweiniaid yn sgorio isaf.

Ystod patrymau a geirfa: Wrth i ymgeiswyr siarad yn lled naturiol, nid yw pob un yn llwyddo i ddangos ystod o batrymau a geirfa.  Wedi dweud hynny, mae'r rhan fwyaf yn dangos eu bod yn gallu defnyddio holl brif batrymau'r Gymraeg.

Ynganu: Er bod safon yr ynganu'n amrywio'n fawr, ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn annealladwy. Rhai o'r geiriau a achosodd broblem oedd:
technoleg (tecnoleg) – Roedd hyn yn gyffredin iawn;
cyfrifiadur – problem gyda'r sillaf olaf;
môr – ddim yn ynganu'r 'r';
trio (traeo);
llysieuwr.

Rhuglder: Er bod y gweiniaid yn herciog iawn, gwych oedd gweld pawb yn llwyddo i gyfathrebu a dangos faint o Gymraeg sy gyda nhw.
Rhyngweithio: Roedd yr adran hon yn dda, gyda'r ymgeiswyr yn deall y cwestiynau ac yn ymateb yn briodol – rhai gydag ambell i air a rhai yn ymestynnol.
Argraff: Roedd hwn yn gyfle i wobrwyo ymgeiswyr oedd yn mentro, yn defnyddio geirfa dda neu'n siarad yn arbennig o rugl. Ar y llaw arall, tynnwyd marciau gan yr ymgeiswyr oedd yn dweud ond un neu ddwy frawddeg fer, er bod y brawddegau hynny weithiau'n dda iawn.

**Rhan 3 – Gofyn Cwestiynau**

Rhaid i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r cyfwelydd ar un o'r pum pwnc ar y cerdyn yn Rhan 2. Unwaith eto eleni, ces i fy siomi o'r ochr orau yn yr adran hon, gyda'r dysgwyr yn gwneud eu gorau glas i ofyn sgil-gwestiynau deallus yn sgil gwrando ar yr ateb blaenorol.  Mae sgoriau

uchel ar gyfer y maen prawf hwn. Braf iawn hefyd gweld ymatebion naturiol gan yr ymgeiswyr fel ‘Mae X yn dda’, ‘Bydd hi’n dwym dydd Sul’, neu ‘Bendigedig’.
Wrth reswm, mae rhai yn gofyn cwestiynau nad ydynt yn gydlynus ac eraill yn gofyn un cwestiwn am bob un o’r pum pwnc ar y cerdyn.
Yr unig bwnc a achosodd broblemau mawr o ran cywirdeb oedd ‘pan o’n i’n blentyn’ wrth i’r ymgeiswyr fethu â ffurfio cwestiynau cywir.

**Cyfwelwyr**

Gwnaeth y cyfwelwyr eu gwaith yn rhagorol. Roedd rhai’n cymysgu ffurfiau ‘ti’ a ‘chi’ o fewn yr un cyfweliad. Rhaid atgoffa’r cyfwelwyr hefyd mai dim ond un cwestiwn y dylid ei ofyn am bob pwnc yn Rhan 2. Parodd un cyfweliad ddeunaw munud oherwydd bod y cyfwelydd yn holi cymaint o gwestiynau.

**Canolfannau**

Diolch yn fawr iawn i bob canolfan arholi am wneud llawer o waith paratoi – nid yn unig ar lefel Sylfaen, ond ar bob lefel. Roedd ansawdd y recordiadau’n wych ac yn hawdd eu cyrchu.

**Argymhellion**

Dylai tiwtoriaid ddweud wrth ymgeiswyr am geisio dangos eu bod yn gallu defnyddio amserau gwahanol yn y ferf a phatrymau gwahanol yn rhan 2.
Mae angen trafod beth ddylai cyfwelwyr ei wneud pan fydd ymgeiswyr yn dweud un neu ddwy frawddeg fer yn unig yn Rhan 2.
Dylid ystyried y gwallau a’r problemau ynganu a nodir yn yr adroddiad hwn wrth fireinio’r llyfr cwrs Sylfaen.

Dyma gymhedrau’r prawf Siarad dros y blynyddoedd diweddar. Mae’n dangos cynnydd bach ond arwyddocaol, a hynny’n adlewyrchu sylwadau’r prif arholwr, h.y. fod ymgeiswyr eleni’n gyffredinol ychydig yn uwch eu cyrhaeddiad nag yn y gorffennol. Rhaid cofio hefyd bod fformat y profion i gyd yn wahanol yn 2018-2019.

2018 = 148.1
2019 = 151.3
2022 = 153.0

**Gwrando**

Dyma’r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:

Ni fydd ymgeiswyr yn colli marciau am gamsillafu neu wallau eraill. Cynnwys yr atebion fydd yn cael ei farcio.

**Rhan 1 – Negeseuon ffôn** [24]
[2 farc yr un]

**Neges 1**
Oddi wrth: **Bethan Roberts** i **Jeremy Jones** [1 marc yr un, yn y drefn iawn]
Mae’r gwesty eisiau gwybod:
Faint o’r gloch **bydd pawb yn cyrraedd.** [2]
Oes unrhyw un yn y grŵp sy ddim yn bwyta **cig.** [2]
Mae hi’n gofyn iddo gysylltu drwy **ebost.** [2]

**Neges 2**
Oddi wrth: **Garej Jones&Jones** i: **John Edwards** [1 marc yr un, yn y drefn iawn]

Mae'r garej wedi dweud bod problemau gyda'r car:
Mae angen teiars newydd, ac mae'r golau cefn **wedi torri**. [2]
Bydd y gwaith yn costio **mwy na £200** [2]
Os ydy e'n hapus, bydd y car yn barod erbyn **heddiw.** [2]

**Neges 3**
Oddi wrth: **Mari** i: **Dafydd** [1 marc yr un, yn y drefn iawn]
Mae cwis tafarn yn y Llew Du nos Sadwrn, ac mae angen **4/pedwar** o bobl mewn tîm. [2]
Mae ei frawd yn gwybod llawer **am chwaraeon.** [2]
Bydd yr arian o'r cwis yn mynd **i'r catre henoed.** [2]

**Rhan 2 – Eitem** [24]
[4 marc yr un]

2.1 ch
2.2 c
2.3 c
2.4 b
2.5 a
2.6 a

**Rhan 3 – Sgyrsiau** [32]
[4 marc yr un]

**Sgwrs 1**

| 3.1 | **Mae'r dyn yn gadael yn siop heb brynu dim byd, achos...** | Ticiwch un |
|---|---|---|
| a. | dyw'r eitem ddim gyda nhw. | |
| b. | does dim arian gyda fe. | |
| c. | rhaid iddo fynd adre ar frys. | |
| ch. | mae e eisiau gofyn i'w wraig. | ✓ |

3.2 Pa un fasai'r druta, tasai fe'n prynu un?
**Y matiau/rhai brown**

**Sgwrs 2**

| 3.3 | **Mae ei rieni eisiau i Derec...** | Ticiwch un |
|---|---|---|
| a. | gael trwmped newydd. | |
| b. | chwarae'n fwy tawel. | |
| c. | ddysgu sut i chwarae gitâr. | ✓ |
| ch. | fynd i chwarae pêl-droed. | |

3.4 Pa lefel arholiad bydd Derec yn ei wneud nesa?
**Lefel 2**

**Sgwrs 3**

| 3.5 | **Mae'r ferch yn cytuno i helpu heno...** | Ticiwch un |
|---|---|---|
| a. | os bydd e'n prynu bwyd iddi. | |
| b. | os bydd rhywun arall yn gofalu am y plant. | ✓ |
| c. | os fydd hi ddim yn brysur. | |

| | | |
|---|---|---|
| ch. | os nad oes neb arall ar gael i helpu. | |

3.6 Pam mae'r dyn ar frys?
**Mae'r sioe'n dechrau nos yfory.**

**Sgwrs 4**

| 3.7 | **Maen nhw'n penderfynu cael cinio Nadolig yn...** | Ticiwch un |
|---|---|---|
| a. | Y Felin | ✓ |
| b. | Y Llew Gwyn | |
| c. | Y Ceffyl Du | |
| ch. | Giovanni's | |

3.8 Pam mae'r ferch eisiau trefnu **nawr**?
**Achos bydd pob man yn llawn os na fyddan nhw'n bwcio/trefnu nawr.**

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Cyffredinol**

Wrth baratoi ymgeiswyr, dylai tiwtoriaid atgoffa ymgeiswyr o'r canlynol:
Os yw ymgeiswyr yn newid eu meddwl/eu cywiro eu hunain – dylent roi llinell drwy'r hen ateb a nodi'r ateb newydd yn glir – yn hytrach nag ysgrifennu DROS yr ateb gwreiddiol, er mwyn deall eu bwriad yn glir.

**Rhan 1 – Negeseuon Ffôn**

Neges 1
Derbyniwyd cig a physgod a cig.

Neges 2
Derbyniwyd pob ateb oedd yn cynnwys 2 o 3 elfen Garej Jones a Jones.
Roedd angen mwy na dau gan punt.
Derbyniwyd heddiw a diwedd y dydd/diwrnod a heno.

Neges 3
Derbyniwyd amryw sillafiadau Mari/Marie/Mary.
Ni dderbyniwyd dau arall – roedd angen crybwyll 4/pedwar.
Derbyniwyd pob ateb oedd yn cynnwys henoed/hen bobl (gyda neu heb cartref).

**Rhan 2 – Eitem**

Dim ystyriaethau marcio penodol i'w hadrodd.

**Rhan 3 – Sgyrsiau**
Sgwrs 1
Dim ystyriaethau marcio penodol i'w hadrodd.
Sgwrs 2
Derbyniwyd y 'lefel nesa'.
Sgwrs 3
Dim ond yr atebion a grybwyllodd yfory gafodd eu derbyn.

Sgwrs 4
Derbyniwyd pob amrywiad oedd yn cynnwys y syniad o fod yn llawn/lleoedd ar ôl/pob lle wedi mynd.

Roedd y ffactorau hygyrchedd ar gyfer y tasgau i gyd yn uchel. Yn Rhan 1, dim ond eitem 1.7 – mwy na £200 – oedd ychydig yn heriol (ffactor hygyrchedd 0.48). Roedd cymedr Rhan 2 yn uchel iawn. Yn Rhan 3, dim ond eitemau 3.6 a 3.8 oedd ychydig yn heriol, a thua hanner yr ymgeiswyr heb eu cael yn gywir. Dyma'r cymedr eleni, o'i gymharu â'r gorffennol:

2018 = 68.3
2019 = 67.2
2022 = 66.6

**Darllen**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:

**Rhan 1 – Erthygl** [20]
[4 marc yr un]

| | |
|---|---|
| 1.1 | ch |
| 1.2 | c |
| 1.3 | ch |
| 1.4 | c |
| 1.5 | a |

**Rhan 2 – Adnabod ergyd neges** [16]
[4 marc yr un]

| | **Pwnc** | **Rhif neges** |
|---|---|---|
| a. | Ar wyliau | 3 |
| b. | Newid dyddiad | 1 |
| c. | Swyddfa ar gau | 4 |
| ch. | Damwain | |
| d. | Angen help | 2 |
| dd. | Trefnu cyfarfod | |

**Rhan 3 – Llenwi Bylchau** [24]
[2 farc yr un]

1. Dw i wedi colli fy **nhrowsus** (trowsus) newydd.
2. Ydy'r plant yn dod i'r parti heno? **Ydyn** (✓)
3. **Doedd** Gwen ddim yn y swyddfa ddoe, roedd hi'n brysur.
4. Rhys yw/ydy'r bachgen **tala** (tal) yn y dosbarth.
5. Cyn cael pwdin, **bwytwch** (bwyta) eich swper i gyd!
6. Mae Aberaeron yn **llai** (bach) na Chaerdydd.
7. Dylech chi fynd **at** y meddyg.
8. **Wnaethon** (gwneud) ni ddim byd neithiwr.
9. Basai hi'n mynd i Batagonia, **tasai/petai/pe bai** hi'n gallu/medru.
10. Mae Siôn yn **dair** (3) oed.
11. Doctor yw/ydy Tomos? **Ie/Ia** (✓)
12. Mae llawer o **athrawon** (athro) yn yr ysgol newydd.

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Rhan 1 – Erthygl**

Dim ystyriaethau penodol i'w hadrodd.

Dylai tiwtoriaid annog ymgeiswyr i ddileu'r hen ateb yn glir a nodi'r un newydd yn glir os ydyn nhw'n newid eu meddwl/eu cywiro eu hunain – hynny yw, nid troi a yn b ac ati (er mwyn deall eu bwriad yn glir).

**Rhan 2 – Adnabod ergyd neges**

Dim ystyriaethau penodol i'w hadrodd – dim ond nodi ei bod yn ymddangos bod dealltwriaeth eang o'r dasg newydd hon. Dylai tiwtoriaid annog ymgeiswyr i roi eu hatebion yn y grid yn hytrach nag yng nghorff y testun (er mwyn ei gwneud yn haws marcio!)

**Rhan 3 – Llenwi Bylchau**

Dylai tiwtoriaid annog ymgeiswyr i wneud eu cywiriadau yn glir.

1. Roedd angen y treiglad nhrowsus.
2. Dim ystyriaethau penodol i'w hadrodd.
3. Derbyniwyd Fuodd a Doedd.
4. Derbyniwyd talaf a mwyaf tal a tala a mwya tal.
5. Derbyniwyd bwytwch a bwytewch.
6. Dim ystyriaethau penodol i'w hadrodd.
7. Derbyniwyd at ac i weld.
8. Dim ystyriaethau penodol i'w hadrodd.
9. Derbyniwyd tasai a 'sai.
10. Derbyniwyd dair a dair blwydd.
11. Dim ystyriaethau penodol i'w hadrodd.
12. Dim ond yr atebion a sillafodd athrawon yn gwbl gywir a dderbyniwyd.

Roedd y ffactorau hygyrchedd ar gyfer Rhannau 1 a 2 yn uchel iawn. Yn Rhan 3, eitem 3.10 oedd fwyaf heriol o ddigon ('yn dair oed') a ffactor hygyrchedd 0.17. Roedd y cymedr ychydig yn is nag yn 2018-2019, ond y marciau'n uchel iawn serch hynny.

2018 = 49.3
2019 = 51.2
2022 = 48.2

**Ysgrifennu**

Dyma'r sbardunau:

**Rhan 1 – Ysgrifennu neges**

Naill ai:
i. Dych chi'n mynd i symud tŷ. Ysgrifennwch nodyn at ffrind yn gofyn am help.
neu:
ii. Dych chi eisiau mynd ar gwrs yn y gwaith. Ysgrifennwch nodyn at eich pennaeth yn esbonio pam.

**Rhan 2 – Ateb ebost**

At:
Oddi wrth: Joanna
Pwnc: Nos Wener Diwetha

---

Sut wyt ti!
Sori... do'n i ddim yn gallu/medru mynd i'r dathlu nos Wener diwetha.

Roedd hi’n noson dda, dw i’n siŵr!
- Pwy oedd yno i gyd?
- Beth oedd y peth gorau am y noson?
- Beth wnaeth pawb ar ddiwedd y noson?
Dw i’n edrych ymlaen at glywed yr hanes.
Joanna

Dyma adroddiad y marciwr:

**Tueddiadau yn yr Ymatebion**

Mae’r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn ysgrifennu mwy nag sydd ei angen ac mae nifer sylweddol yn ysgrifennu llawer mwy nag sydd ei angen. Wrth ysgrifennu ymatebion hir mae llawer mwy o gyfleoedd i wneud camgymeriadau. Mae nifer o ymgeiswyr yn trio cyfieithu o Saesneg beth maen nhw eisiau dweud yn hytrach na defnyddio’r patrymau sydd gyda nhw. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gamgymeriadau.
Y broblem fwyaf cyffredin yn Rhan 2 oedd wrth ateb y cwestiwn: Beth oedd y peth gorau am y noson?
Roedd hefyd tipyn o gymysgu rhwng yr amser gorffennol, yr amser perffaith a’r amser amherffaith.

**Sut roedd y sbardunau wedi gweithio**

Roedd y tasgau yn deg iawn, yn hawdd i’w deall ac yn hygyrch i bawb.
Collodd nifer o ymgeiswyr farciau yn Rhan 2 trwy beidio ag ateb y cwestiynau penodol.

**Gwallau cyffredin**

Dw i’n angen
Gei di helpu? (Can you help?)
Cymysgu gwybod / nabod
help / helpu
arall / eraill
fi / fy
gofyn / ateb
Ffrindiau hen
Dw i wedi newydd prynu tŷ
Rwyt ti’n cael car mawr
Ar y diwedd y noson / Erbyn y diwedd y noson
Roedd y peth gorau y carioci
Aethon ni mynd

**Argymhellion**

Mae angen mwy o hyfforddiant ar ymgeiswyr ar sut i ddelio gyda Rhan 2, yn enwedig yr angen i ateb cwestiynau penodol. Tybed ydy hi’n bryd cynnig yr opsiwn o ysgrifennu atebion ar gyfrifiadur? Mae llawysgrifen nifer o’r ymgeiswyr yn flêr iawn ac yn anodd iawn ei darllen.

Roedd y cymedr eleni ychydig yn uwch nag yn y gorffennol. Gan fod llai o bwyslais ar gywirdeb yn y fformat newydd a marciau creiddiol am gyflawni gofynion y tasgau, mae hyn i’w ddisgwyl. Dyma gymhedrau eleni, o’u cymharu â’r gorffennol:

2018 = 41.6
2019 = 43.2
2022 = 48.8

Penderfynwyd codi'r ffin o un marc i 237 allan o 400 i gyrraedd y trothwy llwyddo.  Does dim ffin Rhagoriaeth yn y fformat newydd.

### Ystadegau

| | 2017 | 2018 | 2019 | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr Ymgeiswyr** | **279** | **372** | **375** | **284** |
| Gwrando (80) | 67.1 | 68.3 | 67.2 | 66.6 |
| Llafar (200) | 142.6 | 147.9 | 151.3 | 152.6 |
| Darllen a Llenwi Bylchau (60) | 49.5 | 49.3 | 51.2 | 48.2 |
| Ysgrifennu (60) | 42.7 | 41.6 | 43.2 | 48.8 |
| Cyfanswm (400) | 301.4 | 307.3 | 313.2 | 316.9 |

| | 2017 | | 2018 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer a chanran wedi cael Rhagoriaeth | 117 | 42% | 174 | 47% | 196 | 52% |
| Nifer a chanran wedi cael Llwyddo | 131 | 47% | 171 | 46% | 156 | 42% |
| Nifer a chanran wedi methu | 31 | 11% | 27 | 7% | 23 | 6% |

| **2022 Sylfaen<br>Cyfanswm ymgeiswyr: 284** | | |
|---|---|---|
| **Gradd** | **Nifer** | **Canran** |
| Llwyddo | 270 | 95.1% |
| Methu | 14 | 4.9% |

### Enghreifftiau o'r Prawf Ysgrifennu

Ceir enghreifftiau o ddwy ran y prawf Ysgrifennu ar y tudalennau nesaf.

**Rhan 1 – Ysgrifennu neges**

Naill ai:
i. Dych chi'n mynd i symud tŷ. Ysgrifennwch nodyn at ffrind yn gofyn am help.
neu:
ii. Dych chi eisiau mynd ar gwrs yn y gwaith. Ysgrifennwch nodyn at eich pennaeth yn esbonio pam.

Mae'r enghraifft gyntaf yn llwyddo i gyfathrebu neges, er bod llawer o wallau ynddi. Cafodd 6 am gywirdeb, 7 am ystod iaith; fodd bynnag, gan fod yr ymgeisydd wedi cyflawni'r dasg a throsglwyddo'r neges, cafodd 8 marc.

Annwyl Ceri,
Byddai mynd i symud tŷ prynhawn dydd sadwrn am dwy o'r gloch. Wyt ti'n helpu fy? Mae'r tŷ newydd yn Abertawe ond pedwar ystafell yw'r hi. Dw i'n llawer o paned a'r cacen fawr â di! Ffonio fy heno
Hwyl!

Mae'r adnoddau iaith ardderchog gan yr ymgeisydd nesaf. Mae ambell wall, e.e. hepgor 'yn' traethiadol, ond manion yw'r rheiny. Cafodd yr ymgeisydd 9 am gywirdeb, 10 am ystod ac 8 am gyflawni gofynion y dasg, felly 27 allan o 28.

Helo Gethin,
Sut wyt ti? Wel, ar y diwedd mi fydda i symud tŷ wythnos nesa. Dw i'n mor cyffrous! Wyt ti'n rhydd dydd Mercher 17 Mehefin o gwbl? Faset ti'n medru fy helpu?
Does na ddim llawer o bethau i symud ond faset ti'n dwâd â dy fan di?
Mi fydda i mor ddiolchgar Geth!
Paid â phoeni os ti'n brysur, wna i ofyn fy mrawd i
Diolch o galon

**Rhan 2 – Ateb e-bost**

Dych chi wedi derbyn y neges ebost yma. Atebwch y neges, gan ymateb i'r cwestiynau i gyd. Ysgrifennwch rhwng 70 ac 80 o eiriau.

At:
Oddi wrth: Joanna
Pwnc: Nos Wener Diwetha


---

Sut wyt ti!
Sori... do'n i ddim yn gallu/medru mynd i'r dathlu nos Wener diwetha. Roedd hi'n noson dda, dw i'n siŵr!
- Pwy oedd yno i gyd?
- Beth oedd y peth gorau am y noson?
- Beth wnaeth pawb ar ddiwedd y noson?
Dw i'n edrych ymlaen at glywed yr hanes.
Joanna

Mae'r ymgeisydd cyntaf wedi cyflawni'r gofynion i gyd (y tri chwestiwn o fewn y neges) yn ddidrafferth ac yn defnyddio'r gorffennol yn briodol.  Mae meistroli'r gorffennol yn hanfodol i gyflawni'r rhan hon.  Cafodd farciau llawn am y rhan hon, sef 32 allan o 32.

Haia Jo!
Dw i'n grêt diolch! Paid a phoeni o gwbl!
Wel, oedd Alaw, Dylan, Cêt, Catrin, Osian a Rhodri yno am barti penblwydd.
Yn affodus wnaethon ni yfed gormod wrth cwrs! Gaeth pawb ben-mawr bore sadwrn!
Y Peth gorau oedd y bwyd, llawer o gyri efo 'naan' a 'dips' ac ati! Blasus iawn!
Wnaeth y parti orffen tua un o gloch yn y bore ond dw i ddim yn cofio reit dda!
Wnaeth pawb aros efo ni a chysgu ar y llawr! Roedd na lawer o hwyl ar ddiwedd y noson!
Gobeithio ti'n teimlo yn well rŵan?
Mi wela i ti yn fuan!

Mae'r ymgeisydd nesaf hefyd wedi ateb dau sbardun, ond heb gyfeirio at 'y peth gorau am y noson'. Cafodd 6 am gywirdeb a 7 am ystod iaith – mae'n defnyddio'r gorffennol a'r amherffaith er nad ydyn nhw dan reolaeth bob tro. Y cyfanswm am y rhan hon oedd 21 allan o 32.


Annwyl Joanna,

Sori, do'n ti ddim yn gallu mynd i'r dathlu

nos Wener. Aethon ni noson dda.

Pawb fy teulu a fy ffrindiau mynd ma's.

Roedd a i'n chwerthin iawn ond

Roedd i'n ddim hoffi'r Karoci. Lucus iawn,

aethon ni mynd i'r bwyty pizza

eto. Dw i'n caru pizza. Am hanner nos,

aethon ni i'r club nos yn ynghanol Abertawe,

yn Wind Street. Es i rhaid i fynd a fy gatre mewn tacsi

Dydd Sadwrn roedd, i'n wedi blino!

Hwyl!

**Adborth Ymgeiswyr Sylfaen 2022**

Atebwyd yr holiadur Sylfaen gan 190 o ymgeiswyr.

Fel pob lefel arall, roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn nodi 'mesur fy nghynnydd' a 'gosod nod i fi fy hun' fel cymhellion dros sefyll yr arholiad. Roedd 'pleser' un drydydd yn y rhestr o resymau a roddwyd.

O ran y prawf Siarad, cafwyd sylwadau amrywiol. Roedd y llawer o ganmoliaeth i'r cyfwelwyr am eu hagwedd gefnogol a chyfeillgar. Nododd un ymgeisydd fod 28 pwnc yn ormod i'w dysgu… sy'n awgrymu bod yr ymgeisydd wedi gobeithio dysgu'r rhain ar y cof. Byddai hynny'n groes i fwriad y prawf Siarad.

Roedd un neu ddau wedi nodi bod fformat y profion yn 'wahanol' i rai cynbapurau. Roedd llyfryn yr ymgeiswyr (yn ogystal â'r fanyleb a'r papur enghreifftiol) yn dangos y fformat newydd, ond roedd hi'n amlwg fod ambell ymgeisydd wedi bod yn ymarfer â hen gynbapurau.

Roedd y farn y rhanedig o ran cynnal y prawf ar-lein neu wyneb-yn-wyneb. Roedd mwyafrif o blaid y profiad o sefyll wyneb-yn-wyneb, ond nifer yn nodi na fyddent wedi gallu sefyll prawf o gwbl oni bai bod y dewis i sefyll y prawf Siarad ar-lein.

O ran y profion eraill, roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n gadarnhaol. Roedd ambell un yn cwyno bod sain y prawf Gwrando'n aneglur a'r prawf ei hun yn anodd neu'n amwys. Nid

oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol i gadarnhau hyn.  Ar wahân i hynny, roedd y rhan fwyaf yn nodi bod y papur yn debyg i'r hyn roedden nhw wedi'i ddisgwyl ac wedi paratoi ar ei gyfer.

Doedd dim tueddiadau amlwg yn y sylwadau ychwanegol.  Cafwyd llawer yn canmol eu tiwtor a'u canolfan unigol, ac ambell un yn fodlon iawn â'r profiad, e.e. 'I approached the exam seriously and revised for months so I was very satisfied that aprofessional and competent attitude by all concerned occurred on examination day. The whole process was better than expected and I don't mean easier.. but that the process was excellent.'

6. **Canolradd 2022**

Roedd niferoedd 2022 yn debyg i'r hyn a welwyd yn 2019 – y tro diwethaf i ganolfannau allu cynnig yr arholiad llawn. Mae'r nifer mewn cromfachau petryal yn dangos faint o ymgeiswyr oedd yn dysgu ar gyrsiau o fewn y ganolfan honno.

| Lleoliad | Canolfan | Nifer | Siarad |
|---|---|---|---|
| **00501** | **Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe [11]** | | |
| D00501.1 | Prifysgol Abertawe | 10 | 1 |
| **00502** | **Dysgu Cymraeg Caerdydd [45]** | | |
| D00502.01 | Prifysgol Caerdydd | 45 | 5 |
| **00503** | **Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr [28]** | | |
| D00503.06 | Llandrindod | 9 | 0 |
| D00503.08 | Prifysgol YDDS, Caerfyrddin | 10 | 0 |
| D00503.12 | Adeilad Elystan Morgan, Aberystwyth | 11 | 1 |
| **00504** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru [15]** | | |
| D00504.01 | Prifysgol Bangor | 14 | 2 |
| **00505** | **Dysgu Cymraeg Gwent [46]** | | |
| D00505.01 | Campws Pont-y-Pŵl | 30 | 6 |
| **00506** | **Dysgu Cymraeg Morgannwg [19]** | | |
| D00506.01 | Prifysgol De Cymru | 16 | 5 |
| **00507** | **Dysgu Cymraeg Sir Benfro [4]** | | |
| D00507.04 | Canolfan Bloomfield, Arberth | 3 | 1 |
| **00508** | **Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg [2]** | | |
| D00508.01 | Llyfrgell y Barri | 2 | 0 |
| **00509** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Cymru [13]** | | |
| D00509.01 | Coleg Cambria, Glannau Dyfrdwy | 4 | 0 |
| D00509.02 | Coleg Cambria, Wrecsam | 10 | 0 |
| | **Ymgeiswyr Preifat [2]** | | |
| | **Cyfanswm** | **164** | **21** |

Dyma'r niferoedd a safodd dros y tair blynedd diwethaf:

Cyfanswm Cofrestriad 2018 = 143
Cyfanswm Cofrestriad 2019 = 183
*Cyfanswm Cofrestriad 2021 = 165 [Siarad yn unig]*
Cyfanswm Cofrestriad 2022 = 164

Mae'r ymgeisiaeth, o ran proffil oedran, rhyw a'r rhanbarthau'n debyg iawn i'r hyn a welwyd yn 2019. Dyma broffil ymgeiswyr 2022, o'i gymharu â'r gorffennol:

| | **Proffil oedran (oedran ar Awst 31)** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dan 20** | **20-29** | **30-39** | **40-49** | **50-59** | **60-69** | **70-79** | **80 ac uwch** |
| Mehefin 2018 | 1.4 | 7.0 | 25.2 | 27.3 | 19.6 | 16.8 | 2.8 | 0.0 |
| Mehefin 2019 | 1.6 | 4.4 | 21.3 | 27.9 | 23.5 | 16.9 | 4.4 | 0.0 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Mehefin 2021* | *0.6* | *7.9* | *21.3* | *19.5* | *20.7* | *21.3* | *8.5* | *0.0* |
| Mehefin 2022 | 0.0 | 4.9 | 23.2 | 20.1 | 23.2 | 20.1 | 8.5 | 0.0 |

| | **Proffil Rhyw** | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwryw** | **Benyw** | **Arall** |
| Mehefin 2018 | 37.8 | 62.2 | |
| Mehefin 2019 | 37.2 | 61.2 | 1.6 |
| *Mehefin 2021* | *34.8* | *57.8* | *7.3* |
| Mehefin 2022 | 35.4 | 57.3 | 7.3 |

| | **Proffil Canolfannau Arholi** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **00501** | **00502** | **00503** | **00504** | **00505** | **00506** | **00507** | **00508** | **00509** | **00552** |
| Mehefin 17 | 10.0 | 18.7 | 14.0 | 22.7 | 12.0 | 15.3 | 6.0 | 0.0 | 1.3 | 0.0 |
| Mehefin 18 | 7.0 | 16.8 | 14.7 | 30.8 | 9.8 | 9.1 | 9.1 | 0.7 | 2.1 | 0.0 |
| Mehefin 19 | 7.1 | 15.9 | 14.8 | 26.8 | 14.2 | 10.4 | 3.3 | 1.6 | 4.9 | 1.1 |
| *Mehefin 21* | *5.5* | *15.9* | *15.9* | *16.5* | *18.9* | *12.2* | *6.7* | *1.8* | *6.7* | *0.0* |
| Mehefin 22 | 6.1 | 24.4 | 16.5 | 8.5 | 24.4 | 9.1 | 1.8 | 1.2 | 7.9 | 0.0 |

Dyma sylwadau'r prif arholwr:

**Siarad**

Cynigiwyd holl brofion y cymhwyster hwn eleni am y tro cyntaf ers 2019. Oherwydd y pandemig, ni fu modd cynnal arholiadau yn 2020 a'r prawf llafar yn unig a gynhaliwyd yn 2021. Golygai hynny bod nifer o ymgeiswyr a oedd wedi sefyll y prawf llafar y llynedd yn ymgeisio yn y profion ysgrifenedig yn unig eleni. Safodd 21 o ymgeiswyr y prawf Siarad yn unig, a bu i 164 gwblhau'r cymhwyster. Roedd y rhan fwyaf o'r profion Siarad wedi'u cynnal wyneb yn wyneb, a rhai ar-lein.

Bu tîm o 11 o arholwyr yn marcio'r cyfweliadau llafar a hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith trylwyr. Cyn dechrau'r gwaith, cafodd pob arholwr sampl bach o ymgeiswyr i'w marcio (pawb yn marcio'r un rhai) cyn dod ynghyd (yn rhithiol) gyda'r Prif Arholwr a'r Swyddog Arholiadau i gyfarfod safoni. Defnyddiwyd system o farcio dwbl, felly roedd prawf pob ymgeisydd yn cael ei farcio gan ddau arholwr a'r marc cyfartalog yn cael ei ddyfarnu. Ailfarciodd y Prif Arholwr y profion llafar canlynol:

i. pob ymgeisydd oedd yn methu'r prawf llafar;
ii. ymgeiswyr ffinio, h.y. y rhai oedd o fewn 4 marc i'r ffin rhwng Methu a Llwyddo yn y prawf llafar;
iii. lle roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y marciau a roddwyd gan y ddau arholwr gwahanol.

Roedd y marcwyr yn cyrchu recordiadau o'r profion trwy wefan ddiogel CBAC ac roedd y broses honno'n ddigon hwylus. Cofnodwyd y marciau ar ffeiliau electronig a'u cyflwyno wedyn trwy'r wefan ddiogel. Bron yn ddieithriad, roedd y recordiadau o ansawdd da, gan gynnwys y profion a gynhaliwyd o bell yn ogystal â'r rhai wyneb yn wyneb. Un gwahaniaeth amlwg oedd bod recordiad fideo o'r rhai a gynhaliwyd dros y we, ond mai dim ond y sain oedd wedi'i recordio yn y profion wyneb yn wyneb.

Hoffwn ddiolch i'r llu a ymgymerodd â rôl y cyfwelwyr a thalu teyrnged i'w gwaith trylwyr a phroffesiynol. Dyma rai o'r enghreifftiau o'r arferion gorau a welwyd yng ngwaith y cyfwelwyr:

- rhyngweithio'n naturiol a dangos diddordeb yn yr hyn sydd gan yr ymgeiswyr i'w ddweud drwy amneidio neu borthi yn gyson wrth iddynt siarad;
- dechrau'r dasg Trafod Pwnc drwy gadarnhau pa bwnc a ddewiswyd ac yna gofyn cwestiwn cychwynnol, megis Dych chi'n cytuno?;
- gofyn cwestiynau sy'n deillio o'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddweud, gan arwain y sgwrs yn naturiol o un peth i'r llall yn hytrach na mynd trwy restr parod o gwestiynau mewn modd digyswllt;

- sicrhau bod unrhyw gwestiynau a chyfraniadau at y sgwrs yn cael eu geirio mewn modd sy'n debygol o fod yn gyfarwydd i ddysgwyr sy'n astudio ar lefel Canolradd;
- rhoi digon o gyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i ddefnyddio amrywiaeth o gystrawennau ac amserau'r ferf, i ryngweithio'n effeithiol ac i gynnig ymatebion estynedig.

Dylai pob cyfwelydd sy'n ymgymryd â'r gwaith roi sylw i'r pwyntiau uchod wrth baratoi a'u cadw mewn cof drwy gydol y profion. Dyma'r tri dewis a gynigiwyd i ymgeiswyr eleni ar gyfer pynciau i'w trafod yn rhan gyntaf y prawf Siarad:

Pwnc 1: Mynd am dro gyda/efo ffrindiau ydy'r therapi gorau.
Pwnc 2: Mae'r ardal lle dw i'n byw wedi newid yn fawr yn y blynyddoedd diwetha.
Pwnc 3: Mae symud tŷ'n brofiad ofnadwy.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu datgan a oeddent yn cytuno ai peidio â'r datganiad a siarad am eu profiadau personol mewn perthynas â'r pwnc. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn gallu cyflwyno a phwyso a mesur dadleuon a gwrth-ddadleuon ac yn gallu ymateb yn ddeallus ac yn huawdl i gwestiynau, sylwadau neu wrth-ddadleuon gan y cyfwelydd. Ar y llaw arall, roedd cyfraniadau'r ymgeiswyr gwannaf yn tueddu i fod yn gyfyngedig i gyfleu enghreifftiau o brofiad personol mewn perthynas â'r pwnc ac roeddent yn dibynnu ar ystod lawer mwy cyfyng o gystrawennau a geirfa. Roedd rhai fel petaent wedi ysgrifennu sgript yn y cyfnod paratoi ac yn cyflwyno honno'n un llith yn hytrach na chyfeirio at nodiadau cryno yn unig wrth drafod y pwnc. Wrth baratoi ar gyfer yr arholiad, dylai'r ymgeiswyr a'u tiwtoriaid gofio mai asesu eu gallu i **drafod** pwnc yw nod y rhan hon yn hytrach na'u gallu i ddarllen cyflwyniad, neu hyd yn oed ei adrodd o'r cof. Pan fydd ymgeiswyr yn mynd ati i gyflwyno llith wedi'i baratoi, dylai'r cyfwelwyr dorri ar eu traws a holi cwestiynau er mwyn eu tynnu'n ôl tuag at drafodaeth ar y pwnc.

Ar y cyfan, roedd perfformiad ymgeiswyr yn tueddu i fod ychydig yn gryfach yn Rhan 2 (y sgwrs gyffredinol) wrth iddynt drafod materion cyfarwydd yn eu bywydau. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn llwyddo i siarad yn fyrlymus ac yn hyderus, defnyddio amrywiaeth priodol o eirfa, cystrawennau ac amserau'r ferf, a hynny heb lawer o wallau, 'cymryd eu tro' yn ddidrafferth o fewn sgwrs, gan ymateb i gwestiynau a sylwadau'r cyfwelydd a chynnig nifer o ymatebion estynedig, ac ynganu'n gywir. Yn ôl yr arfer, roedd rhai ymgeiswyr yn tueddu i gloffi wrth orboeni am gywirdeb, ac roedd hynny'n effeithio ar lif y sgwrs a'r argraff a geir o rugldeb. Ar y llaw arall, roedd rhai yn sgwrsio'n rhwydd ac yn fyrlymus, ond yn gwneud nifer o wallau cystrawennol neu eirfaol sylfaenol wrth wneud hynny. Y ddelfrydol, dylid gochel rhag gwendidau eithafol o'r ddau fath. Mae elfennau yn y system marcio sy'n gwobrwyo cywirdeb ac ystod iaith yn ogystal ag elfennau sy'n gwobrwyo rhugldeb a rhwyddineb y cyfathrebu a'r rhyngweithio.

Dyma nodi eto rhai o'r gwallau mwyaf cyffredin gan obeithio y bydd hynny o help i ddysgwyr ar y lefel hon a'u tiwtoriaid:

- Methu defnyddio'r ferf gywir, yn y man priodol mewn brawddegau wrth siarad am berthnasau – fy nhad, fy ngwraig, fy mhlant ac ati. Unwaith eto, gwelwyd y ferf yn cael ei hepgor, ei chamleoli, neu ei chamddefnyddio, e.e. 'Fy ngŵr, cafodd ei eni...'; 'fy chwaer, mae hi'n...', 'fy mab ydy un deg tri oed', 'pan Catrin oedd tair oed...'.
- Camddefnyddio amserau'r ferf –
    - gorddefnyddio'r amser presennol;
    - cymysgu amserau'r gorffennol (yr amherffaith, 'wedi' a'r gorffennol syml).
- Camddeall cwestiynau 'Pam...?' – roedd nifer yn amlwg yn meddwl mai 'Pan' a glywyd ac yn meddwl mai gofyn pryd digwyddodd rhywbeth roedd y cyfwelydd..
- Camgyfieithu'r ymadrodd Saesneg 'there is', e.e. 'Mae e'n blodau ar bwys y ffordd'.

Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi cyrraedd safon uchel a hoffwn eu llongyfarch ar eu hymdrechion a'u llwyddiant yn dysgu'r iaith.

Roedd yr ystadegau'n dangos bod cymedr y prawf Siarad ychydig yn uwch nag yn 2018-9.

2018 = 121.1
2019 = 120.2
*2021 = 125.7*
2022 = 125.5

Roedd y gwyriad safonol yn 14.7 eleni, ychydig yn is nag yn 2019 (16.5).

**Tasg sgwrsio**

Dyma sylwadau'r marciwr:

Drwyddi draw, roedd y safon yn eitha da a boddhaol.

• Mae angen parhau i sicrhau bod yr unigolyn sy'n cael ei holi yn gallu siarad yn rhugl ac yn barod i gyfathrebu ac ymateb.
• Cyflwynwyd ambell fideo o'r sgwrs ac roedd hi hi'n braf cael gweld wynebau'r dysgwyr a'r siaradwyr rhugl. Ond wrth gwrs rhaid gwylio nad ydy'r dysgwyr yn darllen eu cwestiynau (fel y digwyddodd gydag un neu ddau). Rhaid annog dysgwyr i beidio â pharatoi eu cwestiynau ar bapur a'u dilyn oherwydd ni fyddan nhw'n elwa o hynny. Wrth lynu wrth set benodol o gwestiynau dydy'r sgwrs ddim yn llifo na'r ymateb yn briodol a hynny'n arwain at ddiffyg naturioldeb a dilyniant yn y sgwrs.
• Rhaid sicrhau bod y sgwrs yn para am yr hyd priodol, roedd rhai'n rhy hir o lawer.
• Rhaid hefyd sicrhau bod ansawdd y sain yn foddhaol. Mewn ambell achos, roedd y sŵn cefndirol yn boddi'r sgwrs, eraill heb godi'r meic ac roedd rhaid clustfeinio'n astud i glywed y sgwrsio.

**Cryfderau:**
Cyflwyniadau graenus ac yn ymateb yn briodol a naturiol.
Holi deallus a chywir, Sgyrsiau naturiol a dilyniant hollol addas.
Yr ymgeisydd yn dangos diddordeb yn yr hyn a ddywedir ac yn ymateb a rhyngweitho'n briodol.

**Gwendidau :**

**Rhyngweithio**
Mae'n bwysig i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain yn glir a chyflwyno'r siaradwr.

**Holi**
Petruster ar ran y dysgwr i lywio'r sgwrs. Er enghraifft, dysgwr yn cychwyn y sgwrs drwy osod y sefyllfa a'r siaradwr rhugl wedyn yn holi'r cwestiynau.

**Cywirdeb**
Ffurf ac amser y ferf, e.e 'Wyt ti eisiau wedi bod yn athro?' 'Ble est ti'n mynd ar wyliau?' 'Ble fyddi di fynd? 'Beth wnest ti'n wneud?' Beth wyt ti'n neud ar ôl hynny?' 'Hoffet ti'n gael mynd?';
Cymysgu'r amser perffaith a'r amherffaith
Ffurf negyddol y ferf, e.e. 'mae e ddim';
Cymysgu enw a berf, e.e. 'taith' yn lle 'teithio'; 'gwaith' yn lle 'gweithio';
Cymysgu 'ti a 'chi' yn yr un frawddeg, e.e 'Gai ofyn i chi beth yw dy ddiddordebau di?';
Y frawddeg bwyslais, e.e. 'Dw i'n John';
Y cymal enwol, e.e. 'bod mae' 'meddwl bod mae hi'n neis' 'bod mae hi'n anodd', 'wyt ti'n meddwl bod siaradwr rhugl wyt ti?';
Ffurf y cwestiwn yn wallus e.e. 'Beth meddwl am y tywydd heddiw?';

Arddodiaid – arddodiad cywir ar ôl berf, e.e. ‘siarad atoch  chi’; rhedeg yr arddodiad, e.e. ‘beth am chi?’;
Y defnydd o ‘erioed’, e.e. Wyt ti erioed cerdded yn y mynyddoedd’;
Cymysgu ‘pryd a pan’;
Rhoi enw lluosog ar ôl rhifolyn, e.e. mae dau plant ’da fi;
Idiomau, e.e. Wyt ti’n well ’da ti?

Wedi eithrio dau ymgeisydd oedd heb gyflwyno tasg sgwrsio, roedd y cymedr yn debyg iawn i’r gorffennol:

2018 = 43.2
2019 = 43.8
2022 = 43.2

**Gwrando**

Dyma’r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:

Ni chosbir camsillafu/gwallau eraill yn y prawf hwn.  Does dim angen brawddegau llawn.

1. **Deialog** [32]

1. Yn erbyn pwy bydd gêm nesaf Cymru? [4]
   Lloegr/Y Saeson
2. Pam dyw Siôn ddim wedi chwarae mewn rhai gemau’n ddiweddar? [4]
   Roedd e wedi cael ei anafu / Roedd e wedi torri ei drwyn.
3. Sut dych chi’n gwybod fod Côr Meibion Aberheli’n gôr da? [4]
   Enillon nhw yn yr Eisteddfod (Genedlaethol).
4. Pam dyw’r chwaraewyr ddim yn canu ar y bws ar y ffordd adre o bob gêm? [4]
   Dim ond os byddan nhw’n ennill maen nhw’n canu ar y bws. /
   Weithiau maen nhw’n colli.
5. Sut mae caneuon Catrin Matthews yn helpu Siôn? [4]
   Mae’n ei helpu i ymlacio cyn chwarae.
6. Pam priododd Siôn a Siân yn Barbados? [4]
   Do’n nhw ddim eisiau’r papurau newydd yn tynnu lluniau.
7. Beth yw gwaith Siân? [4]
   Actores yw hi.
8. Pam dyw Siân ddim yn hoffi gweld Siôn yn chwarae rygbi? [4]
   Mae hi’n poeni bydd e’n cael ei anafu.
   [Dim marc am ‘Mae hi’n poeni amdano/am Siôn’]

2. **Bwletin newyddion** [28]

1. Pam mae staff Troffco’n fodlon mynd yn ôl i’r gwaith? [4]
   Mae’r cwmni wedi cytuno na fydd angen i’r staff weithio ar ddydd Sul.
2. Pam dyw heddlu Colombia ddim yn gallu asesu’r sefyllfa’n iawn ar hyn o bryd? [4]
   Digwyddodd y ddamwain yn ystod y nos.
3. Pam dyw pobl ardal Aberwylan ddim yn gwbl hapus am y ffatri? [4]
   Maen nhw’n poeni na fydd pobl leol yn cael gwaith yno.
4. Beth oedd cysylltiad John Whitacre â Llanaber? [4]
   Roedd ei fam yn dod o Lanaber / wedi ei geni a’i magu yn Llanaber.
5. Pam dyw Cantorion yr Eos ddim yn gallu hedfan adre? [4]
   Mae’r maes awyr ym Mhatagonia dan ddŵr.
6. Faint o weithiau mae Cymru wedi ennill yn erbyn Sweden? [4]
   Dim unwaith.
7. Mae trefnwyr y sioe yn poeni y gallai rhywbeth ddigwydd yr wythnos nesa. [4]

Beth?
Maen nhw'n poeni y bydd anifeiliaid yn llosgi yn yr haul.

Dyma sylwadau'r marciwr:

Eto'n adran uchel ei safon drwyddi draw.
Dau ateb a gododd wên oedd atebion i gwestiwn 5 yn y bwletin newyddion lle nododd rhai bod yna 'hedfan dan ddŵr' ac ateb i gwestiwn 6 eu bod 'yn llosgi anifeiliaid yn yr haul'.

Yn gyffredinol, roedd yr ystadegau'n dangos bod cymedr y prawf hwn yn uwch nag yn y gorffennol: 50.5. Y gwyriad safonol oedd 10.0, (ychydig yn is na'r hyn a welwyd yn 2019, sef 12.9). Yr eitem fwyaf heriol yn Rhan 1 oedd 1.6 (ffactor hygyrchedd 0.62), ac yn Rhan 2, yr eitem fwyaf heriol oedd 2.1 (ffactor hygyrchedd 0.69). Doedd dim un eitem arbennig o anodd, a llawer o eitemau gyda dros 80% o atebion cywir.

Dyma'r cymhedrau dros dair blynedd:

2018 = 42.5
2019 = 44.4
2022 = 50.5

Roedd y cymedr yn sylweddol uwch nag yn 2019.

**Darllen**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:

1. **Erthygl** [20]

1. Oed y tai [4]
   Mae Hafod yn 150 oed, [derbyn 'yn hen iawn'] a Bryn Teg yn newydd.
2. Y tir sy'n dod gyda'r tai [4]
   Mae dwy ardd gyda Hafod (derbyn 'gardd fawr'),ond does dim gardd o gwbl gyda Bryn Teg.
3. Pa mor gyfleus yw'r lleoliad (location) [4]
   Mae Hafod yng nghanol y wlad, ond mae Bryn Teg yn y dre ac yn gyfleus i'r siopau a'r ysgol.
4. Y pris [4]
   Basai'r ddau'n costio tua'r un peth - £200,000
   (Dim rhaid manylu: mae Hafod yn costio £180,000 ond angen £20,000 i wneud gwaith ychwanegol).
   Derbyn: Mae un tŷ yn £180,000 a'r llall yn £200,000.
5. Unrhyw waith ychwanegol [4]
   Mae angen cegin ac ystafell ymolchi newydd yn Hafod, a fasai dim gwaith o gwbl i'w wneud ym Mryn Teg.

2. **Negeseuon E-bost** [20]

1. Prif neges Jaci Williams i'r Cynghorydd John Jones yw/ydy:
   d. cwyno bod dim digon i'r plant ei wneud yn ystod y gwyliau.
2. Pam dydy'r plant ddim yn gallu chwarae o flaen y tŷ?
   a. Mae gormod o draffig yno.
3. Dyw/Dydy hi ddim yn bosib agor y pwll padlo achos...
   ch. mae rhoi dŵr yn y pwll yn rhy ddrud.
4. Beth mae'r cynghorydd eisiau i Ms Williams ei wneud?
   d. Trefnu rhywbeth gyda ffrindiau i'w wneud gyda'r plant.
5. Mae Jaci Williams a'r Cynghorydd Jones yn cytuno...

b. bod gwyliau’r haf yn rhy hir.

3. **Llenwi bylchau** [20]

1. bedair
2. gwelon [derbyn ‘welon’]
3. mynyddoedd
4. wrthyn
5. ar
6. iddyn
7. Does/Doedd
8. hirach
9. o’r
10. ohonyn
11. i
12. clywodd
13. i
14. gaeth/cafodd/mi gafodd
15. mhob
16. na
17. mod
18. Ngogledd
19. modd
20. cofiwch

Ni chosbir camsillafu/gwallau eraill yn y prawf hwn (ac eithrio’r llenwi bylchau).
Does dim angen brawddegau llawn.

Dyma sylwadau’r marciwr:

Drwyddi draw roedd safon yr adran hon yn uchel iawn a nifer wedi ennill marciau llawn .

**Rhan 1 – Erthygl**

Neb yn cael wir drafferth – yn ateb gofynion y cwestiwn wrth gymharu a sôn am y ddau dŷ.

**Rhan 2 – Negeseuon e-bost**

Y cwestiwn a barodd drafferth oedd cwestiwn 3 a nifer helaeth yn ateb ‘B’ yn hytrach nag ‘Ch’.

**Rhan 3 – Llenwi Bylchau**

Y bylchau a barodd fwyaf o anhawster:
bedair oed – y treiglad a chenedl ‘oed’ – ‘pedwar oed’;
yr arddodiad ar ôl ‘dweud’;
sillafu ‘ohonyn’- dwy ‘n’ yn aml;
clywodd – person a bôn y ferf e.e clywais, clywedodd;
ym mhob ac yng Ngogledd – y treigladau;

Roedd y data fesul eitem yn cadarnhau’r sylwadau. Parodd eitem 2.3 ychydig o drafferth (ffactor hygyrchedd 0.79), ond roedd y gweddill yn uchel iawn. Yn y Llenwi Bylchau, dim ond yr eitem gyntaf brofodd ychydig yn anodd (ffactor hygyrchedd 0.53), felly doedd dim un eitem a gafwyd yn anghywir gan fwy na 50% o’r ymgeiswyr.

Dyma gymhedrau’r prawf Darllen yn y gorffennol:

2018 = 52.4
2019 = 51.9
2022 = 52.9

Mae'r cymedr ychydig yn uwch nag yn y gorffennol, ond yn agos iawn i'r patrwm a welwyd.

**Ysgrifennu**

Dyma'r sbardunau yn y papur ysgrifennu:

**Rhan 1 – Ysgrifennu Llythyr**

Naill ai (Either):

1. Ysgrifennwch ateb i'r llythyr hwn:

Meddygfa Cwm Glas
Aberheli

Annwyl gyfaill,
Dw i'n ysgrifennu atoch chi i ddweud bod oriau agor y Feddygfa'n newid y mis nesaf. Mae dau feddyg yn ymddeol, felly fyddwn ni ddim yn gallu agor ar fore Sadwrn o gwbl, fel roedden ni'n arfer ei wneud.
Mae'n ddrwg gen i am y newid hwn, ond does dim dewis.
Yn gywir,
Dr Glyn Parri (Rheolwr y Feddygfa)

neu:
2. Dych chi'n mynd ar wyliau'r wythnos nesa. Ysgrifennwch lythyr at gydweithiwr yn dweud beth fydd angen iddo/iddi ei wneud pan fyddwch chi i ffwrdd.

neu:
3. Buoch chi mewn cinio Gŵyl Ddewi ym mis Mawrth. Ysgrifennwch lythyr i ddiolch i'r person a ddaeth i siarad â'ch cymdeithas chi ar y noson.

neu:
4. Dych chi'n trefnu digwyddiad i godi arian/pres. Ysgrifennwch at ffrind i ofyn iddo/iddi gymryd rhan, gan ddweud beth yw'r trefniadau.

**Rhan 2 – Llenwi Ffurflen**

Buoch chi ar gwrs coginio yn eich coleg lleol y tymor diwetha. Mae'r coleg wedi anfon ffurflen yn gofyn am eich adborth (*feedback*) am y cwrs.

| | |
|---|---|
| 1. Eich enw chi: | [1] |
| 2. Eich cyfeiriad e-bost chi: | [1] |
| 3. Pam dewisoch chi wneud y cwrs yma? (tua 50 gair) | [10] |
| 4. Beth oedd yn dda ac yn ddrwg am y cwrs? (tua 50 gair) | [10] |
| 5. Ar ôl gwneud y cwrs, sut bydd eich ffordd o fyw'n newid? (tua 50 gair) | [10] |

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Rhan 1 – Ysgrifennu Llythyr**

Cafwyd ymdrech ar bob un o'r dewisiadau a'r goreuon i'w llongyfarch am ysgrifennu'n lân a chywir gan gadw at ofynion y cwestiynau.

Y Meini Prawf

Cywirdeb
Yr un yw'r gwallau ieithyddol mwyaf cyffredin a welir o flwyddyn i flwyddyn. Dw i am nodi rhai er mwyn i athrawon ganolbwyntio arnyn nhw a'u cywiro:

Camgymeriadau cystrawennol, e.e.
Y feddygfa yn agos i'r pentre....
bod y gwasanaeth yn orau;
Bydda i dechrau/coginio;
Y genidol, e.e. iechyd o fy mhlant, canmol y staff y feddygfa
Y frawddeg enwol, e.e. bod roedd, bod mae, bod bydd, bod byddi di;
Y gystrawen ar ôl 'ers' a 'cyn', e.e. cyn dechreues i;
Y frawddeg bwyslais, e.e.
Mae fy hoff ardd yn 'Aberheli'...
Treiglad ar ôl arddodiad yn enwedig ar ôl 'i'

Ystod
Y goreuon yn defnyddio amrywiaeth amserau a chystrawennau yn rhwydd ond eraill yn cyfyngu eu hunain i'r presennol.

Geirfa
Roedd amrywiaeth geirfa rhai yn fy synnu ond geirfa eraill ar y llaw arall yn gyfyng a chymysglyd.

Priodoleb
Dyma lle roedd hyd yn oed y goreuon wedi colli marciau sef gwyro o'r pwnc a pheidio â chadw at y testun. Hefyd, rhaid darllen y cwestiwn yn ofalus. Er enghraifft yn newis 3 o'r llythyr, mae gofyn diolch i'r siaradwr am ddod i'r gymdeithas ond yr hyn a gafwyd gan rai oedd gwahodd y siaradwr i ddod i siarad â'r gymdeithas neu drefnu iddo ddod. Ac felly roedd yr holl lythyr yn amherthnasol.

**Rhan 2 – Llenwi Ffurflen**

Y diffyg pennaf oedd peidio ag ateb gofynion y cwestiwn. Cwestiwn 3 er enghraifft – mae'n gwbl glir mai cwrs coginio y gofynnir amdano ond ces amryw yn sôn am gwrs Cymraeg ac felly roedd yr atebion i'r cwestiynau dilynol yn amherthnasol.

Yng nghwestiwn 3, roeddwn i'n chwilio am y defnydd o'r presennol a gwahanol gystrawennau ac efallai am resymau dros ddewis y cwrs. Yng nghwestiwn 4, y defnydd o'r amherffaith ac yng nghwestiwn 5 roeddwn i'n chwilio am ymgais i gymharu'r gorffennol a'r dyfodol.

Dyma gymhedrau'r prawf Ysgrifennu dros y tair blynedd diwethaf. Maen nhw'n dangos bod cymedr eleni hynod agos i gymedr 2019.

2018 = 42.9
2019 = 41.8
2022 = 41.2

Dyma ystadegau 2019 o'u cymharu ag ystadegau'r blynyddoedd cynt.

| Prawf | | Cymedr 2017 | Cymedr 2018 | Cymedr 2019 | Cymedr 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrando | allan o 60 | 40.7 | 42.5 | 44.4 | 50.5 |
| Tasg Sgwrsio | allan o 60 | 43.5 | 43.2 | 43.8 | 43.2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prawf Siarad | allan o 160 | 118.6 | 121.1 | 120.2 | 125.5 |
| Darllen a Llenwi Bylchau | allan o 60 | 49.6 | 52.4 | 51.9 | 52.9 |
| Ysgrifennu | allan o 60 | 40.4 | 42.9 | 41.8 | 41.2 |
| Cyfanswm | allan o 400 | 291.4 | 302.0 | 303.2 | 314.0 |

| **Blwyddyn:** | **2017 (150 ymgeisydd)** | | **2018 (143 ymgeisydd)** | | **2019 (186 ymgeisydd)** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Rhagoriaeth | 49 | 33% | 50 | 34.9% | 74 | 40% |
| Llwyddo | 83 | 55% | 84 | 58.7% | 97 | 52% |
| Methu | 18 | 12% | 9 | 6.3% | 15 | 8% |

| **2022 (164 ymgeisydd)** | | |
|---|---|---|
| **Gradd** | **Nifer** | **Canran** |
| Rhagoriaeth | 80 | 48.8% |
| Llwyddo | 78 | 47.5% |
| Methu | 6 | 3.7% |

**Enghreifftiau o’r Prawf Ysgrifennu**

Nodir y sbardunau ar y papur Ysgrifennu uchod.  Mae enghreifftiau o’r ddwy dasg isod.

**Rhan 1 – Ysgrifennu Llythyr**

Annwyl cydweithiwr

Dw i'n mynd ar wyliau'r wythnos nesa am ~~tri~~ wythnos.
Welesi ddim fy fam i ers tair flynedd. Dan ni'n
gyrru trwy'r Ewrop, ella dw i'n methu ateb y ffon chi.
Dw i'n meddwl, bod yn medru i ateb ebost chi.
Dw i'n siwr fod chi yn iawn pan fydda i i ffwrdd.
Pethau i gofio os gwelwch chi'n dda:

- Newydd papurau yn y llyfr am diwrnodd olyyny mis yn mhob man (yn mhob ty, MAR)
- Ysgrifennwch lythr i Meddygfa os dach chi'n angen help ta newdd tabledu
- Rhaid Mr. Jones mynd ar ysbyty 12 Mehefin, plis ffonio ambiwlans a pharatoi teithio
- Atebwch bob e-bost
- Mwy pwysig, rhaid i chi llenwi ffurfflen i Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwarchod am ein cwsmeriaid ni

Diolch am pob ddim!

Yn gywir,

Annwyl Siôn,

Gobeithio fod ti'n iawn ar hyn o bryd. Mae'n amser hir dw i ddim wedi dy weld di!

Dw i'n aelod o'r clwb rhedeg ym Mhorthmadog y dyddiau hyn a dan ni'n trefnu digwyddiad enfawr i godi arian. Dan ni isio adeiladu tŷ clwb newydd.


Bydd y digwyddiad ar Awst y nawfed ar maes pêl-droed y dre (neu dan do os bydd hi'n wlyb!). Taset ti'n ar gael i helpu baswn i'n hapus iawn oherwydd mae gen i ormod i drefnu ar fy mhen fy hun.

Os wyt ti ar gael wythnos nesa, medrwn i ~~gyfarfod ti eto~~ gyfarfod eto ti yn y dafarn i egluro popeth. Dw i'n edrych ymlaen at dy weld di.

Cofion,

**Rhan 2 – Llenwi ffurflen**

Mae'r gyntaf yn enghraifft o ysgrifennu gormod. Gofynnir am tua 50 gair ymhob rhan, ond cafwyd dros 100 gair, ac mae'n cynhyrchu mwy o gamgymeriadau o'r herwydd. Mae'n ateb gofynion y cwestiynau ac yn dangos amrywiaeth o ran geirfa o chystrawennau, ond heb fod dan reolaeth bob tro. Mae'n llwyddo i gyfleu ystyr gan amlaf, ond mae ambell ran yn aneglur. Cafodd yr ymgeisydd yma 18 allan o 32 am y dasg hon. Dilewyd y ddwy frawddeg gyntaf er mwyn anonymeiddio'r testun.



3. Pam dewisoch chi wneud y cwrs yma? (tua 50 gair) [10]

Dw i'n wrth fy mod efo coginio a phobi a ron i isio dysgu rhywbeth newydd. Achos mae gen i ddwy o blant, ron i bwysig i mi i dewis cwrs lleol, yn yr ardal. Bangor dydy ddim yn bell o dŷ ni ac dw i angen teithio dim ond 15 munud. Mae parcio am ddim, ac mae gwrs coginio am ddim hefydd. Arderchog!. Yn fy marn i ydy yn pwysig a bwyta bwyd iach a fresh. Wrth gwrs lleol hefydd! Ron i isio colli pwysau, achos mae gen i problemau efo fy nghalon i. Does na ddim amser i golli, dw i isio treilio mwy o amser efo fy nheulu fi.

4. Beth oedd yn dda ac yn ddrwg am y cwrs? (tua 50 gair) [10]

Roedd o'n rhyw pethau dda yn y cwrs. Ni gaethon ni rhestr cyn pob dosbart ac ni ges i amser i siopa a paratoi. Roedd y bwyd yn siupl, hawss i coginio. Roedd y cwrs yn Cymraeg, ron i medru i ymarfer fy nghymraeg i. Roedd yn ddrwg iawn i newydd amser ~~cwrs~~ cwrs heb anfon neges, a gael

4

Dyma ail ran y ffurflen:

cholli amser i teithio i Fangor.
Roedd ~~yn~~ syniad da i godi pres i Marie Curie efo
gwerthu cacennau yn y parti Gŵyl Ddewi.
Mae'n ddrwg gen i am methu neud cwrs
arall am y tymor nesa, mi wnes i newydd
swydd.

5. Ar ôl gwneud y cwrs, sut bydd eich ffordd o fyw'n newid? (tua 50 gair) [10]

Yn fy marn i, mi dysges i gormod o pethau
~~newydd~~ newydd. Wna i mor ofalus am brynu
llysiau lleol, mi ffiendies i fferm bach yn y
pentre nesaf. Mae nhw'n tyfu llysiau iach,
tatws, moron, mae gynyn nhw ffrwithiau hefydd.
Dan ni'n brynu wyau lleol hefyd, dim ond
un bunt!!! Rhad go iawn, dw i'n meddwl! Mae
na pwysig i cefnygu siopau lleol.
Dan ni'n yn bwyta llai fel teulu ~~...~~ rwan, môr
rechyd. Deud y gwir, dan ni yn colli pwysau
yn hefydd!

Mae'r ail enghraifft (isod) yn llawer mwy cynnil, ac yn defnyddio brawddegau cyfarwydd yn gywir. Mae'n ateb y cwestiynau'n gwbl briodol, gydag ychydig o hiwmor hyd yn oed. Mae'n gywir iawn, ac defnyddio ystod helaeth o gystrawennau. Cafodd yr ymgeisydd yma 26 allan o 32.

3. Pam dewisoch chi wneud y cwrs yma? (tua 50 gair) [10]

Doedd gen i ddim diddordeb mewn coginio o'r blaen ond gadawodd fy nghariad i 'yn ddiweddar a chogydd oedd o, felly roedd o'n coginio i fi bob dydd. Roedd rhaid i mi ddysgu coginio'n gyflym iawn. Dyma pam dewises i'r cwrs 'sut i ferwi ŵy'.

4. Beth oedd yn dda ac yn ddrwg am y cwrs? (tua 50 gair) [10]

Ro'n i'n teimlo'n nerfus iawn pan cyrhaeddes i, ond roedd y tiwtor yn neis iawn a gwnaeth o drafeth i helpu fi teimlo yn fwy hyderus ac yn gyfforddus yn y dosbarth.

Roedd hi'n anodd oherwydd roedd pawb arall yn ifanc iawn, ond gweithies

4

i'n galed iawn a dysges i lawer.

5. Ar ôl gwneud y cwrs, sut bydd eich ffordd o fyw'n newid? (tua 50 gair) [10]

Ar ôl gwneud y cwrs, dw i'n medru berwi ŵy rŵan a dw i'n teimlo'n hyderus iawn mewn cegin. Hefyd, dw i'n meddwl am wneud cwrs arall yn y dyfodol. Dw i'n hoff iawn o gyri felly hoffwn i ddysgu sut i goginio cyri go iawn fel mewn bwyty!

**Adborth Ymgeiswyr Canolradd 2022**

Atebwyd yr holiadur Canolradd gan 99 o ymgeiswyr.

Roedd y patrwm o ran cymhelliant ymgeiswyr yn debyg i'r lefelau eraill – 'gosod nod' a 'mesur cynnydd' oedd y rhai mwyaf amlwg.

Roedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at broblemau technegol a gafwyd yn ystod y prawf ar-lein, a bod hynny wedi tanseilio'u hyder ychydig. O ran sefyll y prawf ar y campws neu ar-lein,

roedd mwyafrif o blaid sefyll wyneb yn wyneb (hyn yn fwy amlwg ar y lefel hon, a hynny'n adlewyrchu natur rhyngbersonol y prawf ei hun, o bosib). Cafwyd un sylw diddorol am hyn: 'Dw i wedi sefyll prawf siarad yn 2021 ar-lein. Ar y pryd ro'n i'n meddwl ei fod e'n iawn. Nawr dw i newydd sefyll arholiad Cymraeg wyneb-yn-wyneb, dw i wedi newid fy marn. Roedd hi'n fwy hawdd siarad â rhywun wyneb-yn-wyneb.' Cafwyd un neu ddau sylw'n nodi bod yr amser paratoi (30 munud) yn ormod, a bod rhai ymgeiswyr ar-lein wedi sgriptio rhannau helaeth o'r rhan gyntaf (Trafod Pwnc). Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n canmol y cyfwelydd yn fawr, e.e. 'Dim rhy hawdd a ddim rhy anodd. Roedd yr arholwr yn glên, felly rôn i'n medru ymlacio. Rôn i'n mwynhau'r trafod pwnc.'

Cafwyd rhai sylwadau negyddol am y dasg sgwrsio a'i bod hi'n anodd cael hyd i siaradwr rhugl i gymryd rhan ac ambell un heb ddeall bod disgwyl iddyn nhw gwblhau'r rhan hon (er bod llyfryn yr ymgeiswyr yn nodi hyn yn glir). Roedd rhai'n nodi bod angen mwy o gyngor a chanllaw i gwblhau'r dasg. Ar y llaw arall, roedd nifer yn dweud eu bod wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac wedi cael budd ohono.

Roedd amrywiaeth o sylwadau am y profion eraill. Cafwyd ambell gŵyn fod y profion Gwrando'n aneglur neu'r acwsteg yn anodd, yn ôl yr arfer. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr o'r farn fod y papurau'n debyg o ran her i'r hyn a welwyd yn y cynbapurau, e.e. 'Reading and Writing were fine – about the same level as past papers. I didn't understand everything but could make sense of it from context. It's not meant to have no challenge or be too easy.' Roedd mwy nag un sylw'n nodi eu bod wedi gorffen y prawf ymhell cyn diwedd yr amser a bennwyd. Mae'n bosib fod hyn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn cwblhau'r profion flwyddyn gyfan yn hwyrach na'r disgwyl.

7. **Uwch Haf 2022**

Cynhaliwyd yr arholiad yn y canolfannau canlynol. Mae'r nifer mewn cromfachau petryal yn dangos faint o ymgeiswyr oedd yn dysgu ar gyrsiau o fewn y ganolfan honno.

| **Lleoliad** | **Canolfan** | **Nifer** | **Siarad** |
|---|---|---|---|
| **00501** | **Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe [10]** | | |
| D00501.1 | Prifysgol Abertawe | 9 | 1 |
| **00502** | **Dysgu Cymraeg Caerdydd [16]** | | |
| D00502.01 | Prifysgol Caerdydd | 17 | 2 |
| **00503** | **Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr [15]** | | |
| D00503.12 | Adeilad Elystan Morgan, Aberystwyth | 12 | 2 |
| **00504** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru [3]** | | |
| D00504.01 | Prifysgol Bangor | 2 | 2 |
| **00505** | **Dysgu Cymraeg Gwent [18]** | | |
| D00505.01 | Campws Pont-y-Pŵl | 11 | 6 |
| **00506** | **Dysgu Cymraeg Morgannwg [7]** | | |
| D00506.01 | Prifysgol De Cymru | 6 | 0 |
| **00507** | **Dysgu Cymraeg Sir Benfro [2]** | | |
| D00507.04 | Canolfan Bloomfield, Arberth | 2 | 0 |
| **00509** | **Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain Cymru [3]** | | |
| D00509.02 | Coleg Cambria, Wrecsam | 3 | 0 |
| | **Ymgeiswyr Preifat [1]** | | |
| | **Cyfanswm** | **62** | **13** |

Roedd canran uchel o'r ymgeiswyr hyn wedi sefyll y prawf Siarad yn 2021, ac yn cwblhau'r cymhwyster eleni. Dyma'r niferoedd a safodd yr arholiad Uwch dros gyfnod o dair blynedd:

Cyfanswm Cofrestriad 2018 = 44
Cyfanswm Cofrestriad 2019 = 53
Cyfanswm Cofrestriad 2021 = 95 (prawf Siarad yn unig)
Cyfanswm Cofrestriad 2022 = 62

Dyma broffil o'r ymgeiswyr:

| | **Proffil oedran (oedran ar Awst 31)** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dan 20** | **20-29** | **30-39** | **40-49** | **50-59** | **60-69** | **70-79** | **80 ac uwch** |
| Mehefin 2018 | 0.0 | 4.6 | 27.3 | 22.7 | 25.0 | 11.4 | 9.1 | 0.0 |
| Mehefin 2019 | 0.0 | 3.8 | 20.8 | 24.5 | 22.6 | 18.9 | 9.4 | 0.0 |
| Mehefin 2022 | 0.0 | 8.1 | 16.1 | 19.4 | 22.6 | 19.4 | 12.9 | 1.6 |

| | Proffil Rhyw | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwryw** | **Benyw** | **Arall** |
| Mehefin 2018 | 50.0 | 50.0 | |
| Mehefin 2019 | 39.6 | 58.5 | 1.9 |
| Mehefin 2022 | 33.9 | 53.2 | 12.9 |

| | Proffil Canolfannau Arholi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **00501** | **00502** | **00503** | **00504** | **00505** | **00506** | **00507** | **00508** | **00509** | **00552** |
| Mehefin 18 | 11.4 | 15.9 | 18.2 | 18.2 | 22.7 | 0.0 | 2.3 | 0.0 | 11.4 | 0.0 |
| Mehefin 19 | 13.2 | 3.8 | 18.9 | 13.2 | 18.9 | 7.6 | 17.0 | 0.0 | 5.7 | 1.9 |
| Mehefin 22 | 14.5 | 22.6 | 21.0 | 3.2 | 19.4 | 11.3 | 3.2 | 0.0 | 4.8 | 0.0 |

**Siarad**

Dyma sylwadau'r Prif Arholwr:

O ran y dechnoleg roedd popeth wedi gweithio'n dda. Y mwyafrif yn defnyddio Zoom a'r gweddill yn defnyddio MS Teams. Ymddengys fod pob dim wedi gweithio'n gwbl lwyddiannus ar ochr y cyfwelwyr, y lanlwytho i system CBAC a mynediad gan y marcwyr i'r cyfweliadau. Ni fu unrhyw broblem recordio ac unwaith eto dilynodd pob cyfwelydd y cyfarwyddiadau angenrheidiol ynglŷn â nodi manylion yr ymgeiswyr ar ddechrau pob sgwrs.

**Rhan 1 – Erthygl**

'Digon yw digon' oedd teitl yr erthygl eleni a oedd yn sôn am bobl yn peidio â mynychu bwyty ar ôl archebu ymlaen llaw. Problem ddigon dealladwy ac erthygl deg, rwy'n credu.
Eto eleni, cafwyd cyfweld rhagorol ar y cyfan er y dylid nodi eto bod ambell gyfwelydd yn aralleirio/newid cwestiynau pan oedd oedi ac ambell un yn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf yn rhy gyflym efallai pan oedd yr ymgeiswyr yn oedi.

Wrth reswm, mae natur yr holi, h.y. cwestiwn uniongyrchol yn gofyn am ateb uniongyrchol, yn achosi trafferth fawr i'r ymgeiswyr gwannaf gan adael iddynt ymbalfalu yn y tywyllwch yn chwilio am yr ateb yn yr erthygl. Gwelwyd pegynau unwaith eto – y goreuon yn gallu ateb yn syth a'r gweiniaid yn stryffaglu wrth chwilio am yr ateb yn y testun neu'n dechrau sgwrsio yn gyffredinol am y sefyllfa.

O ran y cwestiynau eu hunain:

Cwestiwn 1 – Ychydig iawn wedi esbonio pam roedd y broblem yn waeth erbyn hyn oherwydd y cyfyngiadau. Cymysgu gan nifer: tai bwyty / tai bwytai;
Cwestiwn 2 – Da iawn at ei gilydd, er bod 'arwyddau' wedi'i glywed fwy nag unwaith;
Cwestiwn 3 – Da iawn ar y cyfan er bod rhai'n cymysgu faint oedd wedi archebu bwrdd a faint ddaeth;
Cwestiwn 4 – Nifer wedi camddeall ac wedi sôn am beth wnaeth Mr Buckley yn lle sôn am farn pobl ynglŷn â beth wnaeth e. ('Beth roedd y rhan fwya o bobl yn ei feddwl am beth wnaeth Mr Buckley?')
Cwestiwn 5 - Y rhan fwyaf wedi cael y rhan gyntaf (codi blaendal) ond llai o lawer wedi cael y rhan am y rhestr o bobl a fyddai'n cael eu gwahardd.

**Rhan 2 – Hunanbortread**

Dyma'r cyfle i'r ymgeiswyr siarad am bethau cyfarwydd iawn ac felly cafwyd nifer fawr o sgyrsiau difyr a diddorol iawn. A dyma'r rhan lle mae ymgeiswyr yn gallu sgorio'n dda iawn. Yr un broblem â phob blwyddyn arall: mae'r rhan hon yn aml yn tueddu i fod yn rhy hir ac yn mynd ymlaen yn hirach o lawer na'r 7-8 munud a argymhellir.

**Rhan 3 – Pwnc llosg**

'Mae gormod o dai haf yng nghefn gwlad Cymru' neu 'Dylai plant Cymru ddysgu mwy am hanes Cymru' oedd y tasgau eleni, ac felly'n cynnig digon o gyfle i ymgeiswyr fynegi barn. Tai haf oedd y dewis mwyaf poblogaidd a neb llawer wedi trafod hanes Cymru.

Rhyngweithio, pwyso a mesur dadleuon da iawn ar y cyfan. Roedd gan bawb farn am y pynciau dan sylw ac yn ddigon bodlon sgwrsio a mynegi'u safbwyntiau'n glir. Ac eleni roedd bron pob un yn holi am farn y cyfwelydd am y pwnc llosg. Yn bendant mae'r agwedd hon wedi gwella'n sylweddol erbyn hyn.

Ambell waith byddai wedi bod yn fuddiol i gyfwelydd dorri ar draws ymgeisydd yn hytrach na gadael i ymgeisydd siarad yn ddi-dor. Byddai hyn wedi sbarduno mwy o ryngweithio fel y gofynnir amdano.

**Rhan 4 – Siarad o Brofiad**

'Siaradwch am eich profiad yn mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd' neu 'Siaradwch am eich profiad yn derbyn anrheg yn y gorffennol' oedd y dewisiadau, a newid ysgol yn ffefryn gan y mwyafrif.

Mae'n debyg i'r testun am newid ysgol apelio'n syth i lawer ond efallai bod trafod yr anrheg yn haws gan ei fod yn llai cymhleth ac yn llai cymysglyd. Roedd nifer yn sôn am bethau di-bwys am yr ysgol, yn tueddu i godi ysgyfarnog ac yna yn colli'u ffordd ac o ganlyniad, byddai'r rhan hon yn mynd yn rhy hir o lawer yn aml.

Ar y cyfan clywyd straeon a disgrifiadau da a diddorol gyda'r ddau brofiad yn rhoi digon o gyfle i ymgeiswyr ymestyn eu hunain. Ond roedd tystiolaeth glir o ddiffyg paratoi gan rai ymgeiswyr, y rhai gwannaf gan amlaf oedd wedi rhedeg allan o amser paratoi mwy na thebyg. Oherwydd hyn roedd sawl enghraifft o ymgeiswyr yn mynd trwy'r sbardunau fesul un gan geisio adrodd am y profiad wrth edrych ar y cwestiynau. Arweiniodd hyn at siarad braidd yn herciog.

Eto eleni roedd tuedd ymysg rhai ymgeiswyr i anghofio un neu ddau o bwyntiau gan gynnwys hyd yn oed y rhai disgleiriaf wrth iddynt ddisgrifio digwyddiadau ac yna anghofio'r sbardunau eraill a'r cyfwelydd yn gorfod eu hatgoffa oherwydd hynny.

A hefyd roedd rhai ymgeiswyr heb sylweddoli bod rhaid iddyn nhw siarad yn ddi-dor am y profiad yn hytrach nag ateb cwestiynau fesul un. Efallai fod angen i'r cyfwelydd ddweud hyn yn glir ar y dechrau – rhywbeth fel: 'Fydda i ddim yn siarad o gwbl yn y rhan hon, felly siaradwch chi gan edrych ar y pwyntiau sydd ar y daflen.'

Argymhellion:

• Hyfforddiant i'r ymgeiswyr gynnwys pob pwynt yn Rhan 4 fel sgwrs/araith ddi-dor. Geiriau gan y cyfwelydd tebyg i'r uchod, ac efallai rhywbeth yn y llyfryn i ymgeiswyr i danlinellu hyn;
• Hyfforddiant/arweiniad i'r cyfwelwyr ar Ran 1: dim aralleirio/newid y cwestiwn;
• Hyfforddiant/arweiniad i'r cyfwelwyr ar Ran 4 ynglŷn â chynnwys pob pwynt;
• Sicrhau bod pob ymgeisydd yn barod i sefyll yr arholiad;
• Sicrhau bod pob ymgeisydd yn gwbl gyfarwydd â phob rhan o'r prawf ac yn deall y gofynion i gyd, h.y. neilltuo digon o amser paratoi i bob rhan o'r prawf;
• Sylw penodol i'r eitemau ieithyddol a nodir isod.

Iaith

Gan nad oes dim byd newydd wedi codi eleni o safbwynt gwallau, er gwaethaf chwilio hir, gall y rhestri hir sy wedi'u cynhyrchu dros y blynyddoedd wneud y tro eto eleni. Ac os oes chwilen neu ddwy yn fy mhen eleni, dyma nhw:

1. Ymgeiswyr hyd yn oed y rhai gorau'n gwneud cawlach o'r cymal enwol: dwi'n meddwl mae….; meddwl bod mae; credu roedd; …bod mae rhaid; bod oedd rhaid iddyn nhw; credu bod bydd; bod aethon nhw

2. Methu ffurfio'r negyddol yn iawn: Mae e ddim; maen nhw ddim; mae fy mhlant ddim; roedd hi ddim; bydd hi ddim yn barod.

Roedd cymedr y prawf Siarad eleni'n uwch nag y 2019, ac yn dangos cynnydd clir er 2018:

2018 = 85.5
2019 = 90.3
*2021 = 91.2 (Siarad yn unig)*
2022 = 96.3

**Tasgau Trafod**

Dyma adroddiad y marciwr:

Ar y cyfan roedd y safon yn eitha da a boddhaol, ond rhaid sicrhau bod dysgwyr yn ateb gofynion y tasgau. Cafwyd un ymgeisydd heb ateb gofynion y dasg gyntaf, o ran trafod unrhyw lyfr, ffilm, drama na rhaglen, dim ond holi hanes y siaradwr rhugl ac anodd iawn oedd pennu marc ar gyfer hyn. Roedd un arall wedi cyflwyno un dasg yn unig ac un ymgeisydd wedi cyflwyno 5 munud o drafodaeth oedd yn llawer rhy fyr. Cafwyd enghraifft o ymgeisydd yn darllen talpiau helaeth o lyfr a heb amser i lawer o drafod.

Hoffwn nodi yma, yn fy marn i, er mwyn ateb gofynion y dasg gyntaf sef trafod a chynnal trafodaeth, y dylid sicrhau bod y siarad rhugl wedi darllen y llyfr neu wedi gwylio'r ffilm neu'r ddrama neu'r rhaglen deledu a ddewisiwyd. Os nad yw'r siaradwr rhugl wedi gwneud hynny, y perygl ydy nad trafodaeth a geir ond cyfres o gwestiynau am eu cynnwys a hynny yn aml iawn yn arwain at fonolog ar ran y dysgwr neu ryw drafod arwynebol a diffyg rhyngweithio. Mewn un achos, doedd y dysgwr ddim wedi darllen y llyfr a drafodwyd a'r hyn a gafwyd oedd sgwrs unochrog y dysgwr ddim yn gallu mynegi barn dim ond holi'r siaradwr rhugl am y cynnwys.

Ond wrth gwrs, ar y llaw arall trafodwyd amrediad o lyfrau a ffilmiau a rhaglenni teledu a'r goreuon yn trafod y stori, y cymeriadau, y neges yn dreiddgar ac yn ddeallus. Roedd yr ail dasg yn haws o ran trafod unrhyw agwedd at yr iaith a'r diwylliant a chafwyd ystod eang o agweddau a'r modd y mae rhai o'r dysgwyr wedi dod yn rhan o'r gymdeithas a dysgu Cymraeg wedi agor drysau a byd newydd iddyn nhw.

Rhaid sicrhau bod ansawdd y ffeil sain yn foddhaol ac o'r hyd priodol.

Cywirdeb

Yn gyffredinol, roedd safon iaith y dysgwyr yn eitha boddhaol gyda'r goreuon fel y gellid disgwyl, yn siarad yn gywir, yn rhugl gan fynegi eu hunain yn rhwydd ac yn gyfforddus wrth ymateb i'r siaradwr rhugl. A rhaid eu llongyfarch.

Dyma rai gwendidau cyffredinol.

Achosodd y frawddeg bwyslais gryn drafferth i nifer o'r ymgeiswyr, e.e. heddiw gyda fi yw...
...mae tasg un ydy…

Cymysgu 'nabod' a 'gwybod'
Geirfa gyfyng
Arddodiad ar ôl berfau – 'siarad atoch chi'

Rhuglder

Cwestiynau arwynebol a phrinder geirfa. Sgwrs y goreuon yn llifo'n ddidrafferth ond rhai yn amlwg yn cael anhawster i fynegi eu hunain.

Rhyngweithio

Dyma'r adran wannaf. Cafwyd dau begwn i'r tasgau trafod – naill ai monolog ar ran y dysgwr neu'r siaradwr Cymraeg yn arwain ac yn gwneud yr holl holi. Anodd i ddysgwyr sy'n darllen sgript ymateb i'r hyn y mae siaradwr rhugl yn ei ddweud sef yr un gwendidau ag yn y gorffennol. Fel y crybwyllais yn y sylwadau cyffredinol mae'n help bod y siaradwr rhugl wedi darllen y llyfr, neu weld y ffilm neu'r rhaglen deledu er mwyn hybu'r rhyngweithio a'r cyd-drafod. Roedd ymateb rhai yn elfennol ac arwynebol iawn heb allu cynnal sgwrs na thrafodaeth.

Roedd y cymedr yn debyg i'r hyn a welwyd yn y gorffennol:

2018 = 42.1
2019 = 44.0
2022 = 43.0

**Gwrando**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
Ni chosbir am wallau iaith; cynnwys yr atebion a asesir. Mae 4 marc am bob eitem.

**Rhan 1 – Gwybodaeth ffeithiol**

1. Sut helpodd wncwl Maradona ei nai?
   Prynodd e bêl droed iddo, pan oedd e'n fachgen. [Dim angen cyfeirio at 'lledr' nac at 'dair oed'].
2. Pa mor dal ydy Maradona?
   Pum troedfedd, pedair modfedd.
3. Sut newidiodd pethau i dîm Napoli ar ôl i Maradona ymuno â nhw?
   Doedden nhw ddim wedi ennill pencampwriaeth Yr Eidal cyn i Maradona ddod i chwarae iddyn nhw.
4. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng perfformiad Maradona yng Nghwpan y Byd 1982 a'i berfformiad ym 1986?
   Ym 1982 roedd y tîm yn siomedig – roedd Maradona wedi ei anafu.
   Erbyn 1986, fe arweiniodd y tîm i ennill y bencampwriaeth.

**Rhan 2 – Profiadau personol** [20]

1. Pam mae Daniel yn teimlo mai'r Gymraeg yw ei iaith gynta?
   Cafodd ei addysg trwy'r Gymraeg.
2. Pam **nad** aeth Daniel i'r capel Cymraeg?
   Oherwydd ei fod e'n mynd gyda'i fodryb/Anti Doris.
3. Am beth roedd yr ail frawd – Luke – yn enwog, yn ôl awgrym Beti?
   Am chwarae rygbi.
4. Pam nad ydy brawd hynaf Daniel yn siarad Cymraeg?
   Aeth e i'r ysgol Saesneg.
5. Ym mha ffordd mae defnydd mam Daniel o'r Gymraeg wedi newid yn ddiweddar?
   Mae hi'n siarad Cymraeg â Gruffudd Gwyn / â'i hŵyr.

**Rhan 3 – Trafodaeth**

1. Roedd mam Branwen wedi symud i'r gogledd i fyw er mwyn...
   ch. gofalu am ei mam.
2. Yn ôl profiad Branwen gyda chartrefi henoed 'gwael', beth ddylai'r cartrefi hynny fod wedi'i wneud yn wahanol?
   a. Cynnal gweithgareddau.
3. Yn ôl Cris, pa draddodiad sy'n diflannu yn y wlad yma?
   ch. Bod y rhieni'n mynd i fyw gyda'u plant.
4. Yn ôl Cris, fasai ei fam **ddim** eisiau...
   a. bod yn boendod i'w mab.
5. Yn ôl Branwen, mae arian yn broblem oherwydd...
   b. bod pobl yn gallu colli'r arian maen nhw wedi ei gynilo.
6. Roedd modryb Cris wedi cael profiad gwael mewn cartref oherwydd...
   c. nad oedd y staff yn siarad yr un iaith â hi.

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Rhan 1 – Gwybodaeth ffeithiol**

Yng nghwestiwn 2, roedd angen union daldra Maradonna (pum troedfedd, pedair modfedd) er i rai nodi 'stwcyn'.
Yng nghwestiwn 3, roedd rhai o dan yr argraff i dîm Napoli ennill Cwpan y Byd, felly collwyd marc o'r pedwar.
Yng nghwestiwn 4, roedd rhai wedi hepgor sylwadau am 1982 neu 1986 ac yn colli hanner y marciau o'r herwydd.

**Rhan 2 – Profiadau personol**

Dyma'r rhan a enillodd y marciau uchaf i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Atebwyd y cwestiynau i gyd yn dda ac yn llawn yn fynych iawn.
O ran cwestiwn 5, rhoddwyd marc am ddweud bod mam Daniel yn siarad Cymraeg â'i nai (gan y gallai'r rhagenw mewnol fod yn cyfeirio at Daniel neu ei fam).

**Rhan 3 – Trafodaeth**

Roedd pegynnu i'w weld yma, gyda nifer da'n cael marciau llawn ond ni sgoriodd ambell ymgeisydd gwannach o gwbl. Cwestiwn 5 oedd yr unig un a achosodd broblem hyd yn oed i'r ymgeiswyr cryfach.

Dyma gymhedrau'r prawf Gwrando dros weinyddiadau'r gorffennol isod. Mae cymedr eleni'n sylweddol uwch na'r hyn a welwyd yn 2018 a 2019. Fodd bynnag, gan fod y niferoedd yn gymharol fach, ni ddylid rhoi gormod o sylw i amrywiadau ystadegol fel y rhain.

2018 = 39.2
2019 = 41.8
2022 = 48.8

**Darllen**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:
4 marc am bob eitem.

**Rhan 1 – Darn Ffuglen**

1. Roedd Rhys yn poeni y basai rhywun...

b. yn dwyn y radio o'i gar
2. Pam roedd rhaid i Rhys stopio'r car?
a. roedd golau coch ar y ffordd
3. Beth roedd Rhys wedi bwriadu ei wneud ar ôl symud yn ôl i Abertawe?
ch. mwynhau ei hun yn y tafarnau
4. Beth bydd Rhys yn ei wneud heno?
c. gweithio yn ei fusnes ei hun
5. Pam penderfynodd Rhys barcio wrth Verdi's?
ch. Roedd ei le parcio arferol yn llawn
6. Mae Rhys yn gobeithio...
a. bod Sheena'n dweud y gwir
7. Un o gryfderau Sheena oedd...
a. ei bod hi'n medru perswadio cwsmeriaid i wario mwy

**Rhan 2 – Llythyrau Ffurfiol**

1. Pam roedd Gwyn yn anfodlon â'r bwrdd gafodd yn y bwyty?
Roedd drws y gegin yn bwrw yn erbyn ei gadair drwy'r amser.
2. Pam nad oedd gwraig Gwyn yn hapus gyda'i phryd bwyd?
Roedd madarch yn y saws (ac mae hi'n casáu madarch).
3. Cymharwch safbwyntiau Gwyn a Mai ynglŷn â'r amser a gymerodd y bwyd i gyrraedd y bwrdd.
Mae Gwyn yn honni bod tri chwarter awr wedi mynd heibio cyn iddyn nhw archebu a hanner awr arall cyn i'r bwyd gyrraedd; mae Mai'n dweud bod y staff wedi gofyn iddyn nhw am eu harcheb sawl gwaith, ac wedi esbonio y byddai'r cig oen yn cymryd hanner awr.
4. Pam roedd Gwyn wedi cael 10% o ostyngiad, yn ôl Mai?
Oherwydd nad oedd y bwrdd mewn lle cyfforddus [2] ac oherwydd yr oedi posibl. [2]
5. Yn ôl Mai, pam nad oes sail i gŵyn gwraig Gwyn am y bwyd?
Yn ôl Mai, roedd y fwydlen yn dweud yn glir bod madarch ynddo.
6. Pa dystiolaeth sy gan Mai nad oedd camgymeriad wedi digwydd gan y staff?
Roedd llyfr y gweinydd yn dangos beth oedd Gwyn a'i wraig wedi ei archebu.
7. Ym mha ffordd mae'r ddau lythyrwr yn cytuno am farn y cyhoedd?
Maen nhw'n cytuno bod enw da gan Fwyty'r Hen Sgubor.
8. Pam nad ydy Mai yn poeni beth fydd Gwyn yn ei ddweud am y bwyty ar y we?
Dyw hi ddim yn poeni, am fod llawer o adolygiadau da am y noson honno ar y wefan.

Dyma sylwadau'r marciwr:

Yn gyffredinol, roedd y marciau'n uchel iawn gyda nifer da heb golli marciau neu wedi colli llond dwrn o farciau'n unig.

**Rhan 1 – Darn Ffuglen**

Roedd y rhan hon wedi'i hateb yn dda iawn; cwestiynau 3. a 6. oedd yr unig rai y sylwais arnynt yn achosi problem.

**Rhan 2 – Llythyrau Ffurfiol**

Dangoswyd dealltwriaeth drylwyr o'r llythyrau. Roedd atebion cwestiwn 3. yn hir oherwydd bod tipyn i'w esbonio, ac yn goferu i waelod y dudalen yn aml. Gyda chwestiwn 4. roedd tuedd i un elfen a oedd yn ofynnol yn y cynllun marcio fod yn eisiau. Atebwyd cwestiynau 7. ac 8. yn arbennig o dda.

Roedd y data fesul eitem yn dangos bod y ddwy dasg wedi bod yn hygyrch iawn i'r ymgeiswyr, a'r papur wedi bod ychydig yn haws nag yn y gorffennol. Doedd dim un eitem â ffactor hygyrchedd llai na 0.8. Dyma gymhedrau'r prawf Darllen dros dair blynedd:

2018 = 47.6
2019 = 48.6
2022 = 54.4

**Gwybodaeth o Iaith**

Dyma'r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:

**Rhan 1 – Aralleirio**

1. Y brif broblem yw diffyg amser.
2. Roedd Gwen yn cysgu wrth i Arthur chwilio amdani.
3. Rhaid iddyn nhw/Rhaid iddynt ddefnyddio cyfrifiadur.
4. Bydd y myfyrwyr i gyd yn derbyn holiadur.
5. Mae gogledd yr Eidal yn fwy cyfoethog na'r de.
6. Dw i'n ceisio cael gafael arnyn nhw ers amser hir.
7. Roedd hyn yn amhosib o'r blaen.
8. Os nad enillwn ni / Os na fyddwn ni'n ennill heno / Os nad ydyn ni'n ennill heno, awn ni ddim i'r rownd nesa.
9. Maen nhw'n gallu rhedeg yn ogystal â chwarae rygbi.
10. T Llew Jones yw/ydy fy hoff awdur (i).
11. Mae llawer o bethau ar werth yn y siop.
12. Roedd y bobl drws nesa wedi cwyno sawl gwaith am y sŵn.

**Rhan 2 – Dewis y ffurf gywir**

1. a
2. c
3. ch
4. a
5. a
6. a
7. b
8. ch
9. c
10. c
11. a
12. a

**Rhan 3 – Llenwi bylchau**

1. rhan
2. gilydd
3. ail (/un nesa)
4. flaen
5. ar (/wedi gwneud)
6. allan (/ma's/mas)
7. fel
8. Ddwedodd/Ddudodd/Ddywedodd
9. ots (/wahaniaeth/o broblem)
10. bynnag
11. â

12. hen
13. cais
14. Gan (Oherwydd/Achos/Am)
15. mai (/taw)
16. celwydd (/celwyddau)

Dyma sylwadau'r marciwr:

**Rhan 1 – Aralleirio**

Collwyd llawer o farciau yma am wallau esgeulus, e.e.

1. Y prif broblem
2. wrth i Arthur yn chwilio
4. Y myfyriwr i gyd
5. yn fwy gyfoethog / yn fwy cyfoethococach
6. (cael) gafael iddyn nhw – ni chafodd lawer o'r ymgeiswyr y marc am hwn
7. o flaen
8. Os nad ennillwn ni / Os nad ydyn ni'n enill
9. yn ogystal a chwarae rygbi
12. y pobl drws nesa(f) / y bobl ddrws nesa(f)

**Rhan 2 – Dewis y ffurf gywir**

Rwy'n credu mai 1., 3;. 5. a 7. a achosodd y problemau mwyaf.
Roedd 7. yn baglu'r goreuon hyd yn oed: yn hen adeilad y Cyngor oedd y ffurf gywir ond roedd dewis a. mewn yn ddewis anghywir poblogaidd.

**Rhan 3 – Llenwi bylchau**

Yr argraff a gefais oedd bod y cwestiwn hwn wedi'i ateb yn well nag arfer, yn gyffredinol.
Y problemau mwyaf oedd:

2. rywbryd neui'i gilydd – cafwyd sawl enghraifft o 'llall'
5. do'n i ddim ar fy ngorau – roedd 'yn teimlo' yn ateb anghywir cyson
8. Dd(y)wedodd e ddim gair – llu heb dreiglo'n feddal
11. I mewn â fi – es i, af fi, daethpwyd, cerddais, a hefyd collodd rhai farc am anghofio'r to bach
12. …a'r tri'n amlwg wedi cael hen ddigon – gwelwyd amrywiaeth o atebion anghywir yma – llawn, ei....
15. Dwedais i mai/taw hon oedd fy swydd ddelfrydol – yr un hen broblem o ddefnyddio 'bod' yma
16. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gyfarwydd â celwydd noeth, ond cafwyd rhai atebion difyr fel 'traed noeth', 'gwynt noeth', 'y gwir noeth', 'hollol noeth' a 'hunllef noeth'.

Roedd y data fesul eitem, yn dangos mai eitemau 1.1, 1.2, 1.5 ac 1.6 oedd fwyaf heriol yn Rhan 1. Roedd ffactorau hygyrchedd Rhan 2 yn uwch o dipyn (yr isaf oedd 0.48, sef eitem 2.7). Yn Rhan 3, eitemau 3.2, 3.5, 3.8 a 3.11 oedd fwyaf heriol. Fodd bynnag, dros y prawf cyfan, roedd y cymedr yn uwch nag yn y gorffennol:

2018 = 24.5
2019 = 24.1
2022 = 27.3

Ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar hyn, gan fod nifer yr ymgeiswyr yn fach.

**Ysgrifennu**

Dyma adroddiad y marciwr:

Derbyniwyd 62 o sgriptiau i'w marcio. Dyma ddadansoddiad o'r cwestiynau a atebwyd gan yr ymgeiswyr:

**Rhan 1 – Llythyr yn y cywair ffurfiol**

(i) Pwyllgor neuadd bentref sydd newydd gael ei hadnewyddu: 41
(ii) Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r ardal: 21

**Rhan 2 – Erthygl neu adolygiad**

(i) Gwrthwynebu codi 500 o dai newydd yn yr ardal: 50
(ii) Taith cymdeithas hanes lleol: 12

Yn gyffredinol, roedd safon y papurau eleni'n dda iawn a nifer yn llwyddo i gyflawni'r tasgau a bodloni'r meini prawf uchaf. Wrth gwrs, dyma'r adroddiad cyntaf ar y papur ysgrifennu ers 2019 pan godwyd y ffaith fod nifer yn colli marciau'n ddiangen gan eu bod yn brin o'r 190 o eiriau a glustnodir ym mhob cwestiwn. Mae'n dda nodi mai unwaith yn unig y bu'n rhaid tynnu marciau am hyn eleni.

**Llythyr**

• Roedd dewis (ii) yn cynnwys cyfarwyddyd i 'sôn am un digwyddiad sy eisoes wedi cael ei drefnu...' ond roedd rhai ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar ddigwyddiad sy'n mynd i ddigwydd yn hytrach na disgrifio rhywbeth yn y gorffennol.
• Eto, yn newis (ii), roedd tuedd gan rai i beidio â 'rhoi gwybodaeth am yr Eisteddod'. Mae'n bosib fod hynny'n aneglur – ai rhoi gwybodaeth am beth yw Eisteddfod neu roi gwybodaeth am pam mae'r ardal wedi rhoi gwahoddiad i'r Eisteddfod? Derbyniwyd y ddau.

**Erthygl neu adolygiad**

• Yn newis (i) nid oedd rhai wedi sôn am gefndir y cais. Roedd y goreuon wedi llwyddo i greu cefndir ond mae'n bosib fod angen mwy o gyfarwyddyd yma.
• Yn newis (ii) roedd rhai ymgeiswyr yn cymysgu 'cefndir y gymdeithas hanes' â 'chefndir i'r daith undydd'.

Nodaf isod rai o'r gwallau a'r camgymeriadau mwyaf cyffredin a welwyd eleni:

• 'Pobl lleol' yn digwydd yn aml iawn.
• 'Fel rhan o cynllun' yn lle 'fel rhan o'r cynllun'.
• 'Penderfynu + i'.
• 'Diolch am eich helpu'.
• 'Gwellianau' – er bod 'gwelliannau' ar y papur.

... ac yn olaf, chwarae teg i un gymuned oedd yn '... gwrthwynebu tyfiant yn y tai sy'n cael eu hadeiladu'. Doedd ddim llawer o haelioni mewn ardal arall lle roedd yr ymgeisydd yn '...byw mewn cymuned tynn'. Aeth un llythyr â ni yn ôl i'r Oesoedd Canol gyda'r '... newyddion arthurol am y neuadd gymunedol' a'r naws wledig yn amlwg wrth i un arall ddatgan y bydd '...y noson yn llwyddiant ysgubor.'

Roedd y cymedr ar gyfer y Prawf Ysgrifennu eleni'n uwch nag yn y gorffennol, a hynny'n gyson â'r duedd yn y profion eraill i gyd. Dyma'r cymhedrau dros dair blynedd.

2018 = 43.5

2019 = 43.3
2022 = 47.6

**Ystadegau**

Dyma ystadegau 2022.  Gan fod nifer yr ymgeiswyr yn fach, dylid derbyn bod canrannau a chymhedrau'n gallu amrywio.

| Prawf | Cymedr 2017 | Cymedr 2018 | Cymedr 2019 | Cymedr 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Gwrando (60) | 45.7 | 39.2 | 41.8 | 48.8 |
| Tasgau Trafod (60) | 43.3 | 42.1 | 44.0 | 43.0 |
| Siarad (120) | 91.1 | 85.5 | 90.3 | 96.3 |
| Darllen (60) | 49.4 | 47.6 | 48.6 | 54.4 |
| Gwybodaeth o Iaith (40) | 25.6 | 24.5 | 24.1 | 27.3 |
| Ysgrifennu (60) | 42.7 | 43.5 | 43.3 | 47.6 |
| **Cyfanswm (400)** | **298.0** | **281.9** | **292.2** | **317.4** |

| 2017 Uwch<br>Cyfanswm ymgeiswyr: 63 | | | 2018 Uwch<br>Cyfanswm ymgeiswyr: 44 | | | 2019 Uwch<br>Cyfanswm ymgeiswyr: 53 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | **Nifer** | **Canran** | **Gradd** | **Nifer** | **Canran** | **Gradd** | **Nifer** | **Canran** |
| Rhagoriaeth | 24 | 38% | Rhagoriaeth | 8 | 18.2% | Rhagoriaeth | 16 | 30.2% |
| Llwyddo | 31 | 49% | Llwyddo | 30 | 68.2% | Llwyddo | 33 | 62.3 |
| Methu | 8 | 13% | Methu | 6 | 13.6% | Methu | 4 | 7.5% |

| 2022 Uwch<br>Cyfanswm ymgeiswyr: 62 | | |
|---|---|---|
| **Gradd** | **Nifer** | **Canran** |
| Rhagoriaeth | 36 | 58.1% |
| Llwyddo | 24 | 38.7% |
| Methu | 2 | 3.2% |

**Enghreifftiau o'r Prawf Ysgrifennu**

Dyma'r dewisiadau ar y papur:

**Rhan 1 –  Llythyr yn y cywair ffurfiol**

**Naill ai:**

i. Rydych chi ar bwyllgor neuadd bentref sydd newydd gael ei hadnewyddu.
Ysgrifennwch lythyr i'r papur lleol, gan:
- gyfeirio at y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud i'r adeilad;
- nodi trefniadau'r digwyddiad a fydd yn dathlu ailagor yr adeilad;
- esbonio beth yw cynlluniau'r pwyllgor at y dyfodol.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau. Does dim angen i chi ysgrifennu'r cyfeiriad ar frig y llythyr.

neu:

ii. Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'ch ardal chi yn y dyfodol agos, a chi ydy ysgrifennydd y pwyllgor codi arian lleol. Ysgrifennwch lythyr at drigolion yr ardal, gan:
- roi gwybodaeth am yr Eisteddfod;
- sôn am un digwyddiad sy eisoes wedi cael ei drefnu a syniadau am ddigwyddiadau eraill;
- apelio am wirfoddolwyr i helpu.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau. Does dim angen i chi ysgrifennu'r cyfeiriad ar frig y llythyr.

**Rhan 2 – Erthygl neu adolygiad**

Naill ai:
i. Mae cwmni adeiladu mawr wedi gwneud cais i godi 500 o dai newydd yn yr ardal. Mae llawer o bobl leol yn gwrthwynebu hyn. Ysgrifennwch adroddiad i'r papur lleol, gan gyfeirio at:
- gefndir y cais;
- dadleuon o blaid ac yn erbyn;
- beth fydd yn digwydd nesa.
Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

neu:

ii. Aeth eich cymdeithas hanes leol ar daith undydd yn ddiweddar. Ysgrifennwch adolygiad i'r papur lleol, gan gyfeirio at:
- gefndir y gymdeithas hanes;
- y rheswm dros fynd i'r lle hwn;
- uchafbwynt y daith.
Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

**Enghreifftiau o'r Prawf Ysgrifennu**

Mae un enghraifft o'r prawf Ysgrifennu isod, ac mae'n ymgeisydd rhagorol. Cafodd 29 allan o 30 am y dasg gyntaf, a 28 allan o 30 am yr ail. Mae'n dangos rheolaeth lwyr dros gystrawennau, a geirfa eang, e.e. Bellach, cyfranogi, gweithgareddau. Dim ond ychydig o fân wallau a welir. Mae'n ateb y sbardunau, h.y. yr is-gwestiynau o fewn pob tasg, yn ddidrafferth.

**Rhan 1 – Llythyr ffurfiol**

Annwyl Syr neu Fadam

Rwy'n ysgrifennu atoch chi i roi gwybod am
yr adnewyddu sydd wedi digwydd
i neuadd y pentref a beth fydd ar gael ar gyfer y gymuned leol
yn y neuadd o hyn ymlaen

2

Mae'r neuadd wedi cael ei hailwampio'n
sylweddol dros gyfnod adeiladu cyffrous
yn ystod y misoedd diwetha. Bellach mi
fydd 'na ystafell fawr iawn ar gyfer
gweithgareddau sy'n medru cynnwys llawer
mwy o bobl. Bydd 'na ddigon o le erbyn hyn
i ddarparu dosbarthiadau Karate i'r plant
lleol ~~a~~ hefyd cael côr o o leia cant o
bobl yn ymarfer yn yr ystafell.

Hefydd mi fydd 'na ddwy ystafell lai yn
benodol ar gyfer pobl sy isio gwella eu
sgiliau Technoleg Gwybodaeth, ac ugain o
gyfrifiaduron newydd sbon gan gynnwys y
technoleg diweddara. Mi fydd 'na hefyd
ardal wahanol i'w defnyddio fel oriel
ar gyfer arlunwaith pobl leol

Bydd 'na ddigwyddiad i ddathlu agoriad y

newadd eto ar Mehefin 18fed. Bydd 'na
lwniaeth wedi'i darparu i bawb, a
stondinau ac arddangosfeydd yn rhoi gwybod
i bawb beth fydd ar gael. Bydd 'na gerddoriaeth
fyw hefyd, a phob dim yn rhad ac am
ddim.

Yn y dyfodol mae pwyllgor y newadd yn bwriadu
hysbysebu llawer mwy o weithgareddau fydd
ar gael yn y newadd, a thrio denu gymaint
o bobl leol â phosib i gyfranogi, mwynhau
eu hunain a chymdeithasu.

Dyma'r ail dasg:

2. **Erthygl neu adolygiad**

Yn ystod grwythnos diwetha mae'r Cyngor
wedi cyhoeddi ~~bod~~ rhoddwyd caniatád
i gwmni adeiladu enfawr godi pum cant
o dai newydd yn yr ardal werdd i'r
dwyrain y dref. Mae'r penderfyniad wedi
cael ei wneud, meddan nhw, i ddatblygu'r ardal
er gwell.
~~Mae pawb yn gwybod bod 'na fawr angen~~
~~cael~~

Mae pawb yn gwybod bod 'na fawr angen
cael mwy o gartrefi ar gyfer pobl leol. Ar
hyn o bryd mae'n anodd iawn i bobl ifanc
ffeindio cartrefi fforddiadwy yn ardal
eu geni. Mae ailgartrefu wedi chwarae
rhan fawr yn crewn'r broblem hon, efo pobl
o Loegar yn prynu tai haf yr em miloedd
heb ystyried teimladau pobl leol o gwbl

ffeindio cartrefi fforddiadwy yn ardal
eu geni. Mae ailgartrefu wedi chwarae
rhan fawr yn crewn'r broblem hon, efo pobl
o Loegar yn prynu tai haf yr em miloedd
heb ystyried teimladau pobl leol o gwbl

Fodd bynnag, mae 'na wrthwynebiad
sylweddol ymlith y gymuned am y datblygiad.
Ardal hyfryd, llawn gwyrddni a natur ydy
safle y datblygiad. Mae'r ardal wedi cael
ei defnyddio yn gyson iawn dros y blynyddoedd
i bobl leol gerdded, ymlacio a bod tu allan yn yr
awyr agored. Hefyd, mae'r ardal o bwys

sylweddol i rwyogaethau prin o flodau a phryfed, sy'n denu amrywiaeth o fywyd gwyllt.

O ganlyniad i'r gwrthwynebiad i'r prosiect, mae 'na pwllgor wedi cael ei ffurfio er mwyn trio ffeindio ffyrdd i rwystro'r datblygiad. Mi fydd 'na orymdaith a gwrthdystiad yn erbyn y prosiect. Hefyd bydd rhai'n barod i glymu eu hunain i offer adeiladu er mwyn atal y gwaith 2

**Adborth Ymgeiswyr Uwch 2022**

Atebwyd yr holiadur Uwch gan 51 o ymgeiswyr.

Yn wahanol i'r lefelau eraill, roedd mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid sefyll y prawf Siarad ar-lein yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid cofio bod llawer o'r ymgeiswyr hyn yn *cwblhau*'r cymhwyster eleni ac wedi sefyll y profion Siarad ar-lein yn 2021 yn ystod y pandemig.

Cafwyd amrywiaeth o sylwadau am y tasgau trafod. Roedd rhai'n cwyno ei bod hi'n anodd iawn cael hyd i siaradwyr rhugl a oedd yn fodlon recordio'r tasgau; hefyd fod recordio'r sgyrsiau'n her dechnegol. Dyma un sylw cadarnhaol: 'Roedd yn brofiad da iawn. Roedd yn dda iawn cael cyfle i wneud hyn, mi wnaeth o roi hyder i fi y baswn i'n iawn yn y Prawf Siarad go iawn.'

O ran y profion eraill, roedd nifer o sylwadau'n nodi bod y prawf Gwrando'n anos nag arfer. (Mewn gwirionedd, roedd yr ystadegau'n dangos bod prawf 2022 wedi bod yn llawer haws nag yn 2019 neu 2018). Roedd un neu ddau sylw'n nodi bod gormod o amser i gwblhau'r prawf Gwybodaeth o Iaith (60 munud) a dim digon i gwblhau'r prawf Ysgrifennu. Cafwyd un neu ddau'n nodi bod y papur Darllen yn rhy hawdd (a'r ystadegau'n cefnogi hynny, o bosib).

Ar y cyfan, roedd llawer iawn o sylwadau ychwanegol yn pwysleisio pa mor ddiolchgar roedden nhw i'r ganolfan am gynnal yr arholiad a'u bod wedi cael y cyfle i'w sefyll, yn dilyn dwy flynedd anodd iawn.

8. **Dyddiadau Arholiadau 2023**

Yn dilyn cais gan rai canolfannau arholi, bydd dyddiadau arholiadau haf 2023 yn hwyrach na'r arfer.

| **Lefel** | **Dyddiad yr arholiad** | **Dyddiad cau cofrestru** |
|---|---|---|
| Mynediad | Dydd Gwener 27 Ionawr 2023<br>Dydd Mercher 14 Mehefin 2023<br>Nos Iau 15 Mehefin 2023 | 8 Rhagfyr 2022<br>1 Mawrth 2023<br>1 Mawrth 2023 |
| Sylfaen | Dydd Gwener 23 Mehefin 2023 | 1 Mawrth 2023 |
| Canolradd | Dydd Gwener 16 Mehefin 2023 | 1 Mawrth 2023 |
| Uwch | Dydd Mercher a bore Iau 21-22 Mehefin 2023 | 1 Mawrth 2023 |

Wrth gofrestru, rhaid i ymgeiswyr nodi pa fath o gofrestriad a fwriedir:

i. Yr arholiad llawn (pob prawf)
ii. Prawf Siarad yn unig
iii. Cwblhau'r cymhwyster (yn dilyn sefyll y prawf Siarad y flwyddyn flaenorol)

Fel yn y gorffennol, bydd rhaid i ymgeiswyr gofrestru gyda chanolfan arholi (y darparwyr Dysgu Cymraeg) a bydd y data cofrestru'n cael eu hanfon i CBAC gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae gwybodaeth gyffredinol am yr arholiadau, yn ogystal â'r llyfrynnau i ymgeiswyr ar wefan CBAC, a cheir gwybodaeth hefyd ar wefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

9. **ALTE**

Cynhaliwyd cyfarfod a chynhadledd Tachwedd 2022 ym Mhrâg, ym Mhrifysgol Charles. Thema'r cyfarfod oedd asesu'r ieithoedd llai o safbwynt lluosieithrwydd. Roedd hi'n ddiddorol bod pob iaith heblaw'r Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg… a Saesneg yn eu hystyried eu hunain yn y categori hwn. Mewn gwirionedd, gall prawf unigol fod ar gyfer nifer bach o ymgeiswyr, waeth beth fo sefyllfa'r iaith ei hun.

**SIG Profion Ieithoedd Llai**

Mae hwn yn grŵp trafod newydd o fewn ALTE. Pwrpas y grŵp yw trafod sut mae sicrhau ansawdd wrth ddatblygu asesiadau ar gyfer niferoedd bach o ymgeiswyr (LWTL – 'less widely tested languages'). Mae aelodau'r grŵp yn gweithio ar lawlyfr a fydd o ddefnydd i aelodau ALTE sydd yn y sefyllfa hon, llawlyfr wedi'i fodelu ar y llawlyfr ar gyfer datblygu profion at ddibenion penodol sydd ar gael ar wefan ALTE. Fel rhan o'r cyfarfod ym Mhrâg, cyflwynodd Dominique Casanova ddulliau o ddadansoddi ystadegau gyda niferoedd bach, er mwyn sicrhau dibynadwyedd a chysondeb, e.e.
(i) 'direct consensus method' mae hwn yn debyg i ddull Angoff sy'n gofyn i banel ragweld hygyrchedd eitemau;
(ii) 'modified body of work method' – defnyddio diffiniadau o'r lluniad er mwyn sefydlu ffiniau graddau llwyddo;
(iii) 'linear regression model' – cymharu newidynnau a ragwelwyd â newidynnau mewn prawf byw (dyma'r 't-test' model).
Mae dulliau eraill sy'n fwy addas i arholiadau gyda nifer mawr o ymgeiswyr, e.e. gan ddefnyddio modelau Rasch. Y peth pwysig gyda'r dulliau ystadegol yw bod eu pwrpas yn glir, a bod modd gweithredu ar sail unrhyw ganlyniadau, e.e. os bydd yr ystadegau o'r cynbrofi'n dangos bod eitem neu dasg wedi bod yn rhy heriol neu'n rhy hawdd, fod modd addasu neu gael gwared â nhw.

Cafwyd gweithdy yn ystod y cyfarfod gan Jane Lloyd, Cambridge Assessment, a hithau'n sôn am ddulliau traddodiadol o ddadansoddi eitem, e.e. edrych ar y ffactor hyfedredd, y cymedr a'r gyfatebiaeth tasg gyfan (point biserial correlation) – h.y. pa mor gyfatebol yw'r eitem unigol i gyfanswm y prawf (eitemau sy'n gywir/anghywir, nid eitemau rhannol gywir). Mae llawer o ddulliau dadansoddi ystadegol ar gael i ddarparwyr arholiadau, a'r peth pwysig yw bod y dulliau a ddefnyddir yn berthnasol i gyd-destun y prawf a phwrpas y dadansoddi.

**Cynhadledd ALTE**


Ar ddechrau'r gynhadledd, cafwyd anerchiad gan ddirprwy Weinidog ar gyfer Materion Rhyngwladol Gwlad Tsiec. Canolbwyntiodd ar 'y sefyllfa' – sef effaith y rhyfel yn Wcrain. Mae Gwlad Tsiec wedi derbyn bron i 400,000 o ffoaduriaid, mwy na'r un wlad arall yn ôl maint y boblogaeth frodorol. Soniodd am y goblygiadau addysgol ac ieithyddol wrth i ysgolion a cholegau roi cynhaliaeth a chefnogaeth iddyn nhw. Nododd Václav Velčovsky gymaint roedd e'n ymfalchïo yn ymateb y sefydliadau addysgol a phobl Gwlad Tsiec i'r sefyllfa enbyd hon.

Roedd nifer o siaradwyr yn y gynhadledd, gan gynnwys Anne Gallagher o Iwerddon, a siaradodd am yr iaith Wyddeleg yn y cyd-destun rhyngwladol, gan archwilio sefyllfa'r iaith Swedeg fel iaith leiafrifol o fewn y Ffindir. Cyfeiriodd hefyd at ystadegau Eurydice 2017 a oedd yn cynnig gorolwg o bolisïau ieithyddol ar draws Ewrop, a'r ffaith fod 97.3% o'r myfyrwyr yn dysgu Saesneg fel eu hail iaith, yna (gyda niferoedd llawer is na'r Saesneg), Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Siaradodd Waldek Martyniuk o Wlad Pwyl am nodweddion a ffeithiau sy'n gwneud ieithoedd gwahanol yn ddiddorol. Roedd yn defnyddio'r Bwyleg fel enghraifft, ac yn dangos sut roedd geiriau, ymadroddion a nodweddion gramadegol yr iaith honno'n ei gwneud hi'n ddiddorol ei dysgu gan ystyried goblygiadau i faes asesu.

Mae gwybodaeth am weithgareddau ALTE, a'r gynhadledd ryngwladol nesaf a gynhelir ym mis Ebrill 2023 ar gael ar y wefan: www.alte.org.

Mae'n werth nodi fod llawlyfr newydd ar gael ar wefan ALTE, sy'n helpu perthynu arholiadau (ac addysg ieithoedd yn gyffredinol) â'r CEFR:




Lluniwyd y gyfrol gan aelodau ALTE, ar y cyd â'r Cyngor Prydeinig, UKALTA ac EALTA. Dyma'r ddolen uniongyrchol yma.